

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 17/2011



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion

Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion

Old Bell 3 Cyf a Dateb

Barn yr ymchwilyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn
Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Alison Rees

Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 20801125

E-bost: Alison.Rees@cymru.gsi.gov.uk

Llywodraeth Cymru, 2011

© Hawlfraint y Goron

CYNNWYS

1	
2.	CEFNDIR Y GWERTHUSIAD..... 11
4.	SEFYDLU A GWEITHREDIAD CANOLFANNAU CYMRAEG I OEDOLION 31
6.	PROFFESIYNOLI'R GWEITHLU CYMRAEG I OEDOLION 63
7.	ADNODDAU ADDYSGU A DYSGU CYMRAEG I OEDOLION..... 76
8.	ARHOLIADAU CYMRAEG I OEDOLION..... 86

1.1 CEFNDIR

1.1.1 Comisiynwyd Old Bell 3, mewn cysylltiad â Dateb, gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Cynhaliwyd y gwerthusiad hwn rhwng mis Medi 2007 a mis Mawrth 2010.

1.1.2 Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- Adolygiad o ddogfennau polisi a deunydd allweddol i egluro cyd-destun y Rhaglen Cymraeg i Oedolion;
- Adolygiad o ddata Rhaglen a gafwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion;
- Cyfweiliadau gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, yn cynnwys swyddogion APADGOS, staff Canolfannau Cymraeg i Oedolion, darparwyr trydydd parti a dysgwyr;
- Arolygon a thrafodaethau gyda ymarferwyr Cymraeg i Oedolion.

1.2 CANFYDDIADAU

1.2.1 Mae gwreiddiau'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion yn amlwg ym mholisi iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad ac mae'n elfen allweddol o'r ymgyrch i wireddu uchelgais Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg. Cafodd y Rhaglen ei siapio gan werthusiadau blaenorol, gan ymchwil cyfredol (yn cynnwys ein hadroddiad gwerthuso

interim) a gan ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid yn ystod ei chyfnodau cynnar.

- 1.2.2 Sefydlwyd chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion bwrpasol yn unol gydag argymhellion gwerthusiadau blaenorol a chanfyddiadau ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid. Mae pump ohonynt yn seiliedig o fewn sefydliadau Addysg Uwch ac un mewn coleg Addysg Bellach.
- 1.2.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi sefydlu patrwm o gydweithio sy'n galluogi cyfnewid gwybodaeth yn agored ac yn meithrin cydweithredu a chysondeb ar draws Cymru. Mae'r system o 'bwyllgorau' a 'gweithgorau' a sefydlwyd wedi esblygu ac yn parhau i wneud hynny wrth i Ganolfannau aeddfedu a heriau newydd ddod i'r amlwg.
- 1.2.4 Mae'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion wedi cychwyn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth yn eu hardaloedd. Ceisiodd pob un 'fapio' a dadansoddi cryfderau a gwendidau darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd eu hunain, ac mae hyn wedi helpu i roi darlun llawer cliriach o farchnadoedd rhanbarthol Cymraeg i Oedolion nag a fu ar gael erioed o'r blaen. Serch hynny, mae gwendidau mewn systemau casglu a rheoli data i ryw raddau yn dal i lesteirio Canolfannau rhag cynllunio a rheoli darpariaeth, ac mae consensws fod angen i Lywodraeth y Cynulliad, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a darparwyr dysgu trydydd parti gydweithio i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn.
- 1.2.5 Er bod gwendidau yn y data wedi llesteirio ein gallu i ddod i gasgliadau cadarn neu fanwl am effeithiau'r Rhaglen ar ddarpariaeth, y maent yn awgrymu fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi llwyddo i atal y gostyngiad yn nifer y dysgwyr Cymraeg i Oedolion a welwyd yn y cyfnod yn union cyn eu sefydlu. Mae'r data hefyd yn awgrymu fod nifer cynyddol o ddysgwyr yn symud ymlaen o gyrsiau Lefel Mynediad i Lefel Sylfaen a blwyddyn ar flwyddyn fod nifer cynyddol o ddysgwyr yn sefyll

arholiadau Cymraeg i Oedolion, a chredir fod llwyddiant yn yr arholiadau hynny'n sbardun i ddysgu pellach.

- 1.2.6 Mae'r Canolfannau wedi cychwyn sicrhau esblygiad graddol yn strwythur ac ansawdd darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd. Cyflwynwyd mathau newydd o gyrsiau e.e. "Cymraeg i'r Teulu" a 'Cymraeg yn y Gweithle' a rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddarpariaeth ddwys. Ar yr un pryd, daethpwyd â darpariaeth arall, llai effeithiol, i ben. Fodd bynnag, nid yw Canolfannau wedi llwyddo hyd yma i sicrhau'r raddfa o newid mewn darpariaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei dymuno a chredwn y medrai'r Canolfannau fod yn fwy uchelgeisiol a rhoi mwy o gyfeiriad wrth hybu newid.
- 1.2.7 Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, sylweddolwn y caiff Canolfannau eu llesteirio i raddau gan y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol sy'n milwrio yn erbyn symud tuag at ddarpariaeth fwy dwys. Mae hyn yn amlwg y tu allan i reolaeth y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ac yn fater y dylai Llywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael ag ef.
- 1.2.8 Soniodd Llywodraeth y Cynulliad am ei hawydd i weld twf yn lefel y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a gyflenwir drwy ddyrannu cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yng nghyllid 'craidd' y Canolfannau. Gwnaeth hefyd yn glir ei hymrwymiad i sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion drwy ddyrannu cyllid 'grant' wedi'i neilltuo i'w galluogi i dalu am eu costau rhedeg yn ystod eu pum mlynedd gyntaf mewn bodolaeth. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, nododd Llywodraeth y Cynulliad y dylai Canolfannau fod yn paratoi ar gyfer dyfodol heb, neu gyda lefelau is, o gyllid grant ar ôl Gorffennaf 2011. Ymhlyg yn y neges hon mae disgwyliad Llywodraeth y Cynulliad y dylai'r Canolfannau dalu cyfran uwch o'u costau rhedeg drwy 'frigdorri' cyllid craidd. Fodd bynnag, er mwyn diogelu darpariaeth, mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn cyfyngu i ba raddau y gall Canolfannau Cymraeg i Oedolion frigdorri cyllid i uchafswm o 15%.

1.2.9 Er y gall fod peth lle i rai Canolfannau gynyddu lefel y cyllid a gaiff ei frigidorri o'u cyllid craidd, mae perygl y byddai gwneud hynny yn dadsefydlogi darpariaeth fwy ymylol, yn neilltuol gyrsiau dwys a lefel uwch, sy'n tueddu i fod yn ddrutach i'w darparu ac yn llai hyfyw'n ariannol. Ymhellach, ni fyddai cyfradd 'brigidorri' cyffredinol o 15% yn ddigon i gynnal Canolfannau fel y maent ar hyn o bryd, hyd yn oed pe sicrheid arbedion effeithiolrwydd.

1.2.10 Yn realistig, os yw i sicrhau gwerth parhaus o'r buddsoddiad a wnaeth eisoes, bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad roi cyllid grant i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion i gyfrannu tuag at eu costau rhedeg hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, wrth wneud ymrwymiad i gefnogi'r Canolfannau yn y ffordd hon, byddai gan Lywodraeth y Cynulliad gyfiawnhad am ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau sicrhau rhai arbedion effeithiolrwydd.

1.2.11 Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion wedi cydweithio i ddatblygu 'brand' Cymraeg i Oedolion a hyrwyddo cyfranogiad mewn cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Gyda'i gilydd, maent wedi defnyddio rhai dulliau blaengar i hyrwyddo Cymraeg i Oedolion, yn cynnwys ymgyrchoedd teledu, gwefan 'cymraegioedolion.org' Cymru-gyfan ac ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus. Awgrymodd Arolwg Omnibus o oedolion yng Nghymru yn 2008 fod y brand Cymraeg i Oedolion wedi ennill ei blwyf. Mae pob Canolfan Cymraeg i Oedolion hefyd wedi sefydlu ei gwefan ei hun sydd, er y medrid dweud bod hynny'n anghydnaws gyda chysyniad 'brand' Cymru gyfan, yn rhoi manylion cyrsiau a gynigir yn lleol.

1.2.12 Ers 2006, mae Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi cynhyrchu a gweithredu cynlluniau hyfforddiant a datblygu cynyddol fwy gwybodus a manylach, gyda'r Cymhwyster Cenedlaethol newydd ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn dod yn nodwedd cynyddol amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er y gall rhai Canolfannau fod â pheth gwaith i'w wneud o hyd i fireinio eu rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus,

caiff ymarferwyr yn awr gynnig ystod ehangach o gyfleoedd hyfforddiant nag oedd ar gael cyn sefydlu'r Canolfannau. Byddai ein harolwg o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion¹ yn awgrymu fod ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a gawsant ac iddo gael effaith gadarnhaol ar eu harfer addysgu.

1.2.13 Daeth y Cymhwyster Cenedlaethol newydd ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn nodwedd cynyddol amlwg yng nghynlluniau hyfforddi a datblygu Canolfannau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ymdrech a roddwyd i gefnogi tiwtoriaid heb achrediad priodol i ddilyn cwrs Cymhwyster Cenedlaethol yn golygu, erbyn haf 2010, mai dim ond cyfran cymharol fach o weithlu presennol Cymraeg i Oedolion fydd yn dal i fod heb gymwysterau. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen wrth broffesiynoli'r gweithlu Cymraeg i Oedolion. Wrth gwrs, bydd y Cymhwyster Cenedlaethol yn parhau'n bwysig fel dull o sicrhau fod tiwtoriaid newydd yn ennill sgiliau priodol.

1.2.14 Dangosodd ein harolwg bod tiwtoriaid ar y cyfan yn gadarnhaol am addysgu Cymraeg i Oedolion a bod eu hargraffiadau o wneud hynny wedi gwella ers sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y rhan fwyaf o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn parhau i gael eu cyflogi ar gontractau sesiynol (sy'n golygu mai dim ond yr amser a dreuliant 'yn yr ystafell ddosbarth' y talir iddynt ac mai cymharol ychydig o sicrwydd swydd sydd ganddynt) yn atal addysgu Cymraeg i Oedolion rhag cael ei ystyried yn opsiwn 'gyrfa' deniadol na realistig. Serch hynny, bydd contractau sesiynol yn parhau'n asgwrn cefn addysgu Cymraeg i Oedolion hyd y gellir rhagweld a gall fod yn werth ceisio goresgyn o leiaf rai o'r canfyddiadau negyddol sy'n gysylltiedig gyda'r math yma o gyflogaeth. Yn gysylltiedig â hyn, medrai hefyd fod gwerth mewn ymchwilio os medrir gostwng faint o amser tiwtoriaid a dreulir ar waith papur.

¹ Oherwydd cyfradd ymateb gweddol isel i'r arolwg gellid bod tuedd o fewn y data, ac felly dylid ymdrin â'r canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal

1.2.15 Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad ystod o adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi Cymraeg i Oedolion. Mae'r adnoddau a gynhyrchwyd, a gafodd dderbyniad da yn gyffredinol gan diwtoriaid Cymraeg i Oedolion, yn rhoi llwybrau dysgu rhesymegol yn ogystal ag amrywiaeth i ddysgwyr, ac maent yn ddefnyddiol wrth sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

1.2.16 Fe wnaeth Llywodraeth y Cynulliad hefyd gomisiynu CBAC i ddatblygu fframwaith o arholiadau Cymraeg i Oedolion sy'n profi lefelau cynyddol uwch o sgiliau iaith. Mae'r arholiadau yn rhoi llwybr rhesymegol tuag at rugledd ac yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad o roi nodau cymhwyster seiliedig ar arholiadau ar gyfer dysgwyr. Bu cynnydd flwyddyn ar flwyddyn yn y nifer sy'n sefyll arholiadau CBAC, diolch i raddau helaeth i rôl y Canolfannau yn eu hyrwyddo ac yn gweinyddu'r broses gais. Dywedodd tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion a'r dysgwyr y buom yn siarad â hwy iddynt fanteisio o sefyll arholiadau a llwyddo ynddynt.

1.2.17 Ynghyd â datblygu arholiadau mae CBAC wedi datblygu Llwybrau Achrediad fel llwybr arall i ddysgwyr asesu eu cynnydd. Er ei bod yn rhy fuan ar y cam hwn i roi sylwadau ar effeithlonrwydd llwybrau achrediad, mae ein trafodaethau gyda thiwtoriaid a dysgwyr fel ei gilydd wedi awgrymu y gall fod angen rhoi sylw i lefel y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hwy.

1.3 ARGYMHELLION

1.3.1 Gwnawn gyfanswm o 33 argymhelliad yn gysylltiedig ag wyth thema. Rhoddir crynodeb ohonynt islaw.

1.3.2 Cynllunio a rheoli darpariaeth:

1. Dylai Cyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion gydweithio i wella prosesau dadansoddi marchnad a chynllunio strategol. Medrai

hyn gynnwys rhannu arbenigedd neu 'werthu' gwasanaethau i'w gilydd.

2. Dylai cynlluniau dwy Ganolfan a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad fel enghreifftiau o arfer gorau gael eu cyflwyno fel 'glasbrintiau' a'u rhannu gyda Chanolfannau eraill;
3. Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu ei gofynion cynllunio gyda'r nod o lacio'r baich ar y Canolfannau hynny sydd wedi cyflawni ei meini prawf;
4. Dylai Llywodraeth y Cynulliad osod diffiniadau clir o "cwblhau" a "chyrhaeddiad" a thrwy wneud hynny, dylai eu gweithredu ym mhob maes pwnc;
5. Dylai Llywodraeth y Cynulliad, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a darparwyr trydydd parti sicrhau y defnyddir prosesau cyson a chadarn ar gyfer cofnodi, casglu, dadansoddi a dehongli data Cymraeg i Oedolion;
6. Dylai Llywodraeth y Cynulliad oruchwylio cydgorodio data HESA a LLWR. Dylai hefyd sicrhau fod gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a'u darparwyr trydydd parti fynediad ar-lein i adroddiadau rheolaidd ac amserol ar ddarpariaeth;
7. Dylai'r Grŵp Cynllunio Strategol gynnal adolygiad o bwyllgorau a gweithgorau gyda golwg ar ostwng y nifer a sicrhau ffocws yn eu gwaith;
8. Dylai Pennaeth Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg gadeirio'r Grŵp Cynllunio Strategol a gweithio gyda ac ar ran Canolfannau Cymraeg i Oedolion.

1.3.3 Ariannu Cymraeg i Oedolion

9. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gydnabod y bydd angen iddi roi elfen o gyllid grant i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion i gynnal eu swyddogaethau rheolaeth craidd hyd y gellir rhagweld;
10. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion edrych ar eu polisïau ariannu gyda golwg ar ddefnyddio mwy o gyllid craidd i gyfrannu at gostau rheoli. Dylent hefyd edrych ar eu costau mewnol eu hunain a sut y medrent gydweithio i sicrhau arbedion.

11. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn trafodaethau gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion am drefniadau ariannu ar gyfer y dyfodol.

1.3.4 Newid Darpariaeth Cymraeg i Oedolion:

12. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithredu ei hymrwymiad i ymchwilio a chyflwyno dulliau newydd o wobrwyo Canolfannau Cymraeg i oedolion am gyflwyno darpariaeth ddwys ar lefel sy'n cymell cyflenwi.

13. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion roi mwy o gyfarwyddyd i ddarparwyr trydydd parti yn nhermau'r mathau o gyrsiau i'w cynnig mewn lleoliadau penodol;

14. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'u darparwyr trydydd parti chwarae eu rhan wrth wella recriwtio a chadw dysgwyr, eu dilyniant a'u lefelau cyrhaeddiad.

1.3.5 Marchnata Cymraeg i Oedolion:

15. Dylai Grŵp Marchnata Cymraeg i Oedolion baratoi cynlluniau gyda chostau, sy'n dynodi amcanion a mesurau canlyniad clir, ar gyfer ymgyrch cyfryngau cymdeithasol Cymraeg i Oedolion;

16. Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion fonitro'n agos effeithiau'r ymgyrch cyfryngau cymdeithasol;

17. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i CBAC a chyhoeddwyr eraill ddangos logo Cymraeg i Oedolion ar yr adnoddau dysgu ac addysgu perthnasol mae'n eu comisiynu neu'n eu rhan-ariannu, yn cynnwys Y Tiwtor;

18. Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion adolygu eu trefniadau gwefan gyda golwg at symud tuag at sefyllfa lle defnyddir gwefan www.cymraegioedolion.com fel porth ar gyfer gwefannau'r Canolfannau unigol, neu dros fabwysiadu un wefan i Gymru gyfan;

19. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gasglu data i'w galluogi i fonitro dangosyddion perfformiad penodol ychwanegol yn gysylltiedig â marchnata.

1.3.6 Cyflwyno Cymraeg i Oedolion:

20. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion barhau i weithio gyda'u darparwyr trydydd parti i fonitro'n agos nifer y dysgwyr a dilyniant dysgwyr o un lefel i'r nesaf;
21. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion fonitro'n agos y galw a'r defnydd o ddarpariaeth ddwys a darpariaeth wedi'i thargedu, gan roi sylw neilltuol i effeithiau gwrthanogaeth y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol ar ddarparu cyrsiau dwys;
22. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion barhau i gefnogi ymgeiswyr i gofrestru am arholiadau CBAC a'i gwneud yn ofynnol i'w darparwyr dalu costau arholiadau.

1.3.7 Proffesiynoli Cymraeg i Oedolion

23. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau penodol i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion ar y lefel gofynnol o ddatblygu proffesiynol parhaus y dylai tiwtoriaid ei gael;
24. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gydgordio ei hamserlen ar gyfer cynhyrchu cynlluniau hyfforddi a datblygu gyda'r amserlen ar gyfer cynlluniau strategol a gweithredol;
25. Mae angen i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion ystyried sut y dylai cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn y dyfodol;
26. Dylai Llywodraeth y Cynulliad a CBAC ailfeddwl am y ffordd y strwythurir Y Tiwtor, gyda golwg ar iddi ddod yn wefan fwy cyfredol a rhyngweithiol;
27. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion ymchwilio'r cydbwysedd rhwng gwaith ategol/gweinyddol ac addysgu a wneir gan diwtoriaid sesiynol ac ystyried os y dylid gwneud newidiadau i arferion gwaith a/neu gyfraddau tâl staff sesiynol;
28. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'u darparwyr trydydd parti ymdrechu i greu mwy o swyddi parhaol, yn rhai llawn-amser a rhan-amser;

29. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion ddatblygu cynlluniau olyniaeth gweithlu ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf.

1.3.8 Adnoddau Dysgu ac Addysgu:

30. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion barhau i hyrwyddo adnoddau addysgu a dysgu newydd i diwtoriaid;

31. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried gwneud pob adnodd electronig ar gael ar Moodle arfaethedig Cymraeg i Oedolion, fel y brif storfa gyfun ar gyfer deunyddiau ar-lein Cymraeg i Oedolion.

1.3.9 Arholiadau Cymraeg i Oedolion:

32. Mae angen i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a'u darparwyr trydydd parti i wneud ymdrech gydlynol i sicrhau mwy o ddefnydd a dealltwriaeth o lwybrau achredu ymysg tiwtoriaid a dysgwyr;

33. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, CBAC a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion ymchwilio'r posibilrwydd o ddyfarnu cymwysterau i ddysgwyr sy'n cwblhau'n llwyddiannus y nifer gofynnol o gredydau ar gyfer lefelau iaith neilltuol drwy ddilyn lwybrau achredu.

2. CEFNDIR Y GWERTHUSIAD

2.1 CYFLWYNIAD

2.1.1 Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ei hymrwymiad i adfywio'r iaith Gymraeg yn glir. Mae wedi sôn am ei huchelgais i gynyddu'r gyfran o bobl sy'n medru siarad Cymraeg, atal y gostyngiad yn nifer y cymunedau lle mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg a chynyddu'r gyfran o aelwydydd lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith. Yn fwy penodol yn Iaith Pawb, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog², rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad y cyfrifoldeb i'r Cyngor Cenedlaethol³ fel yr oedd ar y pryd i ddatblygu *“dull cydlynol o ddarparu Cymraeg i Oedolion”* ac am adolygu cynllunio a darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

2.1.2 Datblygu ac ailstrwythuro pellach ar y Rhaglen Cymraeg i Oedolion oedd ymateb y Cyngor Cenedlaethol bryd hynny i arweiniad polisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion yn cynnwys nifer o brosiectau a gynlluniwyd ymhlith pethau eraill i:

- Ddiwygio'r trefniadau ar gyfer cynllunio, threfnu ac ariannu darpariaeth Cymraeg i Oedolion;
- Hyrwyddo darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn effeithlon;
- Proffesiynoli'r gweithlu addysgu Cymraeg i Oedolion;
- Datblygu deunyddiau addysgu a dysgu ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion;
- Datblygu continwwm cydlynol a chynyddol o gymwysterau Cymraeg i Oedolion.

2.1.3 Comisiynwyd Old Bell 3, mewn cysylltiad â Dateb, gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth y

² Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog, Chwefror 2003

³ Roedd Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddwyd gan y Cynulliad, a elwid fel arfer yn ELWa. Daeth y Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn rhan o Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006.

Cynulliad i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Cynhaliwyd y gwerthusiad hwn rhwng Medi 2007 a Mawrth 2010.

2.2 DIBEN Y GWERTHUSIAD

2.2.1 Diben y gwerthusiad oedd asesu effeithiau ac effeithlonrwydd y Rhaglen Cymraeg i Oedolion i fod yn sail i'w datblygiad yn y dyfodol. Yn fwy penodol, amcanion yr astudiaeth, a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yw:

- i gwerthuso i ba raddau y cafodd yr argymhellion o'r gwerthusiad blaenorol o Cymraeg i Oedolion eu mabwysiadu;
- ii gwerthuso i ba raddau y cyflawnodd pob prosiect unigol ei nod ac amcanion;
- iii asesu cysyniad cyffredinol y cynllun ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion a ph'un ai all gyflawni gofynion gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg fel y'u disgrifir yn 'Iaith Pawb', y cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog;
- iv asesu'r cynnydd tuag at broffesiynoli hyfforddiant a strwythur gyrfa tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- v asesu i ba raddau y mae'r chwe chanolfan iaith bwrpasol wedi darparu fframwaith cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cynllunio darpariaeth Cymraeg i Oedolion;
- vi asesu'r cynnydd tuag at wella ansawdd dysgu a chyflawni safonau cenedlaethol cyson;
- vii asesu i ba raddau y mae ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion wedi rhoi ystod gynhwysfawr o ddarpariaeth gyda chyrsgiau ar bob lefel i sicrhau dilyniant myfyrwyr;
- viii asesu effeithlonrwydd marchnata Cymraeg i Oedolion yn nhermau ymgyrchoedd cenedlaethol a hefyd weithgareddau marchnata gan ganolfannau iaith unigol;
- ix pennu canlyniadau ac effeithiau'r prosiect ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion a phrosiectau eraill Cymraeg i Oedolion ar ddysgwyr, darparwyr dysg a buddiolwyr a chyfryngwyr eraill;

- x rhoi arweiniad yn nhermau datblygiad a gweithrediad parhaus y gweithgareddau Cymraeg i Oedolion sydd eisoes yn mynd rhagddynt; a
- xi cynnig argymhellion ar gyfer datblygu Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol yn nhermau darpariaeth, asesu, cynllunio, hyfforddi tiwtoriaid, marchnata, dysgu electronig, dysgu anffurfiol a chefnogaeth i fyfyrwyr.

2.3 DIBEN YR ADRODDIAD HWN

2.3.1 Cynhaliwyd y gwerthusiad hwn mewn nifer o gymalau dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner. Y camau cysylltiedig oedd:

- Dechreuad;
- Adolygiad o Resymwaith y Rhaglen a'r Trefniadau Rheoli;
- Datblygu Fframwaith Werthuso a Chynllun Gwaith Maes Manwl;
- Adolygiad Dechreuol o Ddatblygiadau o fewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion⁴;
- Ton Gyntaf Adolygiadau Thematig, gan edrych ar dair thema ar wahân:
 - Datblygu Adnoddau Addysgu a Dysgu
 - Datblygu Cymwysterau Cymraeg i Oedolion
 - Proffesiynoli Cymraeg i Oedolion;
- Adolygiad Interim o Ddatblygiadau o fewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion;
- Gwerthusiad Lefel Rhaglen Interim;
- Ail Don Adolygiadau Thematig yn edrych ymhellach ar dair thema:
 - Datblygu Adnoddau Addysgu a Dysgu
 - Datblygu Cymwysterau Cymraeg i Oedolion
 - Proffesiynoli Cymraeg i Oedolion;
- Adolygiad Terfynol o Ddatblygiadau o fewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion;
- Gwerthusiad Lefel Rhaglen Derfynol.

⁴ Weithiau gelwir y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn Ganolfannau Iaith, er mai'r term cyffredin yw Canolfannau Cymraeg i Oedolion.

2.3.2 Yn yr adroddiad hwn cyflwynwn ganfyddiadau ein Gwerthusiad Lefel Rhaglen Derfynol. Dyma ddegfed cam – a cham olaf – y prosiect gwerthuso a daw ynghyd â materion a drafodwyd yn y tri Adroddiad Adolygiad Thematig a'r Adroddiad ar ein Hadolygiad Terfynol o Ddatblygiadau mewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Dylai darllenwyr sydd eisiau adroddiad manylach o sut y gweithredwyd y Rhaglen gyfeirio at yr adroddiadau hyn.

2.3.3 Yn yr adroddiad hwn:

- Cyflwynwn y cyd-destun ar gyfer sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion a thrafod i ba raddau y cafodd argymhellion gwerthusiadau blaenorol eu mabwysiadu wrth eu sefydlu (Pennod 3);
- Trafod y broses o sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion, ystyried y ffordd y maent yn gweithredu ac ymchwilio i ba raddau y mae'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion wedi rhoi fframwaith cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cynllunio darpariaeth Cymraeg i Oedolion (Pennod 4);
- Rhoi trosolwg o'r modd yr esblygodd darpariaeth Cymraeg i Oedolion ers sefydlu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion (Pennod 5);
- Ymchwilio natur ac effeithiau'r mesurau a gymerwyd i broffesiynoli'r gweithlu Cymraeg i Oedolion (Pennod 6);
- Ymchwilio natur ac effeithiau gweithgareddau a gynhaliwyd i ddatblygu adnoddau Cymraeg i Oedolion (Pennod 7);
- Ymchwilio natur ac effeithiau gweithgareddau a gynhaliwyd i ddatblygu arholiadau a llwybrau achrediad Cymraeg i Oedolion (Pennod 8);
- Cyflwyno ein casgliadau am natur a datblygiad y Rhaglen Cymraeg i Oedolion yn ei chyfanrwydd a chynnig argymhellion yng ngoleuni'r casgliadau hynny (Pennod 9).

2.3.4 Mae'r Gwerthusiad Lefel Rhaglen derfynol yn seiliedig ar:

- Adolygiad o ddogfennau polisi ac adroddiadau ymchwil Llywodraeth y Cynulliad yn berthnasol i brosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion;
- Adolygiad o ddogfennau allweddol pob Canolfan Cymraeg i Oedolion yn cynnwys cynlluniau strategol a chynlluniau gweithredol;
- Adolygiad o'r dogfennau'n ymwneud â marchnata Cymraeg i Oedolion, ac â gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus Cymraeg i Oedolion yn yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Adolygiad o ystod o ddogfennau yn cyfeirio at un ar ddeg prosiect a grwpwyd yn amrywiol i dair thema:
 - Adnoddau Addysgu a Dysgu
 - Cymwysterau Cymraeg i Oedolion a
 - Proffesiynoli Cymraeg i Oedolion;
- Cyfweiliadau gyda staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n goruchwylio'r prosiect Cymraeg i Oedolion;
- Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr allweddol o bob un o'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion, yn gyntaf ddiwedd 2007, eto yn hydref 2008 ac, am y trydydd tro, yn hydref 2009;
- Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr sefydliadau sydd wedi ymrwymo i gytundebau contract gyda'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion i gyflenwi darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Cyfwelwyd â chynrychiolwyr 11 sefydliad yn 2008 a 10 sefydliad yn 2009;
- Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliad, yn cynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a CBAC⁵;
- Dau arolwg ar y we o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion, un a gynhaliwyd ym Medi 2008 a'r ail ym Mai/Mehefin 2009. Gwahoddwyd 100% o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion i ymateb i holiadur ar-lein trwy glicio ar ddolen gyswllt o fewn e-bost a yrrwyd atynt. Cafwyd ymateb gan 106 o diwtoriaid (15.8%) i arolwg 2008, tra ymatebodd 144 tiwtor (21.5%) i arolwg 2009. Er ein bod yn cyflwyno darganfyddiadau'r arolygon yn yr adroddiad hwn, rydym yn cydnabod y gellid bod tuedd o fewn y data oherwydd cyfradd

⁵ Mae CBAC yn darparu arholiadau, asesiad, datblygiad proffesiynol, adnoddau addysgol a chefnogaeth i ddysgwyr

ymateb gweddol isel i'r arolygon, ac y dylid felly ymdrin â'r canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal;

- Trafodaethau grŵp ffocws gyda sampl bach o Diwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- Trafodaethau grŵp ffocws gyda sampl bach o ddysgwyr Cymraeg i Oedolion.

2.3.5 Hoffem ddiolch i staff Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion am eu cymorth caredig bob amser.

3. CEFNDIR PROSIECT AILSTRWYTHURO CYMRAEG I OEDOLION

3.1 CYFLWYNIAD

3.1.1 Yn y bennod hon ystyriwn:

- I ba raddau y mae'r rhaglen bresennol Cymraeg i Oedolion yn gydnaws gyda gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg a ph'un ai yw'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun y polisi sy'n dod i'r amlwg ar addysg Gymraeg (adran 3.2);
- I ba raddau y rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion gwerthusiadau blaenorol o Cymraeg i Oedolion wrth lunio'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion bresennol (adran 3.3);
- Tryloywder ac effeithlonrwydd yr ymagwedd a gymerwyd i ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion (adran 3.4);
- I ba raddau y mae'r Prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion (adran 3.5).

3.2 CYD-DESTUN POLISI

3.2.1 Sefydlwyd rhaglen genedlaethol Cymraeg i Oedolion yn 1994 pan gafodd wyth consortiwm, wedi'u canoli ar yr wyth sir flaenorol yng Nghymru, gyfrifoldeb am drefnu darpariaeth dysgu yn eu hardaloedd, gan adeiladu ar y trefniadau presennol. Dyrannwyd cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymraeg i Oedolion yn uniongyrchol i golegau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, YMCA, Coleg Harlech/WEA (Gogledd) a WEA De, a daeth y trefniadau ariannu hyn yn ddiweddarach yn gyfrifoldeb y cyn ELWa pan y'i sefydlwyd yn 2000.

3.2.2 Dangosodd y targedau uchelgeisiol a nodwyd yn **laith Pawb**⁶ yn glir fod y Rhaglen Cymraeg i Oedolion, fel y safai, wedi cyrraedd gwastad. Mae laith Pawb yn agored yn gosod yr agenda o "*adfywio a rhoi egni*

⁶ laith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog (Tachwedd 2003)

*newydd*⁷ i'r iaith ac yn amlinellu nod Llywodraeth y Cynulliad o greu cynnydd cyson yn nifer a hefyd y canran o bobl sy'n medru siarad Cymraeg. Nododd y ddogfen bum targed allweddol i'w cyflawni erbyn 2011 er mwyn creu Cymru ddwyieithog. Mae'r prif darged cyntaf sef "*bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynyddu gan 5 pwynt canran o ffigurau cyfrifiad 2001*" yn neilltuol o berthnasol i'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion.

3.2.3 Un o'r prif nodau a gyflwynwyd yn **Strategaeth ELWa ar Ddysgu Dwyieithog** (a ffurfiodd ran o'r **Cynllun Iaith Gymraeg** 2005) oedd "*cyfrannu at gynyddu faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a'i defnyddio'n effeithiol yn eu bywydau gwaith a phersonol*"⁸, gan felly adleisio ac ategu'r uchelgeisiau a nodwyd yn Iaith Pawb.

3.2.4 Yn y Strategaeth hon, gwnaeth ELWa ymrwymiad i "*gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion a rhoi cyllid ar gyfer twf*"⁹. Aeth y Strategaeth ymlaen i ddweud fod ELWa wedi mabwysiadu arfer ei ragflaenydd¹⁰ o weithio gyda chonsortia o ddarparwyr Cymraeg i Oedolion i sicrhau cynllunio ar y cyd a gwell cyfleoedd ar gyfer dilyniant, er y bwriadai hefyd "*aillstrwythuro darpariaeth*"¹¹ yn dilyn gwerthusiad y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) yn 2003 (gweler adran 2.3 islaw). Dynododd y Strategaeth wyth cam gweithredu allweddol fyddai'n galluogi ELWa i gyflawni ei amcanion aillstrwythuro a galwodd yr olaf o'r rhain am weithredu i sefydlu "*canolfannau iaith unswydd*"¹².

3.2.5 Mae "***Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith***"¹³ yn cyfnerthu'r camau a gymerwyd i weithredu newidiadau blaengar yn y ffordd y darparir y rhaglen Cymraeg i Oedolion ac aeth ymlaen i ddweud y bydd

⁷ Rhagymadrodd

⁸ t25

⁹ t28

¹⁰ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

¹¹ t29

¹² ibid

¹³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

Llywodraeth y Cynulliad (yr oedd ELWa yn rhan ohoni erbyn hynny) yn *“aiffywiogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion trwy barhau i gryfhau cydlynu cenedlaethol trwy’r chwe chanolfan iaith un pwrpas sydd wedi’u sefydlu i gynorthwyo i ddatblygu rhwydweithiau dysgu sy’n gallu cyflwyno cyfleoedd o safon uchel er mwyn i bobl ddysgu’r Gymraeg”*¹⁴.

3.2.6 Soniodd **Cymru’n Un**¹⁵ am fwriad i fynd gam ymhellach i lawr heol ailstrwythuro drwy ymchwilio *“sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion a ariennir yn ddigonol, gan roi blaenoriaeth i addysg diwtora”*. Yn wir, mae’r ymrwymiad hwn yn adleisio argymhelliad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1999, yn fuan cyn ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol *“fuddsoddi yn nyfodol hirdymor yr iaith drwy gyllido uned ganolog newydd maes Cymraeg i Oedolion”*¹⁶. Rhagwelwyd y byddai uned o’r fath yn arwain ar gynllunio strategol ar lefel genedlaethol ac yn cynorthwyo’r wyth consortiwm a fodolai bryd hynny i gynllunio o fewn eu hardaloedd, yn ogystal â sicrhau bod *“fframwaith o gymwysterau ar gael ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr”, “adnabod anghenion dysgwyr”, “datblygu adnoddau”*¹⁷ a sicrhau ansawdd darpariaeth.

3.2.7 Cafodd thema **Cymru’n Un** ei nodi’n ddiweddarach yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009, ar adeg pan oedd Uned Datblygu’r Iaith Gymraeg wedi’i sefydlu (o fewn APADGOS) *“i ddarparu cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg”*¹⁸. Soniodd dogfen ymgynghori Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg am werth *“y system tair lefel o gynllunio a chyflwyno strategol”*¹⁹ a sefydlwyd yng nghyswllt Cymraeg i Oedolion a gwnaeth

¹⁴ t24

¹⁵ Cymru’n Un: *Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru: Cytundeb rhwng Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol (2007)*

¹⁶ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth Cymraeg i Oedolion*, Ebrill 1999, eitem 4.1

¹⁷ Ibid, eitem 4.9

¹⁸ t5

¹⁹ t76

ymrwymiad “*yn y tymor canolig*”²⁰ i ategu'r “*strwythurau sydd wedi'u rhoi ar waith yn y canolfannau er mwyn gallu parhau i gynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth ar lawr gwlad*”²¹. Aeth y ddogfen ymlaen i nodi'r bwriad hirdymor i “*atgyfnerthu'r gydberthynas waith agos sydd wedi'i meithrin eisoes rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r chwe chanolfan ac ystyried y canolfannau Cymraeg i Oedolion a'u staff yn rhan o dîm yr uned Cymraeg i Oedolion*”²². Mae'r ymagwedd yma'n cyfleu dwy neges bwysig: yn gyntaf, fod Llywodraeth y Cynulliad ei hunan yn hawlio'r cyfrifoldeb am y rhaglen Cymraeg i Oedolion (yn hytrach na'i ddirprwyo i gorff arall) ac yn ail, bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi lle canolog i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn ei ymagwedd ehangach at yr iaith ac addysg Gymraeg.

3.2.8 Cyflwynodd y ddogfen ymgynghori Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg nifer o heriau sy'n wynebu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion (a'u partneriaid), ac sy'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed eisoes. Yr heriau a ddynodwyd oedd:

- “*ad-drefnu darpariaeth er mwyn cynllunio a chyflwyno cyrsiau newydd ar bob lefel o'r fframwaith cenedlaethol ledled Cymru*”²³;
- “*gwella ansawdd y ddarpariaeth*”²⁴ ;
- mynd â'r “*Gymraeg i'r gymuned ... sicrhau bod canolfannau Cymraeg i Oedolion yn fwy amlwg ... a dod yn 'llwyfan' ar gyfer dysgu Cymraeg, ac yn fannau lle y gall dysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth*”²⁵;
- cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn “*cyrsiau dwys*” er mwyn gostwng y gyfradd o bobl yn gadael cyrsiau a rhoi ffordd fwy effeithiol o ddysgu. Yn gysylltiedig â hyn, ymgwymerodd Llywodraeth y Cynulliad i ystyried opsiynau “*ar gyfer ariannu darpariaeth*

²⁰ ibid

²¹ ibid

²² ibid

²³ t78

²⁴ ibid

²⁵ ibid

*Cymraeg i Oedolion er mwyn cynyddu darpariaeth ddwys yn y tymor canolig*²⁶;

- datblygu “*darpariaeth benodol ar gyfer y sectorau â blaenoriaeth*” megis “*teuluoedd a “y man gwaith*”²⁷ ac efallai “*ymarferwyr addysg*”²⁸, “*myfyrwyr addysg uwch*”²⁹ a phobl “*a gafodd wersi Cymraeg yn yr ysgol*”³⁰ ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith fel oedolion;
- ymchwilio arloeseddau posibl fel “*e-ddysgu*” a “*dulliau amgen ar gyfer addysgu a dysgu*”;
- “*sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus staff addysgu*”³¹ ;
- “*cynyddu nifer y staff [addysgu] llawn amser*”³² a gyflogir gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a'u darparwyr allanol.

3.2.9 Cadarnhaodd y ddogfen Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg derfynol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010, ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi Canolfannau Cymraeg i Oedolion fel cyfryngau ar gyfer cynllunio a chyflenwi “*darpariaeth newydd a gwell*”, gan arwain at gynyddu “*nifer y dysgwyr sy'n dod yn rhugl*”, yn enwedig drwy *gyrsiau dwys*”, drwy *gyrsiau Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer y gweithle*” a thrwy *gyrsiau i “rieni a gofalwyr a theuluoedd*”. Mae'r ddogfen hefyd yn sôn am rôl Canolfannau Cymraeg i Oedolion wrth gynllunio a chyflenwi gwell cyfleoedd dysgu anffurfiol.

3.2.10 Mae'r ddogfen Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn sôn am yr angen i “*adolygu systemau casglu data*” i sicrhau “*meincnodi manwl gywir*” o ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion er mwyn “*codi safonau mewn addysgu a dysgu Cymraeg*”. Mae'n sôn hefyd am yr angen i Ganolfannau “*cynnal y fframwaith cenedlaethol ar gyfer asesu*” a “*datblygu cymwysterau pwrpasol ar gyfer y gweithlu a'r teulu*”.

²⁶ ibid

²⁷ t79

²⁸ ibid

²⁹ ibid

³⁰ ibid

³¹ t78

³² t88

3.2.11 Mae'r Strategaeth hefyd yn cyfeirio at ddatblygu fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn cynnwys y "*Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr Cymraeg i Oedolion*".

3.3 ADOLYGIADAU BLAENOROL O'R RHAGLEN CYMRAEG I OEDOLION

3.3.1 Soniodd ymchwil a gynhaliwyd gan SCYA³³ ac Estyn³⁴ yn 2003-4 am wendidau yn y Rhaglen Cymraeg i Oedolion fel yr oedd a galw am ddiwygio sylweddol. Edrychodd y ddwy astudiaeth allweddol hyn ar gryfderau a gwendidau seilwaith Cymraeg i Oedolion bryd hynny ac mae'n amlwg y rhoddwyd ystyriaeth i'w hargymhellion wrth lunio cynigion ar gyfer ad-drefnu'r system, ynghyd â data poblogaeth a chyfranogiad. Trafodir canfyddiadau'r ddwy astudiaeth hon yn fyr yma.

3.3.2 Yn 2003 comisiynwyd SCYA gan y Cyngor Cenedlaethol-ELWa i gynnal ***Gwerthusiad o'r Rhaglen Genedlaethol Cymraeg i Oedolion***. Prif nod y gwerthusiad oedd "*sefydlu beth yw effaith y rhaglen Cymraeg i Oedolion ar gyflwyno hyfforddiant yn y Gymraeg, ac asesu pa mor effeithiol y bu fel cyfrwng i ddatblygu cydweithio rhwng darparwyr a dulliau newydd o addysgu Cymraeg, ac ymateb i fylchau yn y ddarpariaeth ddysgu*"³⁵

3.3.3 Canfyddiad allweddol yr adroddiad oedd bod angen newid blaengar yn y ffordd y cynllunnir ac y cyflwynir Cymraeg i Oedolion yn lleol er mwyn gwella safonau. Canfu'r gwerthusiad, "*ar eu mwyaf effeithiol*", bod y consortia a fodolai bryd hynny "*wedi lledaenu gwybodaeth ac arfer da, wedi trefnu recriwtio a hyfforddi tiwtoriaid, wedi osgoi dyblygu cyrsiau ac wedi cynllunio sefydlu darpariaeth newydd*". Aeth ymlaen i ddweud "*Tuedd fel arall y consortia oedd bod y rhan fwyaf ohonynt wedi methu*

³³ SCYA, (2003), Gwerthusiad o'r Rhaglen Genedlaethol Cymraeg i Oedolion

³⁴ Estyn, (2004), Ansawdd y Ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i Oedolion

³⁵ t4

*atal cystadleuaeth rhwng darparwyr a dyblygu cyrsiau, wedi bod yn rhy anhyblyg i ganiatáu i ddarparwyr ymestyn eu darpariaeth, ac yn aml wedi methu atal gwastraffu adnoddau. Gwendid hanfodol y strwythur presennol oedd y tyndra cynhenid rhwng system ariannu oedd yn annog cystadleuaeth rhwng darparwyr am ddysgwyr, a swyddogaeth consortia oedd â chyfrifoldeb dros resymoli heb y grym na'r adnoddau i'w orfodi"*³⁶.

3.3.4 Canfu'r gwerthusiad fod dadansoddiad cywir o wir gost darpariaeth Cymraeg i Oedolion wedi profi'n anodd gan fod darparwyr yn methu gwahanu llawer o'r eitemau cost yn gysylltiedig â'r Rhaglen o gostau cyflenwi eu darpariaeth ehangach.

3.3.5 Daeth y gwerthusiad i'r casgliad fod y rhaglen Cymraeg i Oedolion wedi arwain at gynnydd cyson yn nifer y bobl yn dysgu Cymraeg a bod hyn yn rhannol yn ganlyniad ymrwymiad, ewyllys da a pharodrwydd ymarferwyr a gweinyddwyr coleg i 'deithio'r ail filltir'. Dywedodd yr adroddiad *"Defnyddiai'r rhan fwyaf o ddarparwyr amrywiaeth pur effeithiol o ddulliau marchnata, ond nid oeddent bob amser yn cyrraedd eu holl grwpiau targed. Roedd cynulleidfaoedd newydd ac allweddol wedi cael eu nodi fel rhieni plant ysgol yn dysgu Cymraeg, pobl yn y gweithle, a newydd-ddyfodiaid i Gymru. Cafwyd peth llwyddiant wrth fynd â darpariaeth i'r grwpiau hyn, ond roedd llawer o rwystrau ymarferol i'w goresgyn o hyd"*³⁷. Dadleuodd y gwerthusiad hefyd y medrid gwella cadw dysgwyr a'u dilyniant i gyrsiau uwch.

3.3.6 Gwnaeth yr adroddiad gwerthuso un ar ddeg o argymhellion allweddol ar gyfer dyfodol y Rhaglen yn cynnwys argymhellion ynghylch ei ailstrwythuro, sef:

- 1 Dylid cydnabod fod statws Cymraeg i Oedolion yn wahanol i statws meysydd pwnc eraill Addysg Bellach er mwyn adlewyrchu cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith genedlaethol gan Lywodraeth

³⁶ t24
³⁷ t42

Cynulliad Cymru a *“rhan hanfodol ac oesol o hanes, diwylliant a gwaed cymdeithasol ein cenedl”*.

- 2 Bod lefelau ariannu presennol y rhaglen Cymraeg i Oedolion yn annigonol, a hynny o ran yr uned ddysgu Addysg Bellach sylfaenol a hefyd bwysiad pwnc y Gymraeg. Dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer y rhaglen Cymraeg i Oedolion i 2.5 gwaith gwerth yr Uned Dysgu Myfyrwyr sylfaenol a dylai cyllid gael ei neilltuo.
- 3 Dylid datblygu asiantaeth ganolog i arwain, cydlynu a chyllido'r rhaglen Cymraeg i Oedolion.
- 4 Dylid asesu cyrsiau Cymraeg Addysg Uwch a ddiffinnir ar hyn o bryd fel rhai Gloywi neu Graenus³⁸ bob yn un i benderfynu ai cyllid Cyngor Cenedlaethol–ELWa neu Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru³⁹ sydd fwyaf addas.
- 5 Dylid ystyried un neu ddau fodel sefydliadol i gymryd lle'r consortia : Opsiwn A: un darparydd fesul rhanbarth daearyddol ar gyfer cyrsiau dwys ac uwch ac un darparydd ar gyfer darpariaeth sylfaen unwaith-yr-wythnos. Opsiwn B: un darparydd arweiniol fesul rhanbarth daearyddol ymarferol, y darparydd arweiniol i ddyrannu cyllid a rhesymoli darpariaeth ymysg darparwyr eraill fyddai'n cael eu hisgontractio i'w darparu – yn ei hanfod, y model a fabwysiadwyd ers hynny.
- 6 Dylid sefydlu fforwm darparwyr yn genedlaethol i hyrwyddo cydweithredu a lledaenu gwybodaeth ac arfer da ar hyd a lled Cymru.
- 7 Dylid gosod yr holl gyrsiau Cymraeg i Oedolion o fewn fframwaith cenedlaethol pum lefel sy'n adlewyrchu'r Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer ieithoedd.
- 8 Dylid cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cofrestru i sefyll arholiadau ffurfiol trwy anogaeth a chymhelliad.

³⁸ Cyrsiau a gynlluniwyd yn gyffredinol i wella Cymraeg ysgrifenedig siaradwyr medrus.

³⁹ Y Cyngor Cyllido Addysg Uwch yw'r corff cyfryngwr rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am ddsbarthu cyllid ar gyfer addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig yn y 12 o sefydliadau addysg uwch sydd yng Nghymru.

- 9 Dylid datblygu cymhwyster cenedlaethol ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion a'i weld fel hanfodol i'r rhai sy'n dymuno gweithio fel tiwtoriaid.
- 10 Dylid cynyddu amlygrwydd trefn gomisiynu Cyngor Cenedlaethol-ELWa ar gyfer deunyddiau addysgu newydd.
- 11 Dylai'r cyllid sydd wedi ei glustnodi i ddarparwyr gynnwys elfen ar gyfer cysylltu â chyrrff fel CYD⁴⁰ a'r Mentrau Iaith a threfnu gweithgareddau allgyrsiol.

3.3.7 Cafodd nifer o'r argymhellion a wnaed yn y gwerthusiad eu mabwysiadu'n ddiweddarach ac mae canlyniadau hynny'n yn amlwg yn rhaglen bresennol Cymraeg i Oedolion. Yn neilltuol, arweiniodd Opsiwn B a amlinellwyd dan argymhelliad 5 ar ailstrwythuro'r Rhaglen at sefydlu chwe darparydd arweiniol rhanbarthol.

3.3.8 Mae adroddiad Estyn yn 2004 ***Ansawdd y Ddarpariaeth yn y Gymraeg i Oedolion*** yn defnyddio tystiolaeth o adroddiadau arolygu ar sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch unigol a arolygwyd rhwng 1997 a 2004 yn ogystal â thrafodaethau unigol gyda chadeiryddion pob un o'r wyth consortiwm Cymraeg i Oedolion a fodolai ar y pryd a sampl o ddarparwyr oedd yn aelodau o'r consortia hynny.

3.3.9 Mae adroddiad Estyn yn cynnwys trefniadaeth a rheolaeth strategol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, cyllid, cynllunio a marchnata cyrsiau, tueddiadau yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg, ansawdd yr addysgu, argaeledd ac ansawdd darpariaeth, cyraeddiadau dysgwyr, cwblhau a dilyniant, cefnogaeth i fyfyrwyr ac adnoddau addysgu.

3.3.10 Mae adroddiad Estyn yn nodi fod gwendidau yn nhrefniadaeth a chynllunio strategol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Er bod yr adroddiad yn cydnabod y cafodd sefydlu'r consortia Cymraeg i

⁴⁰ Cyngor y Dysgwyr. Roedd CYD yn sefydliad elusennol cenedlaethol a anelai i helpu i droi dysgwyr Cymraeg yn siaradwyr drwy drefnu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu anffurfiol, yn aml yn cynnwys pobl yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ogystal â dysgwyr. Fodd bynnag, daeth CYD i ben ym mis Mawrth 2008.

Oedolion yn 1994 effaith sylweddol pan gawsant eu sefydlu wrth greu mwy o gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, daeth i'r casgliad "*nid yw strwythur y consortia bellach yn gweithio'n ddigon da*"⁴¹. Mae'r adroddiad yn cydnabod y sefydlwyd yr wyth consortiwm gwreiddiol yn unol â'r wyth Awdurdod Addysg Lleol a fodolai ddechrau'r 1990au, ond ers ad-drefnu llywodraeth leol nad oedd y rhesymeg ar gyfer y trefniant consortia bellach yn bodoli ac "*nid oes gan y consortia awdurdod a chyllid digonol i fod yn medru cynllunio a rheoli'n effeithiol*"⁴².

3.3.11 Canfu Estyn fod lefelau'r cyllid ar y pryd yn cyfyngu'n sylweddol ar nifer o agweddau o'r ddarpariaeth megis marchnata, twf, staffio a datblygu adnoddau dysgu. Dywedodd yr adroddiad fod gormod o amrywiaeth yn y gyfran o gyllid oedd yn cyrraedd darparwyr Cymraeg i Oedolion a bod hyn er anfantais y dysgwyr.

3.3.12 Soniodd Estyn am brinder cyrsiau dwys, yn neilltuol ar lefelau uwch, i raddau helaeth oherwydd strwythurau ariannu nad oedd yn adlewyrchu costau uwch cyflwyno darpariaeth o'r fath. Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylid creu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymuned leol a'u gweithle, y dylid dynodi mwy o gyfleoedd e-ddysgu ac y dylai cyrsiau gael eu marchnata i grwpiau targed penodol.

3.3.13 Canfu Estyn fod safonau cyrhaeddiad ac ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well yn nhri chwarter y darparwyr Cymraeg i Oedolion a arolygwyd, ac nad oedd unrhyw ddarpariaeth y barnwyd ei bod yn anfoddhaol yn gyffredinol. Canfu fod tua 85% o fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser yn cwblhau eu cyrsiau, er bod cyfraddau cwblhau yn tueddu i fod yn well ar gyrsiau dwys a lefel uwch. Fodd bynnag, nid oedd cyfraddau cyrhaeddiad myfyrwyr mor dda: dim ond 64% o fyfyrwyr llawn-amser a 40% o fyfyrwyr rhan-amser enillodd y cymhwyster yr oeddent wedi cofrestru amdano.

⁴¹ t2

⁴² t20

3.3.14 Yn olaf, nododd adroddiad Estyn er bod twf sylweddol yn nifer yr oedolion yn dysgu Cymraeg ar ôl sefydlu consortia Cymraeg i Oedolion yn 1994, bod y twf hwn wedi gostwng mewn blynyddoedd dilynol, er bod y nifer wedi cofrestru wedi cynyddu eto yn 2002-2003 ac yn fwy na 25,000 yn 2004.

3.3.15 Nodir na fabwysiadwyd yr argymhellion gan SCYA a hefyd gan Estyn y dylid cynyddu cyllid y rhaglen i 2.5 gwerth sylfaen Uned Dysgu Myfyrwyr a bod y cyllid ar hyn o bryd yn 1.5 gwaith yr Uned Cyfwerth Credyd Myfyrwyr sylfaenol⁴³.

3.4 AILSTRWYTHURO'R BROSES YMGYNGHORI

3.4.1 Sefydlwyd y prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion yn dilyn cyhoeddi'r dogfennau a nodir uchod. Cychwynnwyd y broses gyda ***Dogfen Ymgynghori ar Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion a gyhoeddwyd gan ELWa ym mis Tachwedd 2004.***

3.4.2 Galwodd y ddogfen ymgynghori am brif ffrydio'r rhaglen Cymraeg i Oedolion ac awgrymodd sefydlu "*canolfannau iaith pwrpasol a fyddai'n rhoi ffenestr siop i ddysgu Cymraeg*". Byddai'r canolfannau hyn yn "*cael eu hadnabod am eu harbenigedd ac ansawdd a byddant ar flaen y gad gyda datblygiadau*" ac yn cael eu "*brandio*" er mwyn "*ailwampio delwedd Cymraeg i Oedolion yn llwyr*"⁴⁴. Aeth y ddogfen rhagddi i drafod yr angen i gyflwyno fframwaith cenedlaethol o lefelau iaith a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ailenwi'r cyrsiau Cymraeg i Oedolion a gyflwynant i gydymffurfio gyda'r fframwaith⁴⁵ yn ogystal ag i 'broffesiynoli' addysgu Cymraeg i Oedolion a chyflwyno cymhwyster cydnabyddedig ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion tebyg i ddyfarniad⁴⁶ TEFL⁴⁷. Amlinellodd y ddogfen ymgynghori hefyd yr

⁴³ O gymharu â 1.9 gwaith ar gyfer darpariaeth Sgiliau Sylfaen (llythrennedd)

⁴⁴ t5

⁴⁵ Adlewyrchu seithfed argymhelliad SCYA

⁴⁶ Addysu Saesneg fel iaith dramor

angen i ddatblygu adnoddau dysgu, yn cynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan ymarferwyr⁴⁸ ac i hyrwyddo darpariaeth Cymraeg i Oedolion mewn modd cyson a grymus. Yn olaf cynigiodd edrych ar y posibilrwydd o adolygu'r pwysiad a roddir i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion fel rhan o'r ymarferiad modelu System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol a gynhelid gan ELWa⁴⁹.

3.4.3 Cynhaliodd ELWa ymgynghoriad cyhoeddus i asesu lefel y gefnogaeth ar gyfer tair ymagwedd bosibl at ailstrwythuro, er bod y sefydliad yn glir ei fod yn ffafrio model a fyddai'n cynnwys sefydlu chwe "*canolfan iaith bwrpasol*"⁵⁰, un yr un yng ngogledd, canol a de orllewin Cymru a thair yn ne ddwyrain Cymru, yn gwasanaethu 'isranbarthau' Caerdydd a'r Fro, Morgannwg Ganol a Gwent. Rhagwelwyd y byddai'r canolfannau iaith hyn yn gyfrifol am ymgymryd â'r swyddogaeth cynllunio ar draws pob math o ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd ac am sianelu cyllid i ddarparwyr trydydd parti ar is-gontract.

3.4.4 Teimlid y byddai'r seilwaith arfaethedig yn gwella'r ffordd yr oedd Cymraeg i Oedolion yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno'n lleol ac y byddai'n adlewyrchu system gynllunio ranbarthol ELWa. Dadleuwyd y byddai seilwaith newydd yn rhoi darpariaeth fwy cydlynol ar gyfer dysgwyr gyda phwyslais ar yr ystod o gyrsiau sydd ar gael a dilyniant myfyrwyr. Rhagwelwyd y byddai'r canolfannau iaith pwrpasol yn medru buddsoddi mewn gweithgareddau megis hyfforddi tiwtoriaid ar sail ranbarthol, datblygu darpariaeth newydd i drin anghenion dysgu, creu adnoddau, ymchwil a fyddai'n sail i benderfyniadau cynllunio a hyrwyddo dysgu'r Gymraeg yn y rhanbarth.

3.4.5 Dangosodd yr ymgynghoriad fwy o gefnogaeth i fabwysiadu'r model a ffafriwyd gan ELWa yn hytrach na'r ddau fodel arall a gynigiwyd (derbyniwyd cyfanswm o 51 ymateb i'r ymgynghoriad, 32 ohonynt yn

⁴⁷ Adlewyrchu nawfed argymhelliad SCYA

⁴⁸ Cysylltiedig â degfed argymhelliad SCYA

⁴⁹ Yn rhannol yn adlewyrchu ail argymhelliad SCYA

⁵⁰ t5

cefnogi'r opsiwn a ffafrid gan ELWa a 19 nad oedd yn gwneud hynny). Ond dangosodd yr ymarferiad hefyd fod gan rai rhanddeiliaid amheuon am gynigion ELWa. I ryw raddau cododd yr amheuon hyn o ofnau sefydliadau o golli busnes neu golli annibyniaeth, ond roedd eraill yn fwy dwfn ac yn adlewyrchu pryderon am rôl ELWa fel corff cydlynu ac ariannu.

3.5 NODAU AC AMCANION Y PROSIECT AILSTRWYTHURO CYMRAEG I OEDOLION

3.5.1 Mae *Dogfen Cynnig Prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion* a baratowyd gan ELWa ym Mehefin 2005 yn gosod nodau ac amcanion clir sy'n rhaeadru'n rhesymegol o uchelgais polisi'r Cynulliad ac o'r dystiolaeth a roddwyd gan y ddwy astudiaeth werthuso (a drafodir yn Adran 3.3 uchod). Prif nod y prosiect dwy flynedd a hanner yma oedd cynyddu nifer y dysgwyr drwy sefydlu seilwaith newydd a fydd yn prif ffrydio, cynllunio, proffesiynoli a datblygu darpariaeth ym maes y rhaglen. Byddai hyn yn cynnwys sefydlu chwe chanolfan iaith pwrpasol i Gymru a fydd yn arwain yr agenda newid ac ar flaen y gad wrth addysgu'r Gymraeg i oedolion.⁵¹

3.5.2 Caiff deg amcan allweddol y prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion eu hamlinellu yn nogfen cynnig y prosiect⁵² sef:

- Dileu dyblygu diangen a gwrthdaro diddordeb;
- Darparu fframwaith cenedlaethol a rhanbarthol o gynllunio cyrsiau;
- Osgoi'r hollt rhwng darpariaeth heb fod yn ddwys a darpariaeth ddwys yn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch;
- Gwella'r dilyniant o gyrsiau lefel is i gyrsiau rhugledd;
- Darparu cyllid ar gyfer meithrin gallu i ateb y galw;
- Datblygu cyrsiau pwrpasol ar gyfer Cymraeg yn y gweithle ac ar gyfer rhieni;

⁵¹ Ffurflen PP1 Llywodraeth Cynulliad Cymru: Dogfen Cynnig Prosiect (Mehefin 2005) t3

⁵² Ffurflen PP1 Llywodraeth Cynulliad Cymru: Dogfen Cynnig Prosiect (Mehefin 2005) t3-4

- Proffesiynoli hyfforddiant a strwythur gyrfa ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- Gwella ansawdd dysgu a sicrhau safonau cenedlaethol cyson;
- Gwella marchnata Cymraeg i Oedolion drwy i bob canolfan gynhyrchu llenyddiaeth ac ymgyrchoedd lleol effeithiol, ynghyd â chymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol; a
- Sicrhau bod mwy o'r cyllid craidd yn cyrraedd darparwyr Cymraeg i Oedolion oherwydd y gostyngiad mewn brigdorri gan ganolfannau.

3.5.3 Rhoddodd yr amcanion a ddynodwyd yn y Cynnig Prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion dargedau clir gydag amserlen ac yn gyffredinol fesuradwy ⁵³. Roedd nifer o'r amcanion yn ymwneud â sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion newydd a'u systemau rheoli a chafodd y targedau hyn eu cyflawni i raddau helaeth erbyn hyn, er bod oedi wrth gymeradwyo'r cynnig Prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion wedi golygu fod y prosiect bron bum mis ar ôl yr amserlen o'r cychwyn cyntaf.

3.5.4 Roedd rhai o dargedau eraill y Prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion yn ymwneud gyda nifer y cyrsiau i gael eu rhedeg a gyda recriwtio, dilyniant, cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr. Er bod y targedau yn ymwneud â'r ddarpariaeth ag amserlen ac yn fesuradwy, roeddent yn seiliedig yn wreiddiol ar ddata 2003/04, 2005/06 a 2006/07 a daeth yn glir ers hynny nad oedd y data hwnnw yn ddibynadwy. Ar y sail yma, cytunodd Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion yn ddilynol mai'r 'llinell sylfaen' yn y dyfodol ar gyfer mesur y gwahaniaeth a wnaed gan y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ddylai fod y data a gasglwyd yng nghyswllt 2007/08. Trafodir y cynnydd a wnaed yng nghyswllt y mesurau cysylltiedig â darpariaeth ymhellach ym Mhennod 5.

⁵³ Ffurflen PP1 Llywodraeth Cynulliad Cymru: Dogfen Cynnig Prosiect (Mehafin 2005) t4-5

4. SEFYDLU A GWEITHREDIAD CANOLFANNAU CYMRAEG I OEDOLION

4.1 CYFLWYNIAD

4.1.1 Yn y bennod hon ystyriwn:

- Y broses a ddefnyddiwyd i ddewis sefydliadau i redeg Canolfannau Cymraeg i Oedolion (adran 4.2);
- Penodi Canolfannau Cymraeg i Oedolion a threfniadau ar gyfer ariannu eu costau rheoli canolog (adran 4.3);
- Sut mae'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn cydweithio (adran 4.4);
- Y prosesau a ddefnyddir gan ganolfannau i gynllunio darpariaeth (adran 4.5);
- I ba raddau y mae'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion wedi rhoi fframwaith cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cynllunio darpariaeth Cymraeg i Oedolion (adran 4.6).

4.2 PROSES GAIS A DETHOL CANOLFANNAU CYMRAEG I OEDOLION

4.2.1 Ym mis Tachwedd 2005 gwahoddodd ELWa yr holl ddarparwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yr oedd ganddo contract gyda hwy ar y pryd i gyflenwi darpariaeth Cymraeg i Oedolion i gyflwyno cynigion i letya canolfannau pwrpasol Cymraeg i Oedolion, gan ei gwneud yn glir y sefydlid cyfanswm o chwe chanolfan, un yr un yn rhanbarthau gogledd, canolbarth a gorllewin Cymru a thair yn rhanbarth y de ddwyrain. Drwy wneud hynny, cydnabu ELWa mai cymharol ychydig o ddarparwyr a fyddai, mewn gwirionedd, yn gymwys, yn barod neu'n dymuno cyflwyno cynigion i letya'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion, yn bennaf oherwydd mai dim ond nifer fach iawn o ddarparwyr oedd â'r gallu i gyflenwi ystod lawn o ddarpariaeth, yn cynnwys cyrsiau dwys yn arwain at ruglder. Fel canlyniad cysylltodd ar sail anffurfiol â'r sefydliadau hynny y credent oedd yn y sefyllfa orau i letya Canolfannau

er mwyn trafod posibilrwydd iddynt wneud cynnig a lliniaru unrhyw bryderon oedd ganddynt am ymgymryd â rôl Cymraeg i Oedolion.

4.2.2 Yn wir, dangosodd ein gwaith maes fod maint y brwdfrydedd am letya Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn amrywio ar draws sefydliadau. Ystyriai rhai bod cymryd y fantell yn gam gweddol naturiol, yn bennaf oherwydd mai'r sefydliadau dan sylw oedd y darparwyr mwyaf o gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd ac oherwydd y tybid fod ganddynt enw da ym maes Cymraeg i Oedolion. Ymddangosai fod rhai sefydliadau yn credu fod ganddynt *“ddyletswydd i ymateb a chymryd y cyfrifoldeb”* gan fod cysylltiad agos iawn rhwng amcanion y Rhaglen ag amcanion eu sefydliadau yn nhermau hyrwyddo'r Gymraeg, tra teimlai un nad oedd ganddo *“unrhyw ddewis”* heblaw gwneud hynny oherwydd nad oedd unrhyw ymgeisydd arall realistig i gymryd y rôl yn ei ardal. Mae'n bwysig tanlinellu ar y pwynt hwn, er ei bod yn amlwg fod gan rai sefydliadau amheuan, iddynt fynd at y broses o gyflwyno cynigion gyda *“brwdfrydedd pwyllog”* ac ni chredid fod eu hamheuan wedi cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar eu hymrwymiad i sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion effeithlon.

4.2.3 Roedd y prif bryderon oedd gan sefydliadau am gymryd y cyfrifoldeb am letya Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn ymwneud â:

- Cynaliadwyedd tebygol cyllid wedi'i neilltuo i dalu am gostau rhedeg Canolfannau Cymraeg i Oedolion, gydag ofn amlwg y byddai'r Canolfannau, unwaith y'u sefydlid, yn gorfod talu am gostau rhedeg o gyllidebau rhaglen dysgu annigonol. Fel y gwelir yn nes ymlaen yn y bennod hon, mae'r pryder hwn yn parhau;
- Y risg yn gysylltiedig gyda phenodi staff (yn neilltuol heb y sicrwydd ariannol tymor-hir angenrheidiol) ac wrth ddatrys materion yn codi o weithredu Rheoliadau TUPE ⁵⁴;
- Materion yn ymwneud â chymryd cyfrifoldeb am reoli darpariaeth mewn ardaloedd daearyddol newydd;

⁵⁴ Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)

- Anawsterau mewn darparu adeiladau addas ar gyfer tîm pwrpasol;
- Anawsterau wrth ganfod adeiladau ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, yn neilltuol yn yr ardaloedd hynny lle nad oedd gan y sefydliadau lletyol unrhyw brofiad o ddarparu cyrsiau;
- Cymryd cyfrifoldeb am ddarpariaeth nad ystyriwyd ei bod yn ‘fusnes craidd’;
- Y posibilrwydd o golli profiad a chysylltiadau pe byddai darparwyr traddodiadol yn dileu darpariaeth Cymraeg i Oedolion;
- Tybiwyd fod rhai consortia yn gweithio’n dda a gofynnwyd cwestiynau am fanteision ailstrwythuro yn rhai o’r rhanbarthau.

4.2.4 Roedd hefyd beth pryder na fyddai Cymraeg i Oedolion, fel cynllun Addysg Bellach, yn cael yr un flaenoriaeth na statws â chynlluniau Addysg Uwch o fewn Prifysgolion, a fyddai fel y rhagwelwyd o’r dechrau yn ddiweddarach yn dod yn elfen ganolog o seilwaith Cymraeg i Oedolion. Er y consyrn hwn, fodd bynnag, derbyniai rhanddeiliaid yn gyffredinol fod sawl mantais i leoli’r Canolfannau Cymraeg i Oedolion o fewn sefydliadau Addysg Uwch, yn cynnwys:

- Gallu Prifysgolion i gyfrannu tuag at broffesiynoli’r maes gan y tybir fod gan gyrsiau hyfforddi athrawon dan arweiniad prifysgol statws uwch;
- Y profiad a roddai Prifysgolion i faes cynllunio cwricwlwm;
- Y berthynas sefydlog rhwng Prifysgolion a fyddai’n galluogi rhywfaint o gydweithredu rhwng Canolfannau Cymraeg i Oedolion;
- Byddai darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn manteisio o’r systemau a’r strwythurau sicrwydd ansawdd oedd eisoes yn eu lle mewn sefydliadau megis y broses Sicrwydd ac Achredu Ansawdd, er wrth gwrs fod sefydliadau Addysg Uwch hefyd yn defnyddio systemau tebyg.

4.2.5 Fel y bu, derbyniwyd chwe chynnig, pump gan Sefydliadau Addysg Uwch ac un gan un Sefydliad Addysg Bellach, pob un yn datgan ffafriaeth dros fod yn gyfrifol am wahanol ranbarthau. Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion gan sefydliadau’n cystadlu er y dywedodd

rhanddeiliaid y medrai Prifysgol Cymru, Casnewydd fod wedi bod yn sefydliad ymgeisydd posibl i arwain ar y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yng Ngwent (yn neilltuol o gofio y byddai eu cynnwys wedi creu strwythur darparu unedig dan arweiniad prifysgolion ar draws Cymru). Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd gan Brifysgol Cymru, Casnewydd fawr o brofiad o gyflwyno cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

4.2.6 Roedd y cynigion a gyflwynwyd gan y chwe sefydliad yn fanwl iawn ac yn cynnwys y meysydd dilynol:

- Pedigri'r sefydliadau a'u hanes o lwyddiant wrth gyflwyno Cymraeg i Oedolion: yr amrediad cyrsiau a gyflwynwyd, cyfraddau cyrhaeddiad, gweithgareddau cydweithredu, ymgyfraniad mewn datblygu deunyddiau ac ati;
- Trefniadau rheolaeth y sefydliad: systemau sicrwydd ansawdd, trefniadau rheolaeth adnoddau dynol ac ati;
- Cynigion ar gyfer datblygu Canolfannau Cymraeg i Oedolion, yn cynnwys camau allweddol yn natblygiad y canolfannau, staffio, disgrifiadau o drefniadau rheolaeth allweddol; a
- Chostau disgwylidig datblygu a rhedeg y Ganolfan Cymraeg i Oedolion arfaethedig.

4.3 PENODI CANOLFANNAU CYMRAEG I OEDOLION

4.3.1 Ym mis Mai 2006, cyhoeddodd y Gweinidog Dysgu Gydol Oes ar y pryd enwau'r chwe sefydliad a fyddai'n lletya'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn seiliedig ar y cynigion a dderbyniwyd. Y Canolfannau a sefydlwyd oedd:

- **Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru** yn seiliedig ym Mhrifysgol Bangor ac yn gwasanaethu chwe ardal awdurdod lleol Ynys Môn, (Gogledd), Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam;

- **Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru** yn seiliedig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn gwasanaethu tair ardal awdurdod lleol Ceredigion, Powys a (De) Gwynedd;
- **Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru** yn seiliedig ym Mhrifysgol Abertawe ac yn gwasanaethu pedair ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro;
- **Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro** yn seiliedig ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gwasanaethu dwy ardal awdurdod lleol Caerdydd a Bro Morgannwg;
- **Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg** yn seiliedig ym Mhrifysgol Morgannwg ac yn gwasanaethu tair ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr;
- **Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent** yn seiliedig yng Ngholeg Gwent ac yn gwasanaethu pum ardal awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen.

4.3.2 Cydnabu Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai sefydliadau lletyol angen cyllid grant ar wahân i'w galluogi i sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Dywedodd y Ddogfen Cynnig Prosiect y byddai gwir gost sefydlu'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn cael ei bennu gan y cynigion a dderbyniwyd, ond y dyrennid amcangyfrif cyllideb o hyd at £4.7 miliwn dros gyfnod o 31 mis i'r diben.

4.3.3 Yn dilyn y cyfnod sefydlu 31 mis dechreuol, dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad grant pellach o £6.8 miliwn at gostau rheoli'r Canolfannau am y cyfnod tair blynedd hyd fis Gorffennaf 2011, a ostyngodd yr angen i'r Canolfannau 'frig-dorri' cyllid craidd yn gysylltiedig gyda darparu cyrsiau i gwrdd â'u costau canolog. Roedd hyn yn benderfyniad neilltuol o bwysig ar gam gweddol ffurfiannol wrth ddatblygu'r trefniadau newydd gan iddo helpu i:

- Osgoi anghytundeb posibl rhwng Canolfannau a'u rhwydweithiau darparwyr rhanbarthol am lefel y cyllid y dylid ei 'frigdorri' ar gyfer costau canolog;

- Atal lleihau cyllid ar gyfer darparu ar adeg pan ofynnid i ddarparwyr newid a chynnig mwy o gyrsiau i niferoedd mwy o ddysgwyr;
- Gostwng y cyfleoedd i golli cyllid Cymraeg i Oedolion yn systemau cyfrifeg sefydliadau;
- Rhoi rhywfaint o sicrwydd i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a'u galluogodd i gynllunio yn hyderus.

4.3.4 Mae'n amlwg i'r trefniant hwn roi 'amser anadlu' ychwanegol i Ganolfannau wrth iddynt ennill eu plwyf. Fodd bynnag, yn ei hymatebion i gynlluniau strategol a gweithredol Canolfannau yn 2009 dywedodd Llywodraeth y Cynulliad y dylent yn raddol baratoi am ddyfodol heb gyllid grant neu gyda lefelau gostyngol o gyllid grant ar ôl Gorffennaf 2011. Roedd hyn yn arwydd cadarn i Ganolfannau fod angen iddynt feddwl o ddifrif am gynaliadwyedd eu polisïau ariannu a'u costau mewnol eu hunain dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

4.3.5 Wrth gwrs, gall Canolfannau 'frigidorri' eu cyllid craidd i helpu talu am eu costau rhedeg, er fod canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn nodi na ddylai lefel y 'brigidorri' fod yn fwy na 15% o'r cyllid craidd. Mae costau rhedeg Canolfannau yn 2009/10 yn amrywio o 21% i 36% o'u dyraniadau cyllid craidd a fyddai, yn absenoldeb cyllid craidd, yn amlwg yn torri'r nenfwd o 15% ar gyfer brigdorri a nodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Er y medrai'r holl Ganolfannau heblaw un, yn ddamcaniaethol o leiaf, gadw cyfran uwch o'u cyllid craidd at gostau rhedeg, byddai lefel y cyllid y medrid ei gynhyrchu yn dal i fod yn brin o'r swm angenrheidiol i gynnal y Canolfannau fel y maent wedi'u ffurfio ar hyn o bryd (heb gyfrif unrhwy ffynonellau eraill posibl o reffeniw). Ymhellach, roedd Cyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn gyffredinol amharod i gynyddu'r lefel a frigidorrwyd o gyllid craidd ar y sail y byddai'n groes i bolisi penodol Llywodraeth y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg ac yn tanseilio'r heriau a nodir yn Iaith Pawb ac, yn fwy diweddar, yn ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg⁵⁵.

⁵⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru (Ebrill 2010) Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Dogfen Rhif: 083/2010

4.3.6 Cynyddwyd amharodrwydd cyfarwyddwyr i gynyddu'r cyfran o gyllid craidd a 'frigidorrwyd' gan ofnau y medrai cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i newid sail ariannu darpariaeth Cymraeg i Oedolion o 2010/11 ymlaen gael effaith niweidiol ar o leiaf rai o'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig symud tuag at fethodoleg dyraniadau ôl-16 cyffredin o fis Medi 2010, a fedrai olygu gostyngiad yn y lefel cyllid y byddai Canolfannau unigol yn medru cael mynediad iddo, er y rhoddir "*trefniadau trosiannol*" ar waith i warchod rhag dadsefydlogi seilwaith Cymraeg i Oedolion yn y tymor byr.

4.3.7 Er efallai na fydd y trefniad cyllid grant a roddwyd ar waith yn gynaliadwy yn y tymor hwy o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gostau rhedeg Canolfannau Cymraeg i Oedolion yng nghyswllt y cyllid craidd sydd ar gael i'r Rhaglen pan wneir penderfyniadau am ariannu'r Canolfannau yn y dyfodol, gydag awgrym cryf fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion mwy yn cynnig arbedion maint sylweddol.

4.4 CYDWEITHIO RHWNG Y CANOLFANNAU

4.4.1 O'r cychwyn cyntaf, mae Canolfannau Cymraeg i Oedolion a Llywodraeth y Cynulliad wedi cydweithio i fynd â'r agenda rhagddo drwy system o bwyllgorau. Mae rhai ohonynt yn bwyllgorau sefydlog ac eraill yn 'grwpiau' gorchwyl a gorffen.

4.4.2 Ar hyn o bryd mae chwech o bwyllgorau neu grwpiau gorchwyl a gorffen a gaiff eu harwain gan Lywodraeth y Cynulliad, sef:

- Pwyllgor Cynllunio Strategol Cymraeg i Oedolion;
- Pwyllgor Marchnata Cymraeg i Oedolion;
- Pwyllgor E-Ddysgu Cymraeg i Oedolion;
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cwricwlwm Cymraeg i Oedolion;
- Panel Adnoddau Cymraeg i Oedolion;

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Data Cymraeg i Oedolion.

4.4.3 Sefydlwyd chwe gweithgor cenedlaethol hefyd, a chaiff pob un ei arwain gan un o'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion. Bwriad sefydlu'r grwpiau hyn oedd y byddent yn gwneud y gwaith cefndir angenrheidiol i fod yn sail i drafodaethau Cyfarwyddwyr y Canolfannau a galluogi gwneud penderfyniadau am fateiron strategol allweddol. Y gweithgorau sy'n bodoli ar hyn o bryd yw:

- Gweithgor Cymraeg yn y Gweithle, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent;
- Gweithgor Cymraeg i'r Teulu, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg;
- Gweithgor Ymchwil, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru;
- Gweithgor Hyfforddiant, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg;
- Gweithgor Dysgu Anffurfiol, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru;
- Gweithgor Ansawdd, dan arweiniad Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

4.4.4 Y consensws ymysg y rhanddeiliaid y gwnaethom eu cyfweld oedd fod Pwyllgor Cynllunio Strategol Cymraeg i Oedolion wedi datblygu'n dda ers ei sefydlu yn 2009 a'i fod gryn dipyn yn fwy effeithol yn ei ffurf bresennol na'r ddau bwyllgor blaenorol. Credai'r rhan fwyaf o gyfranwyr hefyd fod y pwyllgorau a gweithgorau eraill yn fforymau gweddol resymol ar gyfer cyfnewid syniadau a lledaenu arfer da. Fodd bynnag, roedd teimlad nad oedd diben pob un wedi'i diffinio'n ddigon clir, neu nad oedd yn hollol realistig, a'u bod fel canlyniad wedi methu gwneud argymhellion cadarn. Awgrymwyd y dylai'r Grŵp Cynllunio Strategol adolygu'r angen ar gyfer a diben holl bwyllgorau/grwpiau Cymraeg i Oedolion gyda golwg ar symleiddio a gostwng eu nifer.

4.4.5 Tu hwnt i gymryd rhan yn y pwyllgorau a gweithgorau cenedlaethol hyn, mae Canolfannau neilltuol wedi cydweithio ar weithgareddau penodol.

4.5 Y BROSES GYNLLUNIO

4.5.1 Ym mhob un o'r tair blynedd ers eu sefydlu, mae Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi cynhyrchu dogfennau cynllunio, yn unol gyda'r canllawiau dilynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad:

- Canllawiau cynllunio blynyddol sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ganllawiau cynllunio cyffredinol APADGOS i Sefydliadau Addysg Bellach;
- Canllawiau hyfforddiant blynyddol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion ddatblygu cynlluniau hyfforddi tair blynedd;
- Canllawiau casglu data yn tarddu o Gangen Rheolaeth Data APADGOS;
- Canllawiau sicrwydd ansawdd a gyhoeddwyd gan Gangen Rheolaeth Ansawdd APADGOS ac yn cysylltu gyda'r broses Adolygiad Hunan-asesu, sy'n rhan o Adolygiad Perfformiad Darparwyr blynyddol APADGOS.

4.5.2 Y dogfennau cynllunio a gynhyrchwyd bob blwyddyn yw:

- Cynlluniau Strategol tair blynedd sy'n rhoi darlun o 'farchnadoedd' rhanbarthol Cymraeg i Oedolion, yn rhoi adolygiad o'r datblygiadau hyd yma⁵⁶ ac yn nodi cennad, nodau ac amcanion pob Canolfan;
- Cynlluniau Gweithredol un flwyddyn, sy'n trafod trefniadau seilwaith neu "*bresenoldeb*" ffisegol Canolfannau; eu trefniadau staffio a threfniadau contractio trydydd parti. Disgrifiant y gweithgareddau i'w cynnal yng nghyswllt pob un o'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun Strategol, gan nodi erbyn pa ddyddiad y dylid cwblhau

⁵⁶ A gaiff ei ailadrodd gan rai Canolfannau, er mewn geiriau eraill, yn y Cynllun Gweithredu ac sydd yn ein barn ni yn ymyrryd ar lif y Cynlluniau Strategol o ddatgan cenadwri i fanylu ar nodau ac amcanion strategol

gweithgareddau, a phwy o fewn pob Canolfan Cymraeg i Oedolion sy'n gyfrifol am weithredu pob cam. Maent hefyd yn gosod rhagamcaniadau incwm a gwariant am y 12 mis nesaf;

- Cynlluniau Datblygu Darpariaeth un flwyddyn, sy'n nodi'n fanwl y cyrsiau y mae'r Canolfannau'n bwriadu eu rhedeg yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod yn nhermau lefel y cwrs (h.y. Mynediad, Sylfaen ac ati), lleoliad y ddarpariaeth (h.y. codau post), y math o gwrs (h.y. cyrsiau dwys, cyrsiau penodol i deuluoedd, cyrsiau Cymraeg yn y Gweithlu ac ati), nifer y dysgwyr arfaethedig a thargedau Unedau Cyfwerth Credydau a Bwysolwyd⁵⁷;
- Strategaethau Marchnata a Chyfathrebu tair blynedd, sy'n rhoi adolygiad o weithgareddau marchnata blaenorol, yn gosod nodau ac amcanion am y tair blynedd nesaf a manylion gweithgareddau gyda chostau i'w cynnal dros y deuddeg mis nesaf. Trafodir y rhain yn fwy manwl ym Mhennod 6.

4.5.3 Er na fu fawr o newid yn strwythurau pennawd dogfennau cynllunio, daethant yn gynyddol fanwl dros y tair blynedd ddiwethaf wrth i Ganolfannau fynd i'r afael gyda gofynion APADGOS a natur darpariaeth Cymraeg i Oedolion o fewn eu rhanbarthau. Credwn fod y gwahanol fathau o wybodaeth a ddefnyddiwyd fel rhan o ddadansoddiadau SWOT/BEEM⁵⁸ wedi helpu i egluro'r rhesymeg dros fabwysiadu nodau ac amcanion penodol a gynhwysir yng nghynlluniau Canolfannau. Mae mwyafrif y Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi ymgeisio i fapio'r ddarpariaeth (un ai ar draws y cyfan o'u rhanbarthau neu rannau o'u rhanbarthau) gyda, mae'n rhaid dweud, lwyddiant amrywiol yn nhermau dynodi bylchau a dyblygu. Defnyddiai un Ganolfan System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS) i ddarlunio darpariaeth a chredid y bu hyn yn help sylweddol yn y broses gynllunio. Mae gan Ganolfannau eraill beth ffordd i fynd o hyd o ran mapio

⁵⁷ Defnyddir Unedau Cyfwerth Credydau a Bwysolwyd (WCEU) o fewn y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol fel uned cyllid sylfaenol. Mae un Uned (CEU) yn cynrychioli 10 awr o amser dysgu.

⁵⁸ SWOT = Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau; BEEM – Adeiladu, Ymelwa, Dileu a Lleihau

darpariaeth a defnyddio'r data a gynhyrchwyd i ostwng neu ddileu dyblygu a chystadleuaeth rhwng darparwyr.

4.5.4 Er i gynlluniau pob Canolfan arddangos cryfderau neilltuol, roedd cynlluniau dwy Ganolfan yn neilltuol yn sefyll allan i ni am ansawdd eu dadansoddiadau a llif rhesymegol strategaethau o'r dadansoddiadau hynny. Cafodd y cynlluniau hynny eu nodi fel 'patrymau' gan staff Llywodraeth y Cynulliad.

4.5.5 Mewn gwirionedd, ychydig o ddylanwad a gafodd y cynlluniau a gynhyrchwyd yn ystod tair blynedd gyntaf bodolaeth y Canolfannau dros y contractau a gyhoeddwyd i ddarparwyr allanol. Cafodd contractau darparwyr allanol ar gyfer 2006/07 eu cyhoeddi'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad, ac nid oedd y rhai a gyhoeddwyd gan y Canolfannau ar gyfer 2007/08 a 2009 yn fawr mwy nag ymestyn contractau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan Lywodraeth y Cynulliad. Wrth iddynt barhau i fapio darpariaeth a chasglu gwybodaeth i bennu anghenion neilltuol eu rhanbarthau ac is-ranbarthau, bydd yn bwysig i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion gryfhau eu contractau gyda darparwyr trydydd parti i sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth, a'u bod yn gydnaws gyda nodau cenedlaethol APADGOS i wella ansawdd a dileu dyblygu.

4.6 CYLLID CRAIDD CYMRAEG I OEDOLION

4.6.1 Fel y trafodir uchod, er y sefydlwyd y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn 2006, ni ddaethant yn gyfrifol am ariannu darpariaeth o fewn eu hardaloedd hyd fis Awst 2007. Mae Tabl 4.1 islaw'n dangos cyfanswm nifer y WCEU⁵⁹ a'r cyllid cysylltiedig a ddyrannwyd i bob Canolfan Cymraeg i Oedolion am y tair blynedd academiaidd ddiwethaf. Seiliwyd y dyraniadau hyn ar ddata hanesyddol am faint y ddarpariaeth a

⁵⁹ Defnyddir Unedau Cyfwerth Credydau a Bwysolwyd (WCEU) o fewn y Sytem Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol fel uned cyllid sylfaenol. Mae un Uned (CEU) yn cynrychioli 10 awr o amser dysgu.

gyflenwyd gan ddarparwyr unigol yn gysylltiedig gyda phob Canolfan Cymraeg i Oedolion, ynghyd â darpariaeth ar gyfer twf blynyddol o 10% yng ngwerth ariannol darpariaeth.

Tabl 4.1: Uned Cyfwerth Credydau a Bwysolwyd (WCEU) a Dosraniad Cyllid yn ôl Canolfan

	2007/08		2008/09		2009/10	
	Targed	Cyfanswm Cyllid	Targed	Cyfanswm Cyllid	Targed	Cyfanswm Cyllid
	WCEU (miloe dd)	£ (miliyn au)	WCEU (miloe dd)	£ (miliyn au)	WCEU (miloe dd)	£ (miliyn au)
Gogledd	66.2	2.4	72.0	2.6	77.4	3.1
Canolbarth	28.0	1.0	30.1	1.1	32.4	1.3
De Orllewin	45.9	1.6	49.3	1.8	53.0	2.1
Morgannwg	20.7	0.8	22.3	0.9	23.9	1.0
Caerdydd a'r Fro	35.7	1.2	38.4	1.4	41.2	1.6
Gwent	25.4	1.0	27.2	1.1	29.3	1.2
Cyfanswm⁶⁰	221.9	8.0	239.3	8.9	257.2	10.3

4.7 CANOLFANNAU CYMRAEG I OEDOLION A'U RHWYDWEITHIAU DARPARWYR

4.7.1 Mae pob Canolfan Cymraeg i Oedolion wedi sefydlu o leiaf un rhwydwaith darparwyr yn eu rhanbarth. Yn y rhan fwyaf o achosion esblygodd y rhwydweithiau hyn o'r consortia a fodolai cyn cyflwyno strwythur rhanbarthol Canolfannau Cymraeg i Oedolion, sy'n golygu y bu'n rhaid i'r Canolfannau ailasesu ac ailddiffinio eu perthynas gyda

⁶⁰ Gellid bod cyfeiliornadau talgrynnu

sefydliadau a ystyrid yn flaenorol fel 'partneriaid' ond sydd yn awr yn ymarferol wedi dod yn 'ddarparwyr'.

4.7.2 Ar y cyfan, cafodd yr addasiad hwn ei wneud mewn modd sensitif a phwyllog gyda Chanolfannau yn gyffredinol yn osgoi newidiadau sylweddol yn eu dwy flynedd gyntaf mewn bodolaeth. Awgrymodd ein gwaith maes yn hydref 2009 ar y cyfan, fod y trefniadau rhwydwaith wedi ennill eu plwyf a bod rhwydweithiau'n rhoi cyfrwng ar gyfer dialog parhaus. Fodd bynnag, soniodd rhanddeiliaid hefyd am rai gwendidau, yn gyffredinol yn ymwneud gydag ansawdd, ehangder a phrydlondeb gwybodaeth a roddwyd i rwydweithiau a dyfnder trafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith.

4.7.3 Fodd bynnag, nid yw'r canolfannau bob amser wedi llwyddo i weithredu'r newid amlwg mewn darpariaeth Cymraeg i Oedolion y gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad amdano cyn gynted ag y gobeithient. Ar y cyfan, maent wedi parhau i fod â chontractau gyda'r sefydliadau hynny oedd yn flaenorol â chontract i APADGOS i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion, er fod nifer fach o ddarparwyr wedi tynnu'n ôl o'r farchnad. Serch hynny, mae Canolfannau wedi cynnwys darparwyr mewn trafodaeth llawer mwy manwl am natur y ddarpariaeth i gael ei chyflenwi, yn ogystal â thynhau telerau'r contractau a roddir i ddarparwyr drwy, er enghraifft, gyflwyno cymalau adfachu a'i gwneud yn ofynnol iddynt osod trefniadau sicrwydd ansawdd a "*chofestru*" tiwtoriaid gyda'r Ganolfan. Yn wir, roedd awgrym fod y Canolfannau eu hunain, wrth iddynt ennill eu plwyf ac yn medru cynnig neu reoli darpariaeth yn well, wedi dod yn gynyddol gadarn yn eu hymagwedd at ddarparwyr oedd yn tanberfformio.

4.7.4 Hyd yma, nid yw'r rhan fwyaf o Ganolfannau Cymraeg i Oedolion wedi gosod targedau haearnidd i ddarparwyr ar is-contract am natur neu lefel y cyrsiau y byddant yn eu darparu. Er bod hyn yn amlwg yn rhoi mwy o ryddid ac annibyniaeth i ddarparwyr i ddyrannu CEU yn effeithiol, nid yw'n ofyniad iddynt symud mewn cyfeiriad neilltuol e.e.

cynnig mwy o ddarpariaeth ddwys neu lefel uwch. Bu rhai Canolfannau, am y tro cyntaf, yn ystyried gosod targedau 'mynegol' yn hytrach na thargedau sy'n rhwymo, er mwyn symud pwyslais darparwyr heb eu llesteirio neu eu "*cosbi'n annheg*" os methant gyflawni amcanion neilltuol, ac mae dau'n cymryd cyngor cyfreithiol ar hyn o bryd ar "*ailwampio*" eu contractau i ddarparwyr mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11. Nod yr ymarferiad hwn fydd symleiddio contractau darparwyr a hefyd ymchwilio i ba raddau y bydd yn bosibl cynnwys targedau penodol (megis isafswm targedau ar gyfer dysgwyr a nifer o gyrsiau ar lefelau/dwysedd neilltuol).

4.7.5 Er nad yw Canolfannau wedi gosod targedau ar gyfer mathau neilltuol o gyrsiau yng nghontractau darparwyr, roedd yn glir fod prif negeseuon strategol am flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau yn cyrraedd darparwyr. Serch hynny, bydd yn bwysig fod Canolfannau yn parhau i ymchwilio sut y medrant wella trefniadau ar gyfer cyfathrebu eu blaenoriaethau ac am rannu manylion eu Cynlluniau Strategol a Gweithredol gyda'u darparwyr allanol.

4.7.6 Yn gysylltiedig â hyn, dadleuwyd fod angen i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion ystyried sut, yn unol gyda disgwyliadau gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad ohonynt ac fel y cadarnhawyd yn Nogfen Ymgynghori Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, y medrent gynyddu eu proffil eu hunain a dod yn "*llwyfan ar gyfer dysgu Cymraeg, a lleoedd lle gall dysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth*".

4.8 DYSGU ANFFURFIOL⁶¹

4.8.1 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi dyfarnu grantiau i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion, fel rhan o'i Brif Gynllun Grantiau, i gefnogi

⁶¹ Dysgu anffurfiol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses lle mae unigolion yn sicrhau agweddau, gwerthoedd, sgiliau a gwybodaeth o brofiad bob dydd a dylanwadau ac adnoddau addysgol yn eu hamgwychedd e.e. gan deulu, ffrindiau a chydweithwyr o waith, chwarae a phrofiadau cymdeithasol ac o'r cyfryngau torfol.

gweithgaredd dysgu ariannol i ategu darpariaeth brif ffrwd Cymraeg i Oedolion. Dengys Tabl 3.2 islaw werth y grantiau a ddyfarnwyd o 2007/08 i 2009/10:

Tabl 4.2: Cyllid i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion

Canolfan Cymraeg i Oedolion	2007/08 £ (miloedd)	2008/09 £ (miloedd)	2009/10 £ (miloedd)
Gogledd	10.6	15.5	15.5
Canolbarth	15.9	15.0	15.0
De Orllewin	15.4	12.0	10.0
Morgannwg	18.0	20.0	20.0
Caerdydd a'r Fro	13.5	13.0	13.2
Gwent	13.0	13.0	16.0
Cyfanswm	86.4	88.5	89.7

4.8.2 Cafodd y cyllid a ddyfarnwyd ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd gyda Chanolfannau'n defnyddio gwahanol ddulliau mewn ymateb i nodweddion ieithyddol a strwythurol eu hardaloedd. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dysgu anffurfiol wedi symud ymaith o ymarferiadau mapio dechreuol i weithgareddau megis:

- Trefnu digwyddiadau yn benodol ar gyfer dysgwyr lefel is nad yw eu sgiliau iaith wedi datblygu'n ddigonol i fedru cymryd rhan yn y rhwydweithiau Cymraeg presennol;
- Trefnu digwyddiadau 'pontio' i ddod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ynghyd er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg gyda dysgwyr rhugl;
- Trefnu 'ffeiriau' i ddysgwyr gwrdd ac ymuno mewn grwpiau a chymdeithasau Cymraeg a ffocws ar ddulliau eraill o ledaenu gwybodaeth megis drwy wefannau.

4.8.3 Er y gallai dysgu anffurfiol fod wedi ei weld i ddechrau fel rhywbeth ychwanegol ar gyfer Canolfannau Cymraeg i Oedolion, nododd nifer o Gyfarwyddwyr yn awr ei fod wedi bellach wedi sefydlu fel rhan o waith

creiddiol eu Canolfan, gyda rhai yn cysylltu cynnydd cyflymach mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol gyda gwelliannau mewn cyfraddau cadw a dilyniant.

- 4.8.4 Fodd bynnag, cydnabuwyd fod lefel yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgu anffurfiol yn gyfyngedig a chydabu Llywodraeth y Cynulliad yn ei dogfen ymgynghori ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg *“byddai angen mwy o arian grant i ddatblygu'r agwedd hon ar waith y canolfannau ac i baratoi'r ffordd i oedolion sy'n dysgu Cymraeg integreiddio'n llawn â chymunedau Cymraeg eu hiaith”*.

4.9 DEFNYDDIO TECHNOLEGAU NEWYDD

- 4.9.1 Er y credir yn gyffredinol fod gan dechnolegau gwybodaeth a dysgu beth addewid ar gyfer y maes Cymraeg i Oedolion, y consensws cyffredinol yw bod dysgu cyfunol yn ffordd fwy realistig ymlaen h.y. defnyddio technoleg i hybu rhai ymagweddau mwy traddodiadol at addysgu. Medrai hyn olygu defnyddio byrddau gwyn, darparu adnoddau drwy rith-amgylchedd Dysgu/ Moodle, annog dysgwyr i ddefnyddio adnoddau ar-lein, e.e. adnoddau Dysgu Cymraeg y BBC neu ddefnyddio cynadleddau fideo i alluogi pobl i siarad gyda siaradwyr Cymraeg mewn rhannau eraill o'r wlad.

- 4.9.2 Yn gyffredinol, hyd yma cyfyngwyd defnydd technolegau gwybodaeth a dysgu i ystafelloedd dosbarth, ac yn fwy penodol i gyrsiau a gyflwynir mewn prifysgolion, colegau neu leoliadau awdurdodau addysg lleol sydd â chyfleusterau o'r fath. Dywedodd rhai Canolfannau nad oeddent mewn sefyllfa i fynd â'r agenda e-ddysgu rhagddo, yn rhannol oherwydd yr hyn a dybid oedd yn ddiffyg polisi cenedlaethol clir gan Lywodraeth y Cynulliad, er bod Llywodraeth y Cynulliad yn awr wedi comisiynu ymchwil i fod yn sylfaen i ddatblygu cwrs newydd fydd yn cynnwys elfen o e-ddysgu. Mae canolfannau yn amharod i fuddsoddi i

ddatblygu'r math yma o ddarpariaeth yn y cyfamser, yn neilltuol o gofio'r cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu ar eu hadnoddau.

4.9.3 Fodd bynnag, dywedodd rhai Canolfannau Cymraeg i Oedolion eu bod yn ymwneud â phrosiectau cysylltiedig â TGCh yn ystod ein gwaith maes yn hydref 2009. Er enghraifft:

- Buddsoddodd Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru yn ystod 2008/09 i ddatblygu adnoddau ar-lein a fyddai'n ategu eu cwrs Wlpan. Disgwylir y bydd yr adnoddau hyn ar gael yn fuan;
- Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn mwynhau llwyddiant parhaus gyda'i gwrs dysgu cyfunol penodol a gychwynnodd fel cynllun peilot ym mis Ionawr 2008 wedi'i anelu at bobl sydd â digon o arian ond sy'n brin o amser.

4.9.4 Mynegodd Llywodraeth y Cynulliad ei dymuniad i ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol fydd yn sylfaen i ddatblygiad cyrsiau dysgu cyfunol ac e-ddysgu i alluogi oedolion i ddysgu Cymraeg ar yr amser ac yn y lleoliad sy'n gyfleus iddynt. Fel gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd y cynllun gweithredu yn gosod camau i'w cymryd i fanteisio ar yr holl ddatblygiadau technolegol diweddaraf mewn addysg ac i sicrhau y darperir cefnogaeth dechnegol i ymarferwyr drwy'r canolfannau Cymraeg i Oedolion. Bydd trafodaethau ac argymhellion yn deillio o gyfarfodydd y Pwyllgor E-ddysgu (gweler adran 4.4.2) yn ystod 2010 yn ffurfio sylfaen y cynllun hwn.

4.10 SYSTEMAU GWYBODAETH RHEOLI

4.10.1 Cadarnhaodd adolygiad ym mis Rhagfyr 2009 o ofynion data Rhaglen Cymraeg i Oedolion broblemau neilltuol a godwyd gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt:

- Diffyg cysondeb yn y ffordd y mae gwahanol ddarparwyr yn dehongli'r term "*cwblhawr*" gyda rhai'n cofnodi dysgwyr sydd yn gadael cyrsiau wedi ennill nifer o gredydau tuag at gymhwyster,

ond heb o reidrwydd fod wedi cwblhau cyrsiau neu lefelau neilltuol o fewn y fframwaith Cymraeg i Oedolion fel cwblhawyr;

- Yr ymarfer ymysg rhai darparwyr dysgu o newid/gostwng “*nodau cymhwyster*” dysgwyr pan adawant gyrsiau’n gynnar heb ennill cymwysterau llawn;
- Gwahaniaethau yn y ffordd y caiff dangosyddion perfformiad allweddol, yn benodol “*cyfraddau cwblhau*” a “*chyfraddau caffaeliad*” eu cyfrif.

4.10.2 Yn fyr, dangosodd yr adolygiad aneffeithlonrwydd ac aneffeithiolrwydd o fewn systemau rheoli data Cymraeg i Oedolion, er ei bod yn galonogol iddo nodi hefyd fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion a’u darparwyr is-gontract yn ymroddedig i ddatrys y gwendidau a nodwyd.

4.10.3 Arweiniodd yr adolygiad at nifer o argymhellion yn cynnwys:

- Gosod diffiniadau clir o “*cwblhau*” a “*chyrhaeddiad*”, gan “*gydnabod dyfarnu credyd ar gyfer unedau dysgu a chaffaeliad rhannol cymwysterau*”. Mae hyn wrth gwrs yn unol â disgwyliadau Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru;
- Datblygu “*prosesau cyson*” ar gyfer dehongli a defnyddio data Cymraeg i Oedolion unwaith y sefydlwyd systemau effeithiol;
- Sicrhau fod gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a’u hisgontractwyr fynediad ar-lein i adroddiadau rheolaidd ac amserol ar ddarpariaeth, i’w galluogi i fonitro, meincodi a rheoli perfformiad yn effeithlon.

4.10.4 Cymeradwywn yr argymhellion hyn. Mae sefydlu systemau rheoli gwybodaeth dibynadwy a chadarn ar gyfer Cymraeg i Oedolion yn cynnwys Llywodraeth y Cynulliad, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a darparwyr trydydd parti yn hollbwysig er mwyn rheoli’r Rhaglen yn effeithiol ac arddangos, mewn modd credadwy, yr hyn a gyflawnodd. Mae absenoldeb gwybodaeth gyson a dibynadwy yn tanseilio gallu rhanddeiliaid i ffurfio barn wybodus am effeithlonrwydd y Rhaglenni ac yn hollbwysig, eu cyfraniad tuag at yr amcanion a nodir yn Iaith Pawb.

4.11 MARCHNATA CYMRAEG I OEDOLION

4.11.1 Mae Grŵp Marchnata Strategol Cymraeg i Oedolion yn cynnwys staff o wahanol ddisgyblaethau o fewn APADGOS ynghyd â chynrychiolwyr o'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion i oruchwylio datblygiad a gweithrediad “*Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu*” ar gyfer y Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Datblygwyd y “*cynllun*” cyntaf o'r fath, yn cadarnhau gweithgaredd cynharach, ym mis Mawrth, ei ddiweddarau ym Mawrth 2008 a'i ailwampio yn fwy sylfaenol yn 2009.

4.11.2 Mae fersiynau olynol o'r Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu wedi gosod nodau c amcanion marchnata, wedi dynodi cynulleidfaoedd targed penodol ar gyfer gweithgareddau marchnata ac wedi diffinio priod rolau Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion yng nghyswllt marchnata. Mae Tabl 3.3 islaw yn dangos lefel y gwariant ar weithgareddau marchnata cenedlaethol a rhanbarthol bob blwyddyn ers sefydlu'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion.

Tabl 3.3: Gwariant Cenedlaethol ar Farchnata

	2006/07 Gwir £ (miloedd)	2007/08 Gwir £ (miloedd d)	2008/09 Gwir £ (miloedd d)	2009/10 Cyllid £ (miloedd d)
Gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru	162.1	0	98.9	105.5

4.11.3 Mae'r gweithgareddau marchnata wedi cynnwys:

Ar lefel genedlaethol:

- Datblygu brand Cymraeg i Oedolion;
- Cynhyrchu deunydd ac adnoddau hyrwyddo wedi'i anelu at y cynulleidfaoedd targed a nodwyd yn y Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu;
- Cynnal ystod o weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo, yn cynnwys:

- Datblygu “*straeon cysylltiadau cyhoeddus*” am wahanol ddysgwyr, yn ogystal â phobl enwog yn cymryd rhan yn y Big Welsh Challenge ⁶²;
- Paratoi atodiadau ar Gymraeg i Oedolion yn y wasg ranbarthol;
- Darparu deunydd ‘brand’ y medrai Canolfannau fynd gyda hwy i arddangosfeydd a digwyddiadau;
- Bod â phresenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol allweddol megis yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd;
- Cynnal digwyddiadau cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo penodol megis “*Checkout Cymraeg*”;
- Cynnal ymgyrchoedd hysbysebu ar y teledu;
- Cynnal ymgyrchoedd hysbysebu ar y rhyngwyd a chyfryngau cymdeithasol;
- Datblygu a rheoli gwefan cymraegioedolion.org;

Ar lefel ranbarthol

- Defnyddio brand Cymraeg i Oedolion yn neunydd marchnata Canolfannau;
- Defnyddio lefelau cwrs Cymraeg i Oedolion Llywodraeth y Cynulliad ⁶³ yn llenyddiaeth marchnata Canolfannau;
- Datblygu gwefannau rhanbarthol gyda brand Cymraeg i Oedolion, pob un yn gysylltiedig â gwefan genedlaethol cymraegioedolion. Erbyn 2009 roedd y gwefannau rhanbarthol hyn yn cynnwys cyfleuster chwilio cyrsiau;
- Paratoi a dosbarthu prospectysau rhanbarthol ar gyfer pob blwyddyn academiaidd, yn amlinellu holl ddarpariaeth a chyrsgiau Cymraeg i Oedolion ar gyfer eu rhanbarth;
- Sefydlu llinellau cymorth ffôn a gwasanaethau ymateb e-bost canolog ar gyfer dysgwyr;

⁶² Mae'r Big Welsh Challenge yn gwrs Cymraeg rhyngweithiol ar-lein gyda thîm o ddysgwyr enwog ar y naill law a mentoriaid enwog ar y llall. Mae'r BWC yn rhaglen pum-mlynedd, yn rhedeg o fis Mawrth 2006, a rhagwelir y cynhyrchir adnoddau i gydfynd â phob lefel o fframwaith Cymraeg i Oedolion CBAC.

⁶³ Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

- Datblygu a dosbarthu taflenni a anelwyd at 'farchnadoedd' penodol e.e. rhieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol, cyflogwyr lleol a dogfennau gyda ffocws daearyddol. Mae'r adnoddau hyn yn gyffredinol wedi eu seilio ar gyhoeddiadau a deunyddiau hyrwyddo a ddatblygwyd i ddechrau gan Lywodraeth y Cynulliad ac felly'n parhau â delwedd brand Cymraeg i Oedolion;
- Paratoi a dosbarthu datganiadau i'r wasg rhanbarthol;
- Datblygu ystod o "*gynnyrch marchnata*" brand megis mygiau, sticeri car, penseli ac ati;
- Mynychu ystod o ddigwyddiadau lleol i hyrwyddo cyrsiau e.e. "*Parti Ponty*", nosweithiau agored /rhieni ysgolion, ffeiriau haf/Nadolig ac ati, ymgyrchoedd 'wrth ddesgiau talu archfarchnadoedd lleol;
- Datblygu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid o fewn y rhanbarth e.e. Mentrau Iaith, ysgolion lleol, grwpiau Mudiad Ysgolion Meithrin, Twf ac ati;
- Cynnal cystadlaethau er mwyn cael manylion cyswllt dysgwyr posibl;
- Arddangos baneri wrth ochr y ffordd cyn cyrsiau newydd;
- Defnyddio dysgwyr fel "*llysgenhadon*" i annog eraill i ddilyn eu hesiampl;
- Defnyddio tiwtoriaid i annog dysgwyr i barhau i gyrsiau lefel uwch;
- Cynhyrchu cylchlythyrau dysgwyr er mwyn, ymysg pethau eraill, hysbysu dysgwyr am gyfleoedd dysgu anffurfiol arfaethedig;
- Darparu gwybodaeth ar gyrsiau i Learndirect.

4.11.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi ceisio monitro effeithiau a/neu effeithiolrwydd gweithgareddau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, drwy gasglu data yng nghyswllt y dangosyddion dilynol ar gyfer y cyfnodau hynny y cynhaliwyd ymgyrchoedd hysbysebu neilltuol (fel arfer yn cyd-daro gyda'r cyfnod cyn y flwyddyn academaidd):

- Ystadegau allweddol yn cyfeirio at atgyfeiriadau gwahanol safleoedd i wefan www.cymraegioedolion.org;
- Ymweliadau i wefan www.cymraegioedolion.org;

- Ymweliadau i wefan pob Canolfan Cymraeg i Oedolion⁶⁴;
- Ymweliadau i wefan pob Canolfan Cymraeg i Oedolion a gyfeiriwyd o wefan www.cymraegioedolion.org⁶⁵;
- Ymholiadau am gyrsiau Cymraeg i Oedolion a dderbyniwyd gan Ganolfannau dros y:
 - Ffôn;
 - E-bost.
- Lefel y sylw yn y wasg a gafwyd ar gyfer y Rhaglen Cymraeg i Oedolion.

4.11.5 Mae hyn yn amlwg yn gychwyn da, er ei bod yn hollbwysig cynnal gwaith pellach i ymestyn cwmpas y data monitro.

4.11.6 Ar lefel fwy strategol, dangosodd Arolwg Omnibus⁶⁶ a gynhaliwyd ym mis Tachwedd bod:

- 38% o oedolion yng Nghymru (dros 16 oed) wedi gweld y logo Cymraeg i Oedolion, sy'n ymddangos yn lefel weddol uchel o ymwybyddiaeth o fewn deunaw mis o'i lansiad;
- 72% o oedolion yng Nghymru yn credu y byddai dysgu Cymraeg o fudd i'w gyrfaoedd;
- Credai 67% y byddai dysgu Cymraeg yn helpu i feithrin ymdeimlad cryfach o hunaniaeth genedlaethol;
- Credai 52% y byddai dysgu Cymraeg yn gwella bywyd cymdeithasol pobl.

⁶⁴ Ac eithrio Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru

⁶⁵ Ac eithrio Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru

⁶⁶ Cyflawnwyd Arolwg Omnibws Cymru gan Beaufort Research Cyf.

5. DARPARIAETH HYD YMA

5.1 CYFLWYNIAD

5.1.1 Yn y bennod yma, defnyddiwn ddata a gafwyd gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a CBAC i roi trosolwg o sut yr esblygodd darpariaeth Cymraeg i Oedolion ers sefydlu'r Canolfannau.

5.1.2 Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes ym Mhennod 3, mae'n bwysig nodi y bu pryderon os yw peth o'r data yn ddibynadwy a chyfyngodd hyn ar ein gallu i ddod i gasgliadau pendant ar rai agweddau o berfformiad.

5.2 NIFEROEDD DYSGWYR


5.2.1 Er y sefydlwyd y Canolfannau Cymraeg yn Oedolion ddiwedd 2006, ni ddyfarnwyd contractau i ddarparwyr gyflenwi cyrsiau hyd flwyddyn academaidd 2007/08 a ni fu modd iddynt, mewn gwirionedd, gasglu data dibynadwy am niferoedd dysgwyr hyd yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Ar y sail honno, mae Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn ystyried 2007/08 fel eu blwyddyn "*sylfaen*".

5.2.2 Dengys Ffigur 5.1 islaw nifer yr unigolion a gofrestrodd ar Gyrsiau Cymraeg i Oedolion rhwng 1997/98 a 2008/09. Mae'n awgrymu y bu cynnydd bach yng nghyfanswm nifer y dysgwyr ers 1997, ac yn hollbwysig, wrthdroi'r dirywiad cyson yn y nifer yn ymrestru a welwyd yn y pedair blynedd cyn sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn 2006. Nodwyd hefyd fod pob un o'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau WCEU bob blwyddyn ers eu sefydlu.

5.2.3 Mae arbrofi'r Canolfannau gyda gwahanol ddulliau recriwtio i gyfrif am elfen o'r twf yma, megis cyflwyno cyrsiau byr yn canolbwyntio ar "*y teulu*" er enghraifft, neu "*gyrsiau blasu*" a gynlluniwyd i arwain darpar ddysgwyr i ddarpariaeth brif ffrwd, ac yn fwy arbennig felly, i gyrsiau

dwys. Mae cyflwyno mwy o “ysgolion haf” a “chyrsgiau adolygu” gan y Canolfannau hefyd wedi helpu i hybu'r nifer o ddysgwyr a recriwtiwyd. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol ymysg Cyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion y gall fod nad yw lefel y twf ym maint y ddarpariaeth a welwyd hyd yma yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Poenai rhai y gallai Canolfannau fod wedi cychwyn “cyrraedd pwynt dirlawnder” a bod nifer dysgwyr wedi “gwastatau” neu y byddent yn gwneud hynny'n fuan.

Ffigur 5.1: Nifer Dysgwyr yn Ymrestru ar Gyrsiau Cymraeg i Oedolion^{67 68}




5.2.4 Dengys ffigur 5.2 y cyfrannau o ddysgwyr a gymerodd ran mewn cyrsiau Cymraeg i Oedolion (ac eithrio cyrsiau blasu) ar bob lefel yn 2007/08 a 2008/09. Dengys i fwyafrif y dysgwyr (cyfanswm o 51% yn 2008/09) ymrestru ar gyrsiau lefel Mynediad, gyda chynyddol lai yn ymrestru ar gyrsiau ar lefel uwch (25% ar gyrsiau lefel Sylfaen, 13% ar gyrsiau Canolradd, 8% ar gyrsiau lefel Uwch a dim ond 1% yn cofrestru ar gyrsiau lefel Hyfedredd). Fodd bynnag, dengys hefyd i gyfran ychydig yn uwch o ddysgwyr gymryd rhan mewn cyrsiau Lefel Sylfaen

⁶⁷ Cafodd y data yma ei baratoi ychydig yn wahanol dros y blynyddoedd, ac ni fedrir dibynnu arno ond i roi argraff o'r newidiadau yn lefel y ddarpariaeth ym mhob rhanbarth

⁶⁸ Data 2008/09 heb ei ddilysu eto gan Lywodraeth y Cynulliad

yn 2008/09 nag yn 2007/08, gyda gostyngiad cyfatebol yn y cyfrannau yn cymryd rhan mewn cyrsiau lefel Mynediad. Er y byddai'n gamgymeriad darllen gormod o newid un flwyddyn, y mae'n awgrymu i gyfran uwch o ddysgwyr a recriwtiwyd ar gyrsiau lefel Mynediad yn 2006/07 a 2007/08 symud ymlaen i gyrsiau Lefel Sylfaen yn 2008/09 nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol. Rhaid cofio, wrth gwrs, y bydd yn cymryd peth amser i effaith dilyniant o lefelau Mynediad a Sylfaen hyd at lefelau Canolradd ac Uwch ddod trwodd, er y bydd y blynyddoedd nesaf yn bwysig iawn yn nhermau cadw'r momentwm a sicrhau gwelliant yn y darlun arhosodd yn ei unfan ers amser yn y lefelau Canolradd ac Uwch.


Ffigur 5.2: Ymrestriadau Dysgwyr yn 2007/08 a 2008/09



5.2.5 Nodwyd fod gwahaniaethau sylweddol rhwng Canolfannau yn nhermau dosbarthiad dysgwyr ar draws lefelau, gyda er enghraifft, dysgwyr lefel Mynediad ond yn 37% o ymrestriadau Canolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd, gan fod yn bron ddwywaith y gyfran hynny yn ymrestriadau Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent, ar 70%. Fel y dengys ffigur 5.3 yn gyffredinol, mae gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion y Gogledd a'r Canolbarth broffiliau dysgwyr 'uwch', gyda 36% o ddysgwyr y Gogledd a 12% o ddysgwyr y Canolbarth wedi ymrestru ar Lefel Sylfaen yn 2008/09 a 15% yn y Gogledd a 18% yn y Canolbarth ar y lefel Ganolradd. Mae hefyd yn ddiddorol nodi fod 12% o'r dysgwyr a

ymrestrodd gyda chanolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg yn dilyn cyrsiau lefel Uwch neu Hyfedredd.

Ffigur 5.3: Cofrestriadau Dysgwyr ar bob Lefel yn ôl Canolfan Cymraeg i Oedolion yn 2008/09⁶⁹



5.2.6 Mae gostyngiad clir yn nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau ar bob lefel esgynnol, er y byddai'r data cyfyngedig sydd ar gael yn awgrymu lefel yn tapro o ddysgwyr yn gadael cyn gorffen eu cyrsiau wrth iddynt symud ymlaen i lefelau uwch. h.y. mae tua 51% (61% yn 2007/08) yn llai o bobl yn cymryd rhan mewn cyrsiau lefel Sylfaen nag sydd ar gyrsiau lefel Mynediad, tua 47% (42% yn 2007/08) yn llai o bobl yn cymryd rhan mewn cyrsiau lefel Canolradd nag mewn cyrsiau lefel Sylfaen a thua 37% (27% yn 2007/08) yn llai o bobl yn cymryd rhan mewn cyrsiau lefel Uwch nag ar gyrsiau lefel Canolradd. Mae'r nifer sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau lefel Hyfedredd yn fach iawn, er bod Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld y ddarpariaeth hon yn cael ei hymestyn ymhellach.

⁶⁹ Mae'r siartiau ar Canolfannau Cymraeg i Oedolion y De Orllewin a Chaerdydd yn seiliedig ar amcangyfrifon, yn deillio o nifer y cofrestriadau ar bob lefel wedi'u rhannu gyda nifer cyfartallog cofrestriadau fesul dysgwr ar draws pob lefel


5.2.7 Roedd yn glir o'n gwaith maes fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion, fel staff Llywodraeth y Cynulliad, yn ymwybodol iawn o'r angen i gynyddu nifer a chanran y dysgwyr sy'n symud ymlaen o un lefel i'r nesaf ac mae gan y rhan fwyaf o Ganolfannau fesurau ar waith i hyrwyddo cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r ffordd anghyson y dehonglodd darparwyr "cwblhau" yn golygu na fedrir dibynnu ar y data i roi darlun clir a chyson o'r graddau y mae dysgwyr yn symud o un cwrs neu lefel i un arall. Yn ei dro, mae hyn yn rhwystro Canolfannau Cymraeg i Oedolion rhag dynodi arfer da ac yn llesteirio gweithredu polisïau seiliedig ar dystiolaeth i wella cadw a dilyniant dysgwyr. Wrth gwrs, byddai gwella cyfraddau dilyniant dysgwyr, tra hefyd yn gwella lefelau recriwtio, yn helpu Canolfannau i sicrhau'r twf parhaus mewn rhifau dysgwyr a geisir gan Lywodraeth y Cynulliad.

5.2.8 Mae consensws ymysg Cyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fod dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau dwys yn hytrach na chyrsgiau mwy traddodiadol 'unwaith yr wythnos' yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus wrth ddatblygu eu sgiliau iaith. Ar y sail honno, ceisiodd y Canolfannau yn gynyddol hyrwyddo darpariaeth ddwys. Dengys Ffigur 5.4 y gyfran o ddysgwyr yn ymrestru ar gyfer darpariaeth ddwys ym mhob Canolfan Cymraeg i Oedolion rhwng 2007/08 a 2008/09. Fodd bynnag, soniodd cyfranwyr am yr hollt rhwng dymuniad Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo darpariaeth ddwys ar y naill law, a'i pholisïau ariannu, sy'n methu gwobrwyo darparwyr yn gymesurool am lefel uwch y mewnbwn sy'n gysylltiedig â rhedeg cyrsiau dwys, ar y llaw arall. Awgrymodd rhai cyfranwyr y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio sut y medrid plygu'r System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol er mwyn annog mwy o ddarparwyr i redeg cyrsiau dwys.

5.2.9 Ar lefel Cymru gyfan, arhosodd cyfran y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau dwys yn weddol sefydlog rhwng 2007/08 a 2008/09. Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau amlwg rhwng un Canolfan ac un arall. Gwelodd Canolfannau Cymraeg i Oedolion y Gogledd, y

Canolbarth a Morgannwg symudiad tuag at ddarpariaeth fwy dwys a chynnydd cyfatebol yn nifer yr ymrestriadau fesul dysgwr, gan awgrymu fod unigolion yn ymrestru ar gyrsiau olynol wrth iddynt symud o un lefel i'r nesaf. O gymharu, bu gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr a ymrestrodd ar gyrsiau dwys yng Nghanolfannau Cymraeg i Oedolion y De Orllewin, Caerdydd a Bro Morgannwg a Gwent, gyda, yn achos Canolfannau Cymraeg i Oedolion y De Orllewin a Chaerdydd a'r Fro, ostyngiad cyfatebol yn nifer y cyrsiau (ac eithrio cyrsiau blasu) yr ymrestrodd pob dysgwr arnynt.

Ffigur 5.4: Ymrestriadau Dysgwyr ar Gyrsiau Dwys yn ôl Canolfan Cymraeg i Oedolion yn 2007/08 a 2008/09



5.2.10 Er bod rhai Canolfannau wedi llwyddo i gynyddu nifer y cyrsiau dwys a redwyd yn 2008/09, roedd ofn cyffredinol y byddai'r dirywiad economaidd yn cael effaith niweidiol ar recriwtio dysgwyr ar gyrsiau o'r fath yn y dyfodol agos. Teimlid y byddai unigolion mewn cyflogaeth yn llai tebygol o wario arian, y byddai pobl allan o waith yn canolbwyntio mwy ar ganfod swyddi nag ar ddysgu Cymraeg (er y medrid dadlau y gallai gwneud hynny eu helpu i sicrhau cyflogaeth⁷⁰) ac y byddai cyflogwyr yn llai tebygol o gefnogi eu staff i ddysgu Cymraeg wrth i amodau busnes dynhau.

⁷⁰ Gweler er engraifft, Sgiliau Dyfodol Cymru a ddangosodd fod 23% o gyflwgwyr Cymru yn credu fod bylchau ymysg gweithwyr ran sgiliau iaith Gymraeg

5.2.11 Un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu fu cynyddu darpariaeth cyrsiau pwrpasol Cymraeg yn y Gweithle. Bu holl Ganolfannau Cymraeg i Oedolion yn darparu cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle o fewn eu sefydliadau lletya yn ogystal ag i (yn bennaf) gyflogwyr sector cyhoeddus. Ystyrid bod hyn yn elfen cynyddol bwysig o'u darpariaeth ac, mewn rhai achosion, yn rhywbeth oedd yn helpu i gadarnhau statws Canolfannau o fewn eu sefydliadau lletya. Er y teimlai Canolfannau yn gyffredinol iddynt fod yn llwyddiannus wrth gynyddu nifer dysgwyr, ofnai rhai i raddau y medrid priodoli eu llwyddiant hyd yma i bigo 'ffrwythau sy'n hongian yn isel' ac y byddai twf y dyfodol yn anos ei gael, yn neilltuol mewn hinsawdd economaidd sy'n debygol o "*effeithio ar flaenoriaethau pobl*" a'r pwysau ariannol ar gyllid sector cyhoeddus. Teimlai cyfarwyddwyr y medrai Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymwneud yn fwy rhagweithiol gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion drwy gyfeirio cyflogwyr i Ganolfannau ar gyfer darpariaeth benodol Cymraeg i Oedolion i'w galluogi i wireddu eu Cynlluniau Datblygu Iaith Gymraeg. Deellir y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn arwain yn strategol wrth ddatblygu darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle ymhellach yn y dyfodol drwy fuddsoddiad cenedlaethol. Gobeithir y bydd y dull hwn yn dileu dyblygu adnoddau ac yn gwneud y cyrsiau yn fwy effeithiol o ran cost i gyflogwyr.

5.2.12 Mae'r holl Ganolfannau hefyd wedi ceisio cynyddu nifer y cyrsiau Cymraeg i'r Teulu (un ai'n uniongyrchol neu drwy ddarparwyr allanol), er bod barn Canolfannau yn gymysg am effeithlonrwydd y dull hwn. Nododd un Cyfarwyddwr Canolfan y bu'n rhaid cau rhai cyrsiau Cymraeg i'r Teulu "*oherwydd niferoedd isel*" a soniodd dau arall am gyfradd drosi wael rhwng rhieni a gymerodd ran ar 'gyrsiau blasu' a drefnwyd drwy Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin. Ar y llaw arall, dywedodd un Cyfarwyddwr Canolfan fod y galw am gyrsiau blasu yn gyson ac yn cynyddu. Yn y cyd-destun hwn, nodir fod Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu datblygu deunyddiau i gefnogi cwrs

cenedlaethol lefel Mynediad Cymraeg i'r Teulu, fydd yn hwyluso'r math yma o ddarpariaeth yn y dyfodol.

5.3 DEILLIANNAU DYSGWYR


5.3.1 Dengys Ffigur 5.5 y nifer o ddysgwyr a safodd arholiadau CBAC ar bob lefel dros y chwe blynedd ddiwethaf. Mae nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu'n gyson ers cyflwyno arholiadau newydd CBAC, gyda thwf amlwg yn nifer y dysgwyr yn sefyll yr arholiad lefel Mynediad yn 2008 a'r arholiad lefel Sylfaen yn 2009. Wrth gwrs, mae tiwtoriaid wedi annog dysgwyr i sefyll arholiadau CBAC ers nifer o flynyddoedd (nid yn lleiaf oherwydd eu cred fod llwyddiant mewn arholiadau yn eu hannog i symud i gyrsiau lefel uwch) ond mae Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion wedi ceisio hyrwyddo arholiadau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf drwy:

- Gofrestru ymgeiswyr ar gyfer arholiadau. Yn flaenorol, roedd angen i ddysgwyr oedd awydd sefyll arholiadau (yn aml yn dilyn perswâd gan y tiwtor), i wneud cais eu hunain i sefyll yr arholiadau. Mae'n anochel fod hyn wedi golygu i rai dysgwyr, er yn fodlon o ran egwyddor i sefyll arholiadau, beidio gwneud hynny oherwydd y drafferth o orfod wneud cais eu hunain;
- Mae cyflwyno llyfrau cwrs newydd CBAC a llwybr credydau yn arwain dysgwyr yn fwy naturiol tuag at yr arholiadau;
- Mae contractau rhai Canolfannau gyda'u darparwyr yn cyfeirio'n benodol at lywio dysgwyr tuag at arholiadau CBAC;
- Mae rhai Canolfannau wedi talu am gostau cofrestru ar gyfer arholiadau, neu wedi'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud hynny, ar y sail y byddant yn derbyn taliadau 'deilliant' pan fydd dysgwyr yn pasio arholiadau.

5.3.2 Mae rhai'n beirniadu'r pwyslais ar gymwysterau CBAC, fodd bynnag, a dywedodd rhai *“mae'n fater gwleidyddol oherwydd y buddsoddiad a wnaeth Llywodraeth y Cynulliad ynddynt”*. Er bod CBAC yn amlwg yn

croesawu cynnydd yn y nifer sy'n sefyll arholiadau bob blwyddyn, ni fydd o reidrwydd yn croesawu unrhyw ostyngiad yn y cyfraddau pasio a fedrai ddilyn wthio dysgwyr heb fawr o awydd i sefyll arholiadau.

Ffigur 5.5: Dysgwyr yn Sefyll Arholiadau CBAC



5.3.3 Mae anghysonderau yn nehongliad darparwyr o'r hyn yw 'cwblhawyr' yn golygu nad yw'r data ar gyfraddau cwblhau yn ddibynadwy. Yn yr un modd, mae'r arfer o newid "nodau cymhwyster" ar gyfer 'ymadawyr cynnar' yn golygu na fedrir cyfrif cyfraddau cyrhaeddiad mewn ffordd ystyrlon. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'u darparwyr is-gontract edrych ar y gwendidau hyn fel mater o frys.

5.3.4 Er ei fod rywfaint yn amherthnasol o safbwynt rhaglen Cymraeg i Oedolion gall fod angen i Lywodraeth y Cynulliad ymchwilio i ba raddau y mae camddehongli mesurau neu arferion megis newid nodau cymhwyster yn effeithio ar ddibynadwyedd y data am feysydd rhaglen eraill. Mae'r cymhellion i ddarparwyr 'weithio'r system' sy'n mesur eu perfformiad yng nghyswllt cyfraddau cwblhau dysgwyr, cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr a chyfraddau dilyniant dysgwyr yn amlwg ac mae'n debygol iawn fod yr arferion a ddadlennwyd gan yr adolygiad

mewnol o ofynion data Cymraeg i Oedolion yn fwy eang nag yn y Rhaglen Cymraeg i Oedolion.

6. PROFFESIYNOLI'R GWEITHLU CYMRAEG I OEDOLION

6.1 CYFLWYNIAD

6.1.1 Yn y bennod hon yr ydym yn:

- Sôn yn fyr am y cefndir i thema proffesiynoli Cymraeg i Oedolion (adran 6.2);
- Rhoi amlinelliad byr o'r gweithlu Cymraeg i Oedolion (adran 6.3);
- Disgrifio'r gweithgareddau a wnaed i broffesiynoli'r gweithlu Cymraeg i Oedolion (adran 6.4);
- Ystyried effeithiau'r gweithgareddau a wnaethpwyd i broffesiynoli'r gweithlu Cymraeg i Oedolion (adran 6.5).

6.2 CEFNDIR THEMA 'PROFFESIYNOLI CYMRAEG I OEDOLION'

6.2.1 Cyn sefydlu'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion, dadleuai Llywodraeth y Cynulliad y câi'r maes Cymraeg i Oedolion ei nodweddu gan:

- Gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion tameidiog a rhannol amatur;
- Safonau amrywiol o addysgu (fel canlyniad natur rannol 'amhroffesiynol' y gweithlu tiwtoriaid);
- Diffyg un cymhwyster cydlynol a rhwydd ei adnabod ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- Yr ymagwedd dameidiog at hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion (oherwydd nad oedd un fframwaith cymwysterau cenedlaethol);
- Diffyg dull cyson o ledaenu gwybodaeth ac arfer da ymysg ymarferwyr;
- Diffyg llwybr gyrfa clir ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion a diffyg cysylltiedig 'statws' ar gyfer addysgu Cymraeg i Oedolion.

6.2.2 Yn y cefndir hwn yr ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i gryfhau'r gweithlu Cymraeg i Oedolion fel rhan o ymgyrch ehangach i wella ansawdd ac effeithlonrwydd darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Mae'n ofynnol i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion gynhyrchu strategaethau hyfforddiant sy'n rhoi manylion eu gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i

Oedolion, ystyried datblygiadau ehangach o fewn y maes Cymraeg i Oedolion (e.e. newidiadau i'r cwricwlwm Cymraeg i Oedolion), nodi anghenion hyfforddiant a gosod cynlluniau hyfforddiant gyda chostau. Mae darpariaeth yn nyraniadau cyllid craidd Canolfannau Cymraeg i Oedolion ar gyfer cyflogi swyddog hyfforddiant i alluogi datblygu a gweithredu cynlluniau o'r fath. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn talu am gostau cynhadledd hyfforddiant flynyddol Cymraeg i Oedolion lle cynhelir ystod o weithdai perthnasol i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

6.2.3 Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, ariannodd Llywodraeth y Cynulliad dri phrosiect neilltuol yn ymwneud â phroffesiynoli'r gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion, sef:

- 1 Hyfforddiant i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- 2 Cymhwyster cenedlaethol ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- 3 Cylchgrawn ar-lein ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion

6.2.4 Wrth gwrs, mae'n anodd gwahanu effeithiau'r tri 'phrosiect' hyn a ariannir gan Lywodraeth y Cynulliad o'r ystod ehangach o weithgareddau a ariannir gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Felly ystyriwn bob un o'r prosiectau hyn yng nghyd-destun y gweithgareddau ehangach hyn.

6.3 CEFNIDIR GWEITHLU TIWTORIAID CYMRAEG I OEDOLION

6.3.1 Cyn trafod yr ymagweddau at "*broffesiynoli Cymraeg i Oedolion*", rhoddwn gipolwg ar faint a natur y gweithlu Cymraeg i Oedolion.

6.3.2 Mae cyfanswm o tua 670⁷¹ o bobl yn ymwneud â threfnu neu gyflwyno darpariaeth Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru. Caiff staff Cymraeg i Oedolion eu cyflogi gan un ai Ganolfannau Cymraeg i Oedolion neu ddarparwyr ar gontract ar un o dri math o gontract:

⁷¹ Ffigur wedi'i gyfrif o wybodaeth a gafwyd gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion ym mis Medi 2009

- Llawn-amser;
- Ffracsiynol, sy'n golygu y cânt eu cyflogi ar sail barhaol ond yn gweithio oriau rhan-amser. Mae tiwtoriaid a gyflogir ar y sail hon yn mwynhau'r un manteision, pro-rata, â'u cymheiriaid llawn-amser;
- Sesiynol, sy'n golygu y talir iddynt am yr oriau a weithiant. Nid yw contractau sesiynol yn rhoi gwarant o waith a dim buddion megis tâl salwch a gwyliau.

6.3.3 Cyflogir mwyafrif llethol (87%) y tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ar gontractau sesiynol, ac mae llawer ohonynt yn addysgu Cymraeg i Oedolion am lai na phum awr yr wythnos. Er bod y trefniant cyflogaeth hwn yn gostwng y risg y bydd ddarparwyr yn gorfod talu am gostau cyflogaeth hyd yn oed os yw'r galw am gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn wan, mae hefyd yn ei gwneud yn anos i ddarparwyr ddenu a chadw tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn yr hirdymor. Gweithredodd ychydig o ddarparwyr i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddechrau recriwtio tiwtoriaid ar gontractau parhaol (llawn-amser a hefyd ffracsiynol) am y tro cyntaf yn ystod hydref 2007, yn unol ag uchelgais Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod y bydd tiwtoriaid sesiynol yn parhau'n brif gynheiliaid addysgu Cymraeg i Oedolion, o leiaf yn y tymor canol, a bydd yr her yn parhau o wneud addysgu Cymraeg i Oedolion yn ddewis gyrfa deniadol.

6.3.4 Mae'r cyfraddau a dalir gan ddarparwyr unigol yn amrywio'n sylweddol o fewn rhai rhanbarthau, ond ystyrir eu bod yn weddol gyson, ac felly'n llai o broblem ymysg tiwtoriaid mewn rhanbarthau eraill. Lle mae gwahaniaethau, nid yw Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn gyffredinol yn tybio eu bod mewn sefyllfa i gydgordio lefel cyflogau oherwydd bod tâl tiwtoriaid yn gyffredinol yn cael ei osod gan bolisiâu sefydliadau yn hytrach na gan bolisi'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion.

6.3.5 Yn ôl data a ddarparwyd gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion, mae mwy o fenywod nag o ddynion yn diwtoriaid Cymraeg i Oedolion ar

draws Cymru. Nodir hefyd fod cyfran sylweddol o'r tiwtoriaid dros 60 mlwydd oed a bod y mwyafrif dros 50⁷² ⁷³.

6.3.6 Mae'n ofniad gan Lywodraeth y Cynulliad fod gan bob tiwtor Cymraeg i Oedolion (ymarferwyr Addysg Bellach) gymhwyster addysgu addas⁷⁴. Fodd bynnag, yn ôl data a ddarparwyd gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion, nid oes cymhwyster o'r fath gan 22%⁷⁵ o diwtoriaid, er y medrent fod â chymwysterau uchel yn y Gymraeg e.e. graddau yn y Gymraeg.

6.4 AMLINELLIAD O'R GWEITHGAREDDAU A GYNHALIWYD I BROFFESIYNOLI'R GWEITHLU CYMRAEG I OEDOLION

6.4.1 O'r cychwyn cyntaf, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn gyfrifol am broffesiynoli'r gweithlu Cymraeg i Oedolion a gwnaeth ddarpariaeth o fewn cyllid blynyddol y Canolfannau i'w galluogi i dalu am gostau datblygu a chyflenwi cynlluniau hyfforddiant. Yn ogystal, darparodd Llywodraeth y Cynulliad ddyfarniad ychwanegol unigol o £280 mil ym mis Tachwedd 2006 (drwy'r prosiect Hyfforddiant Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion) fel math o "gynllun iro" i "ddangos for Canolfannau o ddifrif am wella safonau", yn neilltuol ar ôl i'r rhan fwyaf o Ganolfannau benodi Swyddogion Hyfforddiant ym mis Medi 2006.

6.4.2 Ers hynny mae'r Canolfannau wedi cynhyrchu cynlluniau hyfforddiant a datblygu blynyddol cynyddol fwy manwl, yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad. Cafodd y dogfennau hyn, sy'n nodi'r rhaglen cyrsiau a chyfleoedd datblygu proffesiynol y mae Canolfannau yn bwriadu eu cynnig, eu seilio ar:

⁷² Yn 2007, gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion edrych ar broffiliau oedran eu tiwtoriaid gyda golwg ar ddenu ymarferwyr iau i'r maes

⁷³ Cyrchwyd y wybodaeth yma o ddogfenau cynllunio Canolfannau a/neu trwy drafodaethau dilynol

⁷⁴ Er y gall rhai diwtoriaid gael eu heithrio yn dechnegol o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002

⁷⁵ Yn deillio o ddata a gafwyd gan y Canolfannau ym mis Medi 2009

- Adroddiadau Estyn;
- Adroddiadau Hunanasesu Darparwyr;
- Arolygon o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion;
- Arsylwadau o diwtoriaid wrth eu gwaith, sydd bellach yn ffurfio elfen allweddol o weithgareddau datblygu staff pob Canolfan;
- Cynlluniau Datbygu Unigol Tiwtoriaid (a seiliwyd ar ymatebion i arolygon ac arsylwadau tiwtoriaid);
- Adborth ar gyrsiau a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

6.4.3 Ers lansio cynlluniau hyfforddiant cyntaf y Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn 2006/07, bu twf cyson flwyddyn ar flwyddyn yn nifer a chyfran y tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion sy'n gwneud rhyw fath o weithgaredd datblygu proffesiynol, yn ogystal â chynnydd cyfatebol yng ngwariant Canolfannau ar hyfforddiant.

6.4.4 Dywedodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'n harolwg 2009 o ymarferwyr Cymraeg i Oedolion (mwy na 80% ar gyfer pob math o 'gwrs') y bu'r hyfforddiant a gawsant yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Yn wir, dywedodd nifer o ymatebwyr fod y cynnydd yn y cyfleoedd datblygu proffesiynol a gynigiwyd dros y tair blynedd ddiwethaf yn un o "*agweddau gorau*" y rhaglen ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion.

6.4.5 Daeth y Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn nodwedd fwy amlwg o gynlluniau hyfforddiant Canolfannau dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae rhai rhanddeiliaid yn ei ystyried fel "*man cychwyn*" taith datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer "*tiwtoriaid proffesiynol Cymraeg i Oedolion*" presennol a darpar diwtoriaid.

6.4.6 Datblygwyd y Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion gan Brifysgol Caerdydd mewn cysylltiad agos gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion eraill, fel modd o fynd i'r afael â'r safonau hanesyddol amrywiol o addysgu yn gysylltiedig gydag

ymgyfraniad 'tiwtoriaid' heb eu hyfforddi ym maes Cymraeg i Oedolion a chodi statws addysgu Cymraeg i Oedolion fel dewis gyrfa. Gwelwyd cyflwyniad un Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion hefyd fel modd o ddileu amryfusedd yn deillio o fodolaeth nifer o ddyfarniadau yr ymddangosai eu bod yn cymhwyso posibl i addysgu Cymraeg i Oedolion.

6.4.7 Defnyddiodd Prifysgol Caerdydd ei gwrs TACiO ⁷⁶, oedd yn bodoli eisoes, fel sylfaen ar gyfer datblygu cyfres cyfwerth â 60 credyd o fodiwlau'r Cymhwyster Cenedlaethol a all, dan y cytundeb credydau a throsglwyddo rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, ffurfio rhan o "*Iwybr integredig Cymraeg i Oedolion*" i gymhwyster o 120 credyd TAR-PCET ⁷⁷. Cyflwynir y cwrs ym mhob Canolfan Cymraeg i Oedolion dan gytundebau ffransais gyda Phrifysgol Caerdydd, sy'n cynnal y prif contract gyda APADGOS.

6.4.8 Roedd y gyllideb ar gyfer datblygiad dechreuol a pheilota'r cymhwyster Cenedlaethol yn £64.6 mil ac wedyn dyrannodd APADGOS £502.5 mil pellach ar gyfer cyflenwi'r Cymhwyster Cenedlaethol i 85 o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion rhwng 2008 a 2010. Mae trafodaethau yn parhau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yng nghyswllt ariannu'r ddarpariaeth hon fel cynnig 'prif ffrwd' yn y tymor hwy. Er y gall Llywodraeth y Cynulliad fod yn dymuno darparu digon o gyllid wedi'i neilltuol (drwy CCAUC) at gostau cyflenwi hyfforddiant, mae'n annhebyg o fod mor hael wrth ariannu cyflenwi parhaus y Cymhwyster Cenedlaethol ag yn ystod y cyfnod peilot. Yn wir, mae'n bosibl wrth i nifer y tiwtoriaid presennol a darpar diwtoriaid Cymraeg i Oedolion sy'n dilyn cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol ostwng (wrth i fwy o diwtoriaid cael cymwysterau addas), efallai y caiff Canolfannau Cymraeg i Oedolion (drwy eu prifysgolion nawdd) eu gorfodi i gyflwyno ffioedd i sicrhau fod y ddarpariaeth yn hyfyw, yn debyg iawn i'r ffordd a wnânt ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig eraill.

⁷⁶ Tystysgrif Addysgu Cymraeg i Oedolion

⁷⁷ Cyflwynwyd dan drefniadau ffransais gan Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru

6.4.9 Ym mis Gorffennaf 2009 roedd cyfanswm o 111 ymarferydd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol (yn cynnwys y rhai a gofrestrodd ar gyrsiau 'peilot' cyfwerth â 30 credyd yn 2007 a 2008) gyda 84% o'r rhai a gymerodd ran yn y cyrsiau 'peilot' yn eu cwblhau'n llwyddiannus⁷⁸. Roedd tua 77% o'r ymatebwyr i'n harolwg 2009 o ymarferwyr a gymerodd ran mewn cyrsiau cysylltiedig â'r cymhwyster Cenedlaethol wedi cael yr hyfforddiant yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn a 18% arall wedi'i gael yn weddol ddefnyddiol.

6.4.10 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyfarnu contract yn ddiweddar i Brifysgol Caerdydd i ddatblygu cwrs dysgu cyfunol ar gyfer y Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion fydd yn cyfuno sesiynau hyfforddiant ar-lein gydag addysgu wyneb i wyneb a rhoi opsiwn ychwanegol a hyblyg i diwtoriaid ar gyfer dilyn y cymhwyster. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn awyddus i roi llwybrau mwy neilltuol ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus o fewn y maes Cymraeg i Oedolion. Yn amodol ar i gyllid fod ar gael, gobeithir:

- Sefydlu llwybr dysgu seiliedig ar astudiaeth ac ymchwil ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion sydd wedi cwblhau'r Cymhwyster Cenedlaethol. Medrai hyn adeiladu ar fodiwlau y mae rhai prifysgolion eisoes wedi'i hadeiladu i raglenni lefel Meistr;
- Datblygu fframwaith datblygu proffesiynol parhaus ymhellach;
- Diffinio nifer gofynnol o oriau hyfforddiant i'w gwneud gan diwtoriaid Cymraeg i Oedolion mewn unrhyw flwyddyn benodol. Yn y cyd-destun hwn, gall fod peth gwerth mewn ystyried cynaliadwyedd tymor hwy yr ymarfer presennol o dalu i diwtoriaid sesiynol i gymryd rhan mewn hyfforddiant;
- Datblygu mini-fodiwl 'Paratoi i Addysgu' fydd hefyd yn rhan o fodiwl cyntaf y Cymhwyster Cenedlaethol.

6.4.11 Yn ogystal â'r gweithgareddau hyfforddi a ddisgrifir uchod, gofynnodd

⁷⁸ Darparwyd y ffigyrau hyn gan Brifysgol Caerdydd

Llywodraeth y Cynulliad i CBAC ddatblygu a chyhoeddi cylchgrawn ar-lein “*Y Tiwtor*” fel modd o hybu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol y tua 670 o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion sy’n gweithio ledled Cymru mewn modd cost-effeithiol a chyson, drwy gyflwyno gwybodaeth hygyrch, gyfoes a phroffesiynol berthnasol iddynt a rhoi mynediad i ystod o adnoddau addysgu a dysgu. Mewn egwyddor o leiaf, byddai cylchgrawn ar-lein yn ymddangos yn gyfrwng delfrydol ar gyfer ymgysylltu â gweithlu tiwtoriaid gwasgaredig Cymraeg i Oedolion. Mae ganddo hefyd y potensial i fod â rôl ganolog wrth weithredu rhaglen ehangach Llywodraeth y Cynullid ar gyfer ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion gan ei fod yn rhoi ‘ffordd i’r farchnad’ ar gyfer adnoddau addysgu a dysgu a ddatblygwyd ac ar gyfer lledaenu gwybodaeth am ddatblygiadau allweddol yn y maes Cymraeg i Oedolion yn cynnwys y Cymwysterau Cymraeg i Oedolion newydd, y Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion a datblygiadau o fewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion.

6.4.12 Dyfarnwyd cyfanswm cyllid o £180 mil dros dair blynedd ar gyfer datblygu a chyhoeddi “*Y Tiwtor*”, er bod disgwyliad clir y byddai cyllid pellach ar gael pe profai’r cylchgrawn yn llwyddiannus⁷⁹. Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf “*Y Tiwtor*” ar-lein ym Mawrth 2008 a chyhoeddwyd naw rhifyn dilynol ar sail chwarterol. Cafodd y cyhoeddiad ei addasu rywfaint o’i rifynnau cyntaf, yn cynnwys fel ymateb i’n Hadroddiad Thematig ym mis Medi 2009 ar Broffesiynoli Cymraeg i Oedolion.

6.4.13 Dangosodd ein harolwg o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion ym Mehefin 2009 bod⁸⁰:

- 88% o ymatebwyr wedi clywed am “*Y Tiwtor*”, oddeutu 15 mis ar ôl ei lansio;
- Roedd 79% o’r rhai a glywodd am “*Y Tiwtor*” (neu 69% o’r holl ymatebwyr) wedi ei gyrchu ar-lein;

⁷⁹ Deallwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi ymestyn ei gontact gyda CBAC am 18 mis pellach (hyd Hydref 2011) ar sail pro-rata

⁸⁰ Oherwydd cyfradd ymateb gweddol isel i’r arolwg gellid bod tuedd o fewn y data, ac felly dylid ymdrin â’r canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal

- Roedd mwyafrif llethol (93%) y tiwtoriaid a gyrchodd “Y Tiwtor” wedi gwneud hynny fwy nag unwaith;
- O’r rhai oedd wedi cyrchu “Y Tiwtor” o leiaf unwaith, credai 82% fod ei ymddangosiad cyffredinol yn dda neu’n dda iawn, 71% ei fod yn glir a rhwydd ei ddefnyddio a 64% fod ei gynnwys wedi’i drefnu mewn modd rhesymegol.
- Credai tua 68% o’r rhai oedd wedi cyrchu “Y Tiwtor” o leiaf unwaith fod ansawdd cyffredinol y cynnwys yn dda neu’n dda iawn;
- Roedd tua 62% o’r ymatebwyr arolwg oedd wedi cyrchu “Y Tiwtor” hefyd wedi cyrchu adnoddau dysgu ac addysgu y rhoddwyd sylw iddynt ac roedd y mwyafrif (73%) wedi defnyddio’r adnoddau yr oeddent wedi’u cyrchu;
- Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr wedi cael yr adnoddau dysgu ac addysgu a gyrchwyd yn “berthnasol”, “hyblyg”, “ymarferol” a “rhwydd eu defnyddio”.

6.4.14 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg pa fathau penodol o nodweddion ychwanegol yr hoffent eu gweld yn “Y Tiwtor”. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (wedi’u procio) y byddai’r ychwanegiadau dilynol yn ddefnyddiol:

- Cyngor ar ddulliau addysgu;
- Gwybodaeth am arfer da;
- Adolygiadau o adnoddau addysgu a dysgu;
- Gwybodaeth am ymchwil berthnasol;
- Gwybodaeth am ddatblygu proffesiynol.

6.4.15 Cynigiodd ymatebwyr unigol eu hawgrymiadau eu hunain ar gyfer gwella a dywedsom yn ein Hadolygiad Thematig ym Medi 2009 ei bod yn amser ailfeddwl am strwythur Y Tiwtor” a’r ffordd y mae’r wefan yn gweithredu. Roeddem hefyd yn cytuno gyda sylwadau rhai sylwedyddion fod yr adnodd, fel yr oedd, yn “rhy ysgafn” ac felly bod angen ychwanegu swmp o ran cynnwys. Fe wnaethom ddadlau fod cyfle i “Y Tiwtor” i ddod yn fwy amlwg yn adnodd datblygu proffesiynol parhaus ac i:

- Roi sylw i'r newyddion diweddaraf rhwng 'rhifynnau';
- Cynnwys 'erthyglau pennawd/golygyddol' cofnodol sy'n cyfnerthu'r agenda "*proffesiynoli*";
- Cynnwys erthyglau academaidd sylweddol ar agweddau o addysgu, gan efallai ddefnyddio darnau neilltuol o ymchwil;
- Rhoi mynediad i archif o erthyglau/eitemau o'r gorffennol wedi'u trefnu ar linellau thematig;
- Rhoi gwybodaeth ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus megis cynadleddau a datblygiadau newydd megis y cwrs dysgu cyfunol Cymhwyster Cenedlaethol arfaethedig;
- Rhoi mynediad i gronfa o adnoddau yn ôl lefel (fel a wneir ar hyn o bryd);
- Rhoi sylw i adnoddau penodol ar adegau neilltuol o'r flwyddyn e.e. y Nadolig, y Pasg, yr haf, Calan Gaeaf ac ati (fel a wneir ar hyn o bryd);
- Rhoi cyfleuster 'chwilio'⁸¹;
- Rhoi cyfleuster 'blogio' ar gyfer tiwtoriaid;
- Dosbarthu crynodebau cyfnodol ar bapur ar gynnwys y wefan fel modd o ddenu tiwtoriaid y soniodd y byddai'n well ganddynt gael adnodd papur i ymweld â "*Y Tiwtor*".

6.4.16 Nodwyd, wrth gwrs, nad oes gan nifer o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion fynediad rhwydd i gyfleusterau TGCh a'u bod felly'n llai tebygol o wneud defnydd cyson neu helaeth o "*Y Tiwtor*".

6.5 EFFEITHIAU GWEITHGAREDDAU A GYNLLUNIWYD I BROFFESIYNOLI CYMRAEG I OEDOLION

6.5.1 Ymchwiliodd ein harolygon o diwtoriaid yn 2008 a 2009⁸² sut yr oedd cymryd rhan mewn hyfforddiant wedi dylanwadu ar ymarfer addysgu ymarferwyr. Roedd awgrym cryf fod yr hyfforddiant yn gyffredinol wedi

⁸¹ Ychwanegwyd hyn ers i ni gyflwyno ein Hadolygiad Thematig

⁸² Oherwydd cyfradd ymateb gweddol isel i'r arolwg gellid bod tuedd o fewn y data, ac felly dylid ymdrin â'r canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal

arwain at esblygu (yn hytrach na newid mawr) mewn ymarfer addysgu.

Roedd y newidiadau a ddynododd ymatebwyr fel arfer yn cynnwys:

- ❑ Rhoi mwy o ffocws ar y dysgwr wrth gynllunio gwersi;
- ❑ Cyflwyno amrywiaeth i fywiogi gwersi;
- ❑ Mynnu mwy o ymgyfraniad/mewnbwn gan y dysgwyr, yn arbennig gynyddu faint o *“waith llafar”* a wnaed gyda dysgwyr;
- ❑ Defnyddio dulliau gwell ar gyfer addysgu iaith a gramadeg;
- ❑ Gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau dysgu ac addysgu;
- ❑ Gwneud mwy o ddefnydd o dechnolegau dysgu;
- ❑ Annog dysgwyr i gyrchu gwefannau neilltuol;
- ❑ Bod mewn sefyllfa well i *“werthu”* arholiadau Cymraeg i Oedolion i ddysgwyr ac yn fwy galluog i *“baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau”*;
- ❑ Rhoi mwy o bwyslais ar asesiad parhaus, nid yn lleiaf fel canlyniad i ddefnyddio llwybrau achrediad CBAC;
- ❑ Ymdopi'n well gyda gwaith papur fel canlyniad i *“wybod yn union beth sydd ei angen”*.

6.5.2 Dywedodd ymatebwyr a gymerodd ran mewn hyfforddiant cysylltiedig â'r Cymhwyster Cenedlaethol fod y profiad wedi'u gwneud yn llawer mwy hyderus ac yn fwy parod i feddwl am eu hymagwedd at addysgu ac arbrofi gyda gwahanol ddulliau.

6.5.3 Roedd rhai o'r tiwtoriaid a ddilynodd y cwrs 60 credyd un flwyddyn yng Nghaerdydd yn 2008/09 yn bwriadu symud ymlaen i ail flwyddyn cwrs TAR Prifysgol Casnewydd ym mis Medi 2009.

6.5.4 Dywedodd nifer fach o ymatebwyr nad oedd yr hyfforddiant (o un dull neu'r llall) a dderbyniwyd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'w harfer gwaith. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd mai dim ond yn weddol ddiweddar yr oeddent wedi mynychu hyfforddiant ac felly heb gael cyfle i roi'r hyn y gwnaethant ei ddysgu ar waith. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymarferwyr a gafodd hyfforddiant ar ddefnyddio technolegau ar gyfer dysgu ac addysgu na fu modd iddynt roi eu sgiliau newydd ar waith oherwydd *“does dim offer ar gael lle rwy'n gweithio”*.

Mae'n amlwg yn fater o gonsyrn nad yw'r cyfleusterau sydd ar gael i rai tiwtoriaid yn ddigonol, ond hefyd y caiff peth hyfforddiant ei gyflenwi heb roi ystyriaeth lawn i sut y bydd yn effeithio ar waith beunyddiol y rhai sy'n ei dderbyn.

6.5.5 Dywedodd tua 20% o'r ymatebwyr i'n harolwg yn 2009 iddynt fethu cymryd cyfleoedd hyfforddi a gynigiwyd iddynt, yn bennaf oherwydd bod yr hyfforddiant yn gwrthdaro gydag ymrwymadau eraill, yn cynnwys ymrwymadau gwaith tiwtoriaid sesiynol sydd hefyd yn gweithio mewn man arall.

6.5.6 Ymchwiliodd ein harolwg 2009 os oedd "Y Tiwtor" wedi cael unrhyw effaith, ac os felly beth, ar arfer addysgu ymatebwyr. Roedd sylwadau mewn tri phrif gategori:

- Tiwtoriaid yn defnyddio ystod ehangach o adnoddau dysgu ac addysgu ar ôl eu cyrchu o "Y Tiwtor";
- Tiwtoriaid yn cyflwyno dulliau a gweithgareddau newydd yn yr ystafell ddosbarth fel canlyniad i gael syniadau o "Y Tiwtor";
- Creu ymdeimlad o berthyn i gymuned Cymraeg i Oedolion gefnogol.

6.5.7 Dywedodd nifer fach o ymatebwyr a honnodd nad oedd "Y Tiwtor" wedi effeithio ar eu harfer addysgu per se, gan ychwanegu serch hynny *"mae'n dda gwybod ei fod yna ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw newidiadau"* a *"mae'n dda gwybod fod adnoddau ar gael pan fo'u hangen"*. Dywedodd eraill eu bod yn edrych ymlaen at gael amser i edrych drwy'r adnoddau sydd ar gael drwy "Y Tiwtor" ac i feddwl *"am y posibiliadau a gynigiant"*.

6.5.8 Ymchwiliodd ein harolwg hefyd ganfyddiadau ymarferwyr o addysgu Cymraeg i Oedolion fel gyrfa a sut y teimlent y newidiodd hynny dros y tair blynedd ddiwethaf. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gadarnhaol am yrfaeodd mewn addysgu Cymraeg i Oedolion a theimlai 60% o ymatebwyr fod pethau wedi newid er gwell yn y cyfnod hwnnw. Teimlai

22% nad oedd pethau wedi newid a chredai 18% fod addysgu Cymraeg i Oedolion wedi dod yn opsiwn gyrfa llai deniadol.

6.5.9 Yr atyniadau allweddol a ddynodwyd yng nghyswllt addysgu Cymraeg i Oedolion oedd:

- Mwynhad o addysgu oedolion a'r cyswllt cymdeithasol y mae hynny'n ei olygu;
- Hyblygrwydd medru gweithio'n rhan-amser a chymryd y nifer o oriau y mae tiwtoriaid unigol eisiau i addysgu;
- Cariad at y Gymraeg.

6.5.10 Dywedodd nifer fach o unigolion fod creu swyddi mwy "*parhaol*" wedi helpu i wneud y maes Cymraeg i Oedolion yn fwy deniadol. Fodd bynnag, soniodd nifer llawer mwy o ymatebwyr am agweddau negyddol telerau cyflogi'r rhan fwyaf o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion:

- Nid yw'r cyfraddau a dalir i diwtoriaid sesiynol yn adlewyrchu faint o waith sydd ynghlwm ag addysgu Cymraeg i Oedolion;
- Anallu tiwtoriaid sesiynol i sicrhau nifer ddigonol o oriau addysgu i ennill bywoliaeth;
- Diffyg sicrwydd swydd;
- Diffyg cyfleoedd dilyniant gyrfa;
- Treuliau allan-o-boced na all tiwtoriaid sesiynol eu hadennill gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion;
- Maint y gwaith papur sy'n gysylltiedig gyda'r swydd, gyda nifer o diwtoriaid profiadol yn dadlau y bu cynnydd "*llethol*" mewn gwaith papur yn y cyfnod diweddar.

7. ADNODDAU ADDYSGU A DYSGU CYMRAEG I OEDOLION

7.1 CYFLWYNIAD

7.1.1 Yn y bennod hon rydym yn:

- Rhoi cefndir byr ar thema adnoddau Cymraeg i Oedolion (adran 7.2);
- Disgrifio'r gweithgareddau a gynhaliwyd i ddatblygu adnoddau Cymraeg i Oedolion (adran 7.3);
- Ystyried effeithiau gweithgareddau a gynhaliwyd i ddatblygu adnoddau Cymraeg i Oedolion (adran 7.4).

7.2 CEFNDIR THEMA 'ADNODDAU CYMRAEG I OEDOLION'

7.2.1 Yn hanesyddol ni chafodd y sector Cymraeg i Oedolion ei wasanaethu'n neilltuol o dda yn nhermau adnoddau addysgu a dysgu, a olygai fod tiwtoriaid yn aml yn gorfod datblygu eu deunyddiau eu hunain, gan arwain at anghysondeb. Gyda hyn yn gefnlen y cynhyrchodd ELWa fel yr oedd bryd hynny Strategaeth Gomisiynu yn 2003 a amlinellai gynlluniau eang ar gyfer cynhyrchu deunyddiau addysgu a dysgu newydd ar gyfer y sector.

7.3 AMLINELLIAD O'R GWEITHGAREDDAU A GYNHALIWYD I DDATBLYGU ADNODDAU CYMRAEG I OEDOLION

7.3.1 Llywiwyd y broses o ddatblygu adnoddau i ddechrau gan Banel Adnoddau yn cynnwys ystod o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr y consortia Cymraeg i Oedolion a fodolai bryd hynny ac yn fwy diweddar drwy ymgynghori gyda'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion a nifer fach o randdeiliaid arbenigol eraill.

7.3.2 Dros gyfnod o bum mlynedd, sefydlwyd cyfanswm o 14 prosiect i ddatblygu deunyddiau addysgu a dysgu pwrpasol Cymraeg i Oedolion.

Ni chafodd rhai o'r prosiectau diweddaraf eu gorffen eto. Gorffennwyd rhai ac arweiniodd hynny at gyhoeddi a defnyddio adnoddau o fewn y sector Cymraeg i Oedolion. Canolbwyntiodd ein gwerthusiad ar saith prosiect a gafodd eu cwblhau, a gaiff eu disgrifio'n fyr islaw:

Llyfrau Cwrs CBAC

7.3.3. Nod prosiect Llyfrau Cwrs CBAC oedd cynhyrchu a chyhoeddi set o dri llyfr cwrs safonol ynghyd ag adnoddau sain a chanllawiau tiwtor, ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd Cymraeg i Oedolion. Cafodd y llyfrau eu creu yn unol â chynnwys ieithyddol manylebion arholiad Cymraeg i Oedolion a chawsant eu ffitio i gyd-fynd i'r llwybrau a chredu a ddatblygid yn ddiweddarach.

7.3.4 Gosodwyd cyllideb o £150 mil am y prosiect (yn cynnwys costau dylunio, treialu, argraffu a chyhoeddi) a'r amserlen ar gyfer cyflenwi oedd Gorffennaf 2004 - Medi 2007.

Adnoddau ar gyfer Lefel Hyfedredd

7.3.5 Dan contract ar wahân, comisiynwyd CBAC hefyd gan Lywodraeth y Cynulliad i gynhyrchu deunyddiau cwrs ar gyfer pum uned dysgu ar lefel Hyfedredd yn y fframwaith Cymraeg i Oedolion. Mae'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn cynnwys adnoddau sain a ffeil tiwtor y medrir ei diweddarau'n gyfnodol (yn hytrach na llyfr cwrs) i sicrhau y medrir diwygio'r adnodd yn gymharol rwydd dros gyfnod - a galluogi defnydd modwlar yn gysylltiedig ag unedau cwrs Hyfedredd. Roedd contract CBAC hefyd yn cynnwys cyflenwi sesiynau hyfforddi i diwtoriaid ar y deunyddiau cwrs, cynhyrchu deunyddiau marchnata priodol a chynnal yr holl drefniadau yng nghyswllt gwerthu'r deunyddiau, mewn ymgynghoriad gyda Llywodraeth y Cynulliad.

7.3.6 Cyflenwyd y prosiect cyntaf rhwng Hydref 2006 a Hydref 2008 a'r ail o Hydref 2008 i Awst 2010. Cyfanswm cost y prosiect oedd £35.5 mil,

gyda APADGOS yn cyfrannu £28.9 mil a'r gweddill yn dod o incwm a gafwyd o werthu'r adnoddau.

Cardiau Fflach CBAC

7.3.7 Cafodd CBAC gomisiwn pellach i gynhyrchu tri phecyn olynol o 'gardiau fflach' i ategu deunyddiau cwrs eraill, yn cynnwys set o gardiau fflach oedd ar gael eisoes a ddatblygwyd gan CBAC rai blynyddoedd yn gynharach.

7.3.8 Cyfanswm cost datblygu tair set o gardiau fflach, yn 2007, 2008 a 2009 oedd £50.8 mil, gyda chyfanswm buddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad yn £33.2 mil a'r gweddill yn dod o werthiant cardiau fflach.

Deunyddiau Cymraeg i Oedolion yn safleoedd Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru

7.3.9 Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad gyfres o ddeunyddiau a gynlluniwyd i'w defnyddio gan diwtoriaid a dysgwyr yng ngwahanol safleoedd Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru. Bwriedir i'r adnoddau roi cyfleoedd dysgu mwy a gwell y tu allan i'r dosbarth. Mae'r gwerthusiad hwn wedi ystyried canolfannau yn canolbwyntio ar Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan a'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis.

7.3.10 Yn ogystal â datblygu adnoddau, roedd y ddau brosiect dan sylw hefyd yn cynnwys darparu hyfforddiant i staff yn safleoedd Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru i sicrhau eu bod yn medru cefnogi dysgwyr Cymraeg yn defnyddio'r pecynnau.

7.3.11 Cyfanswm cost datblygu'r ddwy set yma o adnoddau, yn 2005-2006 a 2006-07, oedd £17 mil. Cyfrannodd Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru hefyd £5,000 tuag at gost datblygu'r deunyddiau.

“Gwrando'n Astud”

7.3.12 Comisiynodd ELWa, fel yr oedd bryd hynny, y BBC i gynhyrchu *“adnoddau sain ansawdd uchel ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion o archif sain Radio Cymru”*. Roedd y gwaith yn cynnwys dethol, golygu a thrawsysgrifio recordiadau BBC addas i’w defnyddio ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion lefel Uwch a Hyfedredd, yn ogystal â chreu canllawiau tiwtor i fynd gyda hwy. Roedd defnyddio deunyddiau archif y BBC yn y modd yma yn ffordd cymharol gost-effeithiol o gynhyrchu deunyddiau addysgu a dysgu dilys.

7.3.13 Roedd yr adnoddau ar gael am ddim drwy adran tiwtoriaid arbennig ar wefan Dysgu Cymraeg y BBC, er oherwydd diffyg cyffredinol cyfleusterau TGCh oedd ar gael i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd gynhyrchu dwy CD sain a ffeil/llyfryn wedi’i argraffu i’w ddosbarthu yn rhad ac am ddim gan BBC Cymru i bob tiwtor yng Nghymru.

7.3.14 Cynhaliwyd y prosiect yn 2006-07 ar gyfanswm cost i Lywodraeth y Cynulliad o £47.6 mil

Adnoddau Tiwtoriaid OCN

7.3.15 Comisiynwyd OCN i gynhyrchu a hyrwyddo pecyn adnodd ar gyfer tiwtoriaid yn cynnwys canllaw arfer da ar arferion asesu, nodau ar eirfa addas, patrymau o ddeunyddiau asesu a chanllawiau ar sut y medrid defnyddio’r deunyddiau i gefnogi darpariaeth yr OCN a hefyd ddarpariaeth CBAC. I bob diben, gwelwyd yr adnoddau hyn fel ryw fath o fesur ‘dros dro’ tra cyflwynai CBAC lwybrau achredu a ffitiai i mewn gyda’r arholiadau newydd Cymraeg i Oedolion. Mae gwaith cyfredol CBAC yn datblygu llwybrau achredu wedi’u cysylltu’n agos â deunyddiau cwrs ac arholiadau yn debygol o olygu y bydd, dros amser, lai o ddefnydd ar lwybrau achrediad OCN. Adeg ein harolwg o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn 2009, fodd bynnag, roedd llwybrau achredu OCN yn parhau i gael eu defnyddio’n weddol eang (mewn tri o’r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion) ac felly roedd deunyddiau

addysgu a dysgu OCN hefyd yn parhau i gael eu defnyddio gan diwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

7.3.16 Y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn oedd £5,000 a'r amserlen ar gyfer cyflenwi oedd canol 2006 i Awst 2007.

Adnoddau Tiwtor Acen

7.3.17 Comisiynodd ELWa, fel yr oedd bryd hynny, Acen⁸³ i ysgrifennu, golygu, dylunio a chynhyrchu deunyddiau addysgu wrth gefn ar-lein i gyd-fynd â'r pump arholiad Cymraeg i Oedolion a gynigid gan CBAC. Roedd y gwaith yn cynnwys archwilio deunyddiau addysgu oedd eisoes ar gael ar-lein mewn ieithoedd eraill (Saesneg yn arbennig) i asesu os oedd unrhyw weithgareddau ar gael y medrid eu hailgyflunio neu eu haddasu ar gyfer eu defnyddio ar gyfer Cymraeg i Oedolion (gyda chaniatâd deiliaid hawlfraint).

7.3.18 Cyfanswm y gyllideb ar gyfer cynhyrchu'r adnoddau hyn oedd £87.7 mil. Bu'r adnoddau ar gael i diwtoriaid eu lawrlwytho a'u defnyddio drwy wefan (www.tiwtor.co.uk)⁸⁴ ers dechrau 2007.

Arall

7.3.19 Ers cychwyn ein gwerthusiad, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu nifer o Adnoddau Addysgu a Dysgu Cymraeg i Oedolion ychwanegol, na chaiff eu hystyried yn yr adroddiad hwn, sef:

- Pecyn i'w ddefnyddio yn Oriel 1, Amgueddfa Werin Cymru - "*Pecyn Perthyn*";
- Pecyn i'w ddefnyddio yn yr Amgueddfa Wlân Cymru - "*Pecyn Gwau Geiriau*";
- DVD gyda phytiau fideo ar gyfer lefelau 'uwch' a 'hyfedredd' - "*Gwyllo'n Graff*";
- DVD o ddeunyddiau dysgu fideo *Big Welsh Challenge* y BBC

⁸³ Cwmni'n darparu gwasanaethau i ddysgwyr Cymraeg

⁸⁴ Mae hyn yn wefan hollol wahanol i safle www.ytiwtor.org y mae CBAC yn ei rhedeg.

- Pecyn Dysgu drwy Lenyddiaeth;
- Casgliad o glipliau teledu gyda thema Cymraeg a “Chymreictod” - “Eclips”;
- Adnoddau Cymraeg i'r Teulu (yn cynnwys llyfr cwrs, cardiau fflach a CD);
- Casgliad o adnoddau ar-lein i gefnogi cyrsiau dwys;
- Pecyn ‘blasu’ ar gyfer rhieni'n dysgu Cymraeg - “Cymraeg o'r Crud”
- Pecyn i'w ddefnyddio yn Big Pit, Amgueddfa Lofaol Cymru – “Pecyn Geiriau Glo”.

7.3.20 Datblygwyd pob un o'r prosiectau a gomisiynwyd mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol o fewn y maes Cymraeg i Oedolion, a sicrhodd iddynt gael eu seilio ar dystiolaeth gadarn o angen a galw. Mae'r prosiectau a gomisiynwyd yn amlwg yn ffitio o fewn fframwaith cymwysterau Cymraeg i Oedolion a chredwn fod bodolaeth cyfres o adnoddau sydd wedi'u hintegreiddio'n dda wedi helpu i ymsefydlu'r strwythur cyrsiau a theitlau newydd gyda'r gweithlu tiwtoriaid, yn ogystal â symleiddio pethau ar gyfer rhanddeiliaid eraill yn cynnwys dysgwyr. Ymhellach, mae gan argaeledd adnoddau, sydd wedi'u cysylltu'n glir â'r cyrsiau a'r cymwysterau sydd ar gael, rôl allweddol wrth arwain dysgwyr tuag at arholiadau, gan hefyd roi 'brand' cyfarwydd y medrir ei adnabod i'r rhai sy'n symud ymlaen o un lefel i'r nesaf, ac yn fwy cyffredinol wrth roi delwedd fwy proffesiynol i'r sector Cymraeg i Oedolion. Yn fyr, bu strategaeth glir a gan fwyaf, resymeg gadarn dros y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ar, blaenoriaethu a mynd ati i gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion.

7.3.21 Er ei bod yn anochel rai cymhlethdodau ac oedi cysylltiedig â chaffaeliad wrth gwblhau rhai prosiectau, ymddengys y bu Llywodraeth y Cynulliad yn effeithiol wrth reoli'r broses o gomisiynu adnoddau. I raddau helaeth, cafodd y dull cydlynol o gomisiynu adnoddau ei adlewyrchu ym marn ymatebwyr yn ein harolwg o diwtoriaid Cymraeg i

Oedolion yn 2009. Ar y cyfan, dywedodd ymatebwyr fod yr adnoddau a gynhyrchwyd yn berthnasol, rhesymegol, addas ac o ansawdd uchel.

7.3.22 Serch hynny, mae ein hadolygiad thematig yn dangos dau fater strategol bwysig a pharhaus sy'n wynebu Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt datblygu adnoddau Cymraeg i Oedolion.

7.3.23 Yn gyntaf, dywedodd tiwtoriaid a fu'n ymwneud â chyflwyno cyrsiau dwys Cymraeg i Oedolion fod llyfrau cwrs a deunyddiau cefnogi CBAC ar gyfer lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolraddol wedi'u hanelu'n bennaf at eu defnyddio mewn gosodiadau cwrs rhan-amser. O'r herwydd, bu peth pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad i gomisiynu set 'chwaer' o adnoddau wedi'u teilwrio'n agosach at ofynion darparu cyrsiau dwys. O gofio y byddai hyn yn fenter sylweddol yn galw am ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau (i gynhyrchu deunyddiau ar gyfer yr hyn sydd mewn gwirionedd yr un cyrsiau ac arholiadau ond a gaiff eu darparu mewn ffordd wahanol), mae'n hollol ddealladwy i Lywodraeth y Cynulliad gomisiynu ymchwil dechreuol yn 2008⁸⁵ i ymchwilio'r materion ymhellach cyn ymrwymo i raglen newydd o ddatblygu adnoddau. Er y bu'r ymchwil yn ddefnyddiol wrth ddeall ehangder safbwyntiau rhanddeiliaid yng nghyswllt cyrsiau dwys, ni roddodd ddigon o fanylion i fynd â'r gwaith rhagddo. Daeth yr ymchwil i'r casgliad fod angen ymchwil fanwl bellach ar addysgu a dysgu Cymraeg cyn y byddai'n synhwyrol comisiynu unrhyw gyrsiau a/neu adnoddau newydd. Ar y sail honno, aeth Llywodraeth y Cynulliad ati i gomisiynu mwy o ymchwil fanwl hydredol (dros gyfnod o ryw ddwy flynedd o fis Mawrth 2010) gyda golwg ar wneud argymhellion clir yng nghyswllt anghenion y cwricwlwm Cymraeg i Oedolion yn y dyfodol, yn cynnwys darparu cyrsiau dwys Cymraeg i Oedolion ar bob lefel.

7.3.24 Er mwyn gwella swm ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi darpariaeth ddwys yn y tymor byr, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad adnoddau digidol newydd i ategu cyrsiau dwys presennol,

⁸⁵ Cynhaliwyd gan SCYA ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

gan gychwyn gyda lefelau Mynediad a Sylfaen. Roedd yr adnoddau hyn yn cael eu datblygu adeg ein hadolygiad.

7.3.25 Yr ail fater a ddynodwyd gan diwtoriaid yw na chafodd unrhyw adnoddau newydd eu datblygu ar gyfer y lefel Uwch o fewn y fframwaith Cymraeg i Oedolion, i raddau helaeth oherwydd y nifer cymharol isel o ddysgwyr sy'n dilyn Cymraeg i Oedolion ar y lefel yma a bodolaeth rhai deunyddiau yr oedd yn bosibl dal i'w defnyddio (er nid yn ddelfrydol) o ddyddiau cyn y Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Er nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw gynlluniau ar unwaith i gomisiynu llyfr cwrs penodol ar gyfer y lefel yma, dywedodd CBAC ei fod yn bwriadu adolygu adnoddau a llwybrau achrediad ar y lefel Uwch, gyda golwg ar gau'r bwlch presennol a darparu ystod lawn o adnoddau o lefelau Mynediad i Hyfedredd.

7.4 EFFEITHIAU'R PROSIECTAU

7.4.1 Awgrymodd yr arolwg a gynhaliwyd gennym yn 2009⁸⁶ fod ymwybyddiaeth tiwtoriaid o'r gwahanol adnoddau a ddatblygwyd yn amrywio, gyda:

- 75% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gyfarwydd gydag o leiaf un o dri Llyfr Cwrs CBAC (lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolraddol);
- 92% yn dweud eu bod yn gyfarwydd gyda Chardiau Fflach CBAC;
- 52% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi gweld adnoddau Amgueddfeydd ac Oriolau I Cymru yn rhoi sylw i Sain Ffagan neu Amgueddfa Lechi Llanberis;
- 42% yn dweud eu bod yn gyfarwydd gyda deunyddiau Gwrando'n Astud y BBC;
- 31% yn dweud eu bod wedi gweld deunyddiau OCN;
- 60% yn dweud eu bod yn gyfarwydd gydag Adnoddau Tiwtor Acen.

⁸⁶ Oherwydd cyfradd ymateb gweddol isel i'r arolwg gellid bod tuedd o fewn y data, ac felly dylid ymdrin â'r canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal

7.4.2 Er yr ymddengys fod ymwybyddiaeth resymol o rai adnoddau, roedd yn amlwg gwmpas sylweddol i hyrwyddo eraill i diwtoriaid. Ar ôl dweud hynny, fodd bynnag, rhaid cofio y cynlluniwyd adnoddau Gwrando'n Astud, er enghraifft, i gael eu defnyddio wrth addysgu cyrsiau lefel Uwch a Hyfedredd, ond mai cymharol ychydig o diwtoriaid sy'n eu haddysgu. Yn yr un modd, cynlluniwyd deunyddiau Amgueddfeydd ac Orielau Cymru i gael eu defnyddio mewn safleoedd penodol ac maent felly'n llai tebygol i fod o ddiddordeb i diwtoriaid yn gweithio mewn ardaloedd heb fod yn agos at y safleoedd neilltuol hynny.

7.4.3 Rhoddodd ein harolwg hefyd beth gwybodaeth ar y defnydd a wnaed o'r adnoddau a gynhyrchwyd gan diwtoriaid. Dywedodd:

- 57% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi defnyddio llyfr cwrs lefel Mynediad CBAC yn eu haddysgu, dywedodd 40% iddynt ddefnyddio adnoddau lefel Sylfaen a 21% y deunyddiau lefel Canolradd;
- 86% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi defnyddio Cardiau Fflach CBAC;
- 32% o'r holl ymatebwyr eu bod wedi defnyddio adnoddau Amgueddfeydd ac Orielau Cymru;
- 26% eu bod wedi defnyddio deunyddiau Gwrando'n Astud y BBC yn eu haddysgu;
- 27% eu bod wedi defnyddio deunyddiau OCN;
- 47% eu bod wedi defnyddio Adnoddau Tiwtor Acen.

7.4.4 Heb fod yn annisgwyl, roedd rhywfaint o gydberthynas rhwng ymwybyddiaeth tiwtoriaid a defnydd o adnoddau Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn cyfnerthu'r angen i ddatblygu adnoddau newydd ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion yn eithaf egniol i diwtoriaid i sicrhau fod dysgwyr yn manteisio o'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad.

7.4.5 Yn olaf, edrychodd ein harolwg ar ganfyddiadau tiwtoriaid o briodolder/addasrwydd ac ansawdd yr adnoddau Cymraeg i Oedolion a

ddatblygwyd, gyda'r canfyddiadau dilynol. Credai:

- 72% o ymatebwyr oedd yn gyfarwydd gyda llyfrau cwrs CBAC eu bod yn addas ac o ansawdd da neu dda iawn;
- 86% o ymatebwyr a wyddai amdanynt fod Cardiau Fflach CBAC yn briodol/addas, gyda 92% yn credu eu bod o ansawdd uchel;
- 65% o'r rhai oedd yn gyfarwydd gyda hwy fod adnoddau Amgueddfeydd ac Orielau Cymru yn briodol/addas, a 68% eu bod o ansawdd da neu dda iawn;
- 90% o'r rhai a wyddai am ddeunyddiau Gwrando'n Astud y BBC eu bod yn briodol a 88% eu bod o ansawdd uchel;
- 58% o'r rhai oedd yn gyfarwydd â hwy fod deunyddiau OCN yn berthnasol a 47% eu bod o ansawdd da. Mae'n werth nodi fod nifer o ymatebwyr yn dweud eu bod yn defnyddio adnoddau OCN er nad oeddent yn eu hystyried yn arbennig o berthnasol (29%) nac o ansawdd da (40%), gan awgrymu y gall fod lle i gyflwyno rhai tiwtoriaid i adnoddau eraill, yn arbennig nawr fod Llwybrau CBAC yn eu lle;
- 81% o'r rhai a wyddai am Adnoddau Tiwtor Acen eu bod yn berthnasol a 75% eu bod o ansawdd uchel.

8. ARHOLIADAU CYMRAEG I OEDOLION

8.1 CYFLWYNIAD

8.1.1 Yn y bennod hon rydym yn:

- Sôn yn fyr am y cefndir i thema arholiadau Cymraeg i Oedolion (adran 8.2);
- Disgrifio'r gweithgareddau a gynhaliwyd i ddatblygu arholiadau a llwybrau achrediad Cymraeg i Oedolion (adran 8.3);
- Ystyried effeithiau gweithgareddau a gynhaliwyd i ddatblygu arholiadau a llwybrau achrediad Cymraeg i Oedolion (adran 8.4).

8.2 CEFNDIR

8.2.1 Ers nifer o flynyddoedd mae oedolion yn dysgu Cymraeg wedi medru sefyll arholiadau i arddangos eu cynnydd a'u cyraeddiadau. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau gan ymarferwyr Cymraeg i Oedolion ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000au am werth arholiadau Cymraeg i Oedolion a'r angen amdanynt ac, fel y dywedodd un rhanddeiliaid, gwelodd y sector *"lai o archwaeth"* am arholiadau ar y pryd.

8.2.2 Fodd bynnag, ymddengys i'r gefnogaeth gynyddu tua 2001 (gan diwtoriaid, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill megis cynllunwyr iaith) gan gredu fod arholiadau yn strategol bwysig ar gyfer *"gwir statws a statws tybiedig yr iaith"*.

8.2.3 Yn ogystal â'r consensws ymhlith y sector Cymraeg i Oedolion, daeth yr awydd i ddatblygu set o arholiadau a gafodd eu teilwra i ffitio'n glir gyda strwythurau cwrs yn amcan polisi cynyddol bwysig ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad (sydd yr un mor wir am Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ei gyfanrwydd). Bu hefyd dybiaeth gyffredinol fod arholiadau'n rhoi nod i ddysgwyr weithio tuag ato a dull ar gyfer cydnabod eu cynnydd a'u cyflwyniad.

8.2.4 Yn lle sefyll arholiadau, medrai dysgwyr gael cydnabyddiaeth i'w sgiliau yn y Gymraeg drwy llwybrau achredu Agored Cymru⁸⁷. Fodd bynnag, credai llawer yn y sector nad oedd y llwybrau achredu hyn yn rhoi digon o her i ddysgwyr. Ymhellach, nid oedd cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â'r arholiadau a fodolai bryd hynny ac roedd cred ymysg rhanddeiliaid y dylai llwybrau achrediad arwain yn gliriach at gymwysterau seiliedig ar arholiad.

8.2.5 Dyma'r cefndir a arweiniodd ELWa i ddechrau ac yn ddiweddarach Lywodraeth y Cynulliad i:

- Gomisiynu datblygu a gweithredu cyfres o arholiadau newydd Cymraeg i Oedolion;
- Comisiynu datblygu a gweithredu llwybrau achredu newydd i gyd-fynd ag arholiadau Cymraeg i Oedolion.

8.3 AMLINELLIAD O'R GWEITHGAREDDAU A WNAETHPWYD I DDATBLYGU ARHOLIADAU A LLWYBRAU ACHREDU CYMRAEG I OEDOLION

8.3.1 Yn gryno, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad CBAC i:

- Ffurio fframwaith cymwysterau ac achredu Cymraeg i Oedolion, yn cyd-fynd gyda'r Fframwaith Cymhwyster Cenedlaethol⁸⁸ a Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd;
- Datblygu manylebion ar gyfer arholiadau ar bob un o bum lefel: Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd;
- Trefnu a chynnal arholiadau Cymraeg i Oedolion ar bob un o'r pum lefel;
- Datblygu llwybrau credyd ar gyfer pedwar o'r arholiadau⁸⁹, yn unol gyda'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau;
- Cynhyrchu Bwletin Arholiadau blynyddol.

⁸⁷ Enw blaenorol Agored Cymru oedd y Rhwydwaith Coleg Agored

⁸⁸ Mae'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) yn nodi'r lefelau ar gyfer cydnabod cymhwyster yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. .

⁸⁹ Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Roedd yr arholiad Hyfedredd eisoes ar ffurf modiwl.

- 8.3.2 Medrid dweud y bu cyflwyno llwybrau achredu CBAC yn arwain yn uniongyrchol at arholiadau CBAC yn bwnc cynhennus, gan ei fod yn ymarferol wedi paratoi'r ffordd ar gyfer llwybr amgen uniongyrchol i lwybr achrediad Agored Cymru. Gall Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn awr ddewis dilyn un ai lwybrau credyd CBAC neu Agored Cymru⁹⁰ ar gyfer lefelau Mynediad a Sylfaen. Wrth gwrs, mae dysgwyr sy'n dilyn llwybrau credyd Agored Cymru yn dal i fod â'r dewis o sefyll arholiadau CBAC ar ddiwedd eu cwrs os dymunant hynny.
- 8.3.3 Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith hwn dros gyfnod saith blynedd oedd £939.7 mil⁹¹.
- 8.3.4 Ar ôl datblygu arholiadau newydd CBAC, newidiodd Canolfannau Cymraeg i Oedolion y system a ddefnyddir ar gyfer cofrestru ymgeiswyr ar gyfer arholiadau. Yn flaenorol, roedd ymgeiswyr yn cofrestru eu hunain, ond o 2007 ymlaen, bu Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn gwneud hynny, gan felly dod â'u perthynas gyda CBAC i fod yr un fath â'r berthynas rhwng CBAC ac ysgolion.
- 8.3.5 Ymddengys i'r ymateb i'r newid yma ymysg y Canolfannau Cymraeg i Oedolion fod yn gadarnhaol ar y cyfan, er gwaethaf rhai pryderon cynnar iawn na fyddai'r gwaith gweinyddol ychwanegol dilynol (ar gyfer Canolfannau Cymraeg i Oedolion) yn cael ei adlewyrchu mewn adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae ein gwaith maes gyda thiwtoriaid a dysgwyr yn awgrymu fod y system newydd wedi ennill ei phlwyf yn dda iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

⁹⁰ Mae'n werth nodi na all dysgwyr eithrio o lwybrau achrediad. Bydd pob dysgwr yn dilyn un ai lwybr OCN neu CBAC (neu Arholiadau CBAC) fel deilliannau dysgu.

⁹¹ Deallwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar wedi ymestyn contract CBAC am gyfnod pellach o dair blynedd. Drwy wneud hynny, fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyfrifoldeb i CBAC am lunio opsiwn asesu heblaw arholiadau, efallai ar ffurf adeiladu portffolio. Diben gwneud hyn yw rhoi dull arall heblaw arholiadau i dysgwyr i ennill cymwysterau.

8.4 EFFEITHIAU'R PROSIECTAU

8.4.1 Mae diwygiadau a wnaed i'r system ar gyfer cofrestru dysgwyr ar gyfer arholiadau'n golygu y gall CBAC yn awr gasglu data ar gyfraddau sefyll a llwyddiant arholiadau ar lefel Canolfannau unigol, darparwyr hyfforddiant ar is-gontract ac yn wir diwtoriaid. Mae hyn wedi galluogi Canolfannau Cymraeg i Oedolion i gadw golwg fwy agos pa ddarparwyr a thiwtoriaid sy'n cyflwyno ymgeiswyr ar gyfer arholiadau CBAC, yn ogystal â rhoi tystiolaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu. Rhoddir tystiolaeth bellach am ansawdd darpariaeth drwy adroddiad yr arholwr a roddir ym Mwletin Arholiadau blynyddol CBAC.

8.4.2 Awgrymodd ein harolwg o ymarferwyr Cymraeg i Oedolion yn 2008⁹² fod mwyafrif (81%) y tiwtoriaid yn gwybod am arholiadau Cymraeg i Oedolion, gyda'r eithriadau yn gyffredinol rai oedd yn newydd i'r proffesiwn. Roedd tua 64% o ymatebion arolwg wedi paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau ar lefel Mynediad, 48% ar lefel Sylfaen, 35% ar lefel Canolradd a 16% ar lefel Uwch. Dim ond nifer fach o ymatebwyr oedd wedi paratoi dysgwyr ar gyfer arholiad ar lefel Hyfedredd.

8.4.3 Yn gyffredinol, credai 83% o'r ymatebwyr i'n harolwg 2009 oedd yn gyfarwydd gyda'r arholiadau eu bod yn dda neu'n dda iawn yn nhermau:

- Trefniadaeth;
- Perthnasedd y cwricwlwm;
- Perthnasedd ac ansawdd manyleb yr arholiad; ac
- Ansawdd arholwyr.

8.4.4 Dywedodd cyfran debyg (80%) o diwtoriaid a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn gyfarwydd gyda llwybrau achredu CBAC. O'r rhai a wyddai am y llwybrau achredu, credai tua 61% y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, er i eraill fynegi pryder fod y llwybrau yn

⁹² Oherwydd cyfradd ymateb gweddol isel i'r arolwg gellid bod tuedd o fewn y data, ac felly dylid ymdrin â'r canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal

ymyrryd ar ddysgu yn hytrach na'i hwyluso ac y gallant fod y llafurus i'w gweinyddu. Awgrymodd rhai o'r dysgwyr y gwnaethom eu cyfweld nad oedd y llwybrau achredu yn neilltuol o berthnasol iddynt.

8.4.5 Fel y trafodwyd eisoes ym Mhennod 4, bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau CBAC, gyda nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu fwy na dwywaith drosodd rhwng 2004 a 2009. Er bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n sefyll arholiadau yn gwneud hynny ar lefel Mynediad, bu cynnydd bach yn y nifer yn sefyll arholiadau lefel Sylfaen yn 2009, gan efallai awgrymu bod llwyddiant mewn arholiadau lefel Mynediad wedi helpu i annog dilyniant ac yn dechrau bwydo trwodd i fynediad i arholiadau uwch.

8.4.6 Er bod hyn yn cyflwyno darlun gweddol gadarnhaol yn gyffredinol, y mae'n tanlinellu'r angen am ddialog parhaus rhwng staff a thiwtoriaid Canolfannau Cymraeg i Oedolion, er enghraifft mewn cyfarfodydd tîm, i hyrwyddo pwysigrwydd llwybrau achredu yn barhaus ac i rannu arfer da ar sut i'w cyflwyno i ddysgwyr fel eu bod yn gwybod am eu gwerth a'r hyn sy'n gysylltiedig. Mae'n bwysig ar gyfer datblygiad strategol y rhaglen Cymraeg i Oedolion fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion a Thiwtoriaid yn coleddu'r llwybrau achredu i sicrhau fod deilliannau dysgu clir a rhwydd ei deall ar gyfer y rhai sy'n dewis peidio sefyll Arholiadau. Serch hynny, mae hefyd yn bwysig fod Cyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion, CBAC a Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd canfyddiadau tiwtoriaid o ddifrif ac yn ceisio mynd i'r afael â chanfyddiadau tiwtoriaid y gall gweithredu a gweinyddu llwybrau achrediad fod yn feichus.

8.4.7 Yn y cyd-destun hwn, croesawn ymrwymiad parhaus CBAC ac Agored Cymru i gydweithio i baratoi canllawiau ar y cyd er mwyn gwella ansawdd a thrylwyrder gweithdrefnau asesu.

8.4.8 Fodd bynnag, er hyn mae'r gyfran o ddysgwyr Cymraeg i Oedolion sy'n sefyll arholiadau'n parhau'n weddol fychan ac mae cwrpas sylweddol i

gynyddu'r nifer sy'n mynd drwy'r broses, yn neilltuol yng ngoleuni effeithiau cymhellant sefyll arholiadau y siaradodd y tiwtoriaid a hefyd y dysgwyr y gwnaethom eu cyfweld amdanynt.

9. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

9.1 CYFLWYNIAD

9.1.1 Yn y bennod hon cyflwynwn ein casgliadau am ddatblygiad a gweithrediad y Rhaglen Cymraeg i Oedolion a gwnawn argymhellion yn deillio o'r casgliadau hynny, gan felly drin degfed ac unfed ar ddeg amcan yr astudiaeth yma. Aiff y bennod hon ati i grynhoi'r casgliadau ac argymhellion a wnaed yn ein tri adroddiad Adolygiad Thematig ac yn adroddiad ein Hadolygiad Terfynol o Ddatblygiadau o fewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion.

9.1.2 Cyflwynir y bennod hon dan y penawdau dilynol:

- Cysyniad a Gwybodaeth sy'n sail i Raglen Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion, sy'n trin amcan cyntaf a thrydydd amcan y gwerthusiad yma (adran 9.2);
- Fframwaith ar gyfer Cynllunio a Rheoli Darpariaeth, sy'n trin pumed amcan yr astudiaeth yma (adran 9.3);
- Ariannu Darpariaeth Cymraeg i Oedolion (adran 9.4);
- Newidiadau mewn Darpariaeth Cymraeg i Oedolion, sy'n trin pumed, chweched a seithfed amcan y gwerthusiad yma (adran 9.5);
- Marchnata Cymraeg i Oedolion, sy'n trin wythfed amcan yr astudiaeth yma (adran 9.6);
- Darpariaeth hyd Yma, sy'n trin seithfed a nawfed amcan y gwerthusiad yma (adran 9.7);
- Proffesiynoli Cymraeg i Oedolion, sy'n trin ail a phedwerydd amcan yr astudiaeth yma (adran 9.8);
- Adnoddau Cymraeg i Oedolion, sy'n trin ail a seithfed amcan yr astudiaeth yma (adran 9.9);
- Arholiadau ac Asesiad Cymraeg i Oedolion, sy'n trin ail, chweched a seithfed amcan yr astudiaeth yma (adran 9.10).

9.2 CYSYNIAD CYFFREDINOL A GWYBODAETH SY’N SYLFAEN I’R RHAGLEN

9.2.1 Mae’n ddi-os fod y Rhaglen Cymraeg i Oedolion wedi’i seilio ym mholisi Llywodraeth y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg. Gosododd Iaith Pawb dargedau clir ar gyfer cynyddu’r nifer sy’n siarad Cymraeg ac mae, ynghyd â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg dilynol Llywodraeth y Cynulliad, yn dangos rôl y Rhaglen Cymraeg i Oedolion wrth wireddu’r uchelgais yma.

9.2.2 Bu ailstrwythuro trefniadau ar gyfer cynllunio a chyflenwi darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn elfen ganolog o’r Rhaglen Cymraeg i Oedolion ac mae’n glir fod gwerthusiadau blaenorol, yn fwyaf amlwg y rhai a gynhaliwyd gan SCYA yn 2003 ac Estyn yn 2004, wedi dylanwadu ar sefydlu seilwaith yn seiliedig ar chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion. Bu Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ofalus i ymgynghori â rhanddeiliaid am ei chynigion a helpodd hyn i sicrhau fod y broses ailstrwythuro yn agored a thryloyw.

9.2.3 Roedd y targedau a osodwyd ar gyfer y broses o ailstrwythuro seilwaith Cymraeg i Oedolion yn gyffredinol benodol, mesuradwy a gydag amserlen, er bod yr amserlen a osodwyd ar gyfer Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi bod ychydig yn or-uchelgeisiol o gofio am y llithriad o bum mis yn lansiad y prosiect fel canlyniad o’r amser a gymerwyd i sicrhau cymeradwyaeth.

9.2.4 Mae’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi nifer o amcanion ar gyfer datblygiad parhaus Canolfannau Cymraeg i Oedolion a darpariaeth Cymraeg i Oedolion.

9.3 FFRAMWAITH AR GYFER CYNLLUNIO A RHEOLI DARPARIAETH

9.3.1 Sefydlwyd chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion bwrpasol, gyda phump ohonynt o fewn sefydliadau Addysg Uwch ac un mewn coleg Addysg

Bellach. Er mai dymuniad gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad oedd rhwydwaith o ganolfannau yn seiliedig mewn sefydliadau Addysg Uwch, bu sefydlu Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent o fewn sefydliad addysg bellach yn gyfaddawd ymarferol a sicrhodd ddarpariaeth barhaus cyrsiau Cymraeg i Oedolion mewn ardal lle bu'r Gymraeg yn draddodiadol yn wan.

9.3.2 Mae'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion wedi dechrau mynd i'r afael â darpariaeth yn eu rhanbarthau. Ceisiodd pob un 'fapio' a dadansoddi cryfderau a gwendidau darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd, sydd wedi helpu i roi darlun llawer cliriach o farchnadoedd rhanbarthol Cymraeg i Oedolion nag a fu ar gael erioed o'r blaen. Serch hynny, mae gwahaniaethau yn nifer ac ansawdd y dadansoddiadau a gynhaliwyd a gall fod cwmpas i Ganolfannau gydweitho i ymchwilio'r ffordd orau o ddefnyddio offer fel GIS, dadansoddiadau SWOT/PESTL/BEEM a Gwybodaeth Rheolaeth i ddadansoddi marchnadoedd a datblygu strategaeth.

Argymhelliad 1

Dylai Cyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion gydweithio i edrych sut y defnyddiwyd offer cynllunio strategol ac ymchwilio sut y medrent un ai rannu arfer da neu gydweithio i wella ansawdd a sicrhau mwy o gysondeb mewn dadansoddiadau marchnad a datblygu strategaeth. Yn wir, gall fod cyfle i ddefnyddio'r arbenigedd a sicrhawyd eisoes e.e. mewn defnyddio GIS, neu'r adnoddau a ddatblygwyd eisoes e.e. Gwybodaeth Rheolaeth gan Ganolfannau neilltuol i wasanaethu anghenion Canolfannau eraill, gan felly ostwng y gost gyffredinol a hybu'r broses o ddadansoddi marchnadoedd, datblygu cynlluniau a rheoli darpariaeth yn fwy trwyadl.

9.3.3 Yn gynyddol, mae gwybodaeth gynhwysfawr ar y farchnad wedi ffurfio sail cynlluniau strategol a gweithredol olynol a ddaeth yn fwy manwl. Mae gan gynlluniau pob Canolfan gryfderau neilltuol, a chafodd dwy yn

arbennig eu dynodi fel enghreifftiau posibl o arfer da. Credwn y gall fod cwmpas i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion eraill ddysgu gan y ddwy Ganolfan a fu'n fwyaf llwyddiannus wrth gyflawni meini prawf cynllunio Llywodraeth y Cynulliad.

Argymhelliad 2

Dylai'r ddwy set o gynlluniau a gyflawnodd feini prawf ansawdd Llywodraeth y Cynulliad gael eu defnyddio fel 'glasbrint' gan Lywodraeth y Cynulliad a'u rhannu gyda Chanolfannau eraill⁹³. Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau hefyd gydweithio i ganfod beth sy'n rhwystro Canolfannau eraill rhag cyrraedd yr un safonau.

9.3.4 Er i'r broses ddod yn haws wrth i brofiad Canolfannau ddatblygu, mae angen llawer o adnoddau i gynhyrchu cyfres flynyddol o gynlluniau strategol a gweithredol, a medrid dadlau y byddai hynny'n cadw Canolfannau rhag llunio darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn eu hardaloedd a/neu gynyddu costau darpariaeth Cymraeg i Oedolion. Credwn y gall fod lle ar gyfer ysgafnhau baich cynllunio ar gyfer y Canolfannau hynny sydd wedi cyflawni disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu ei gofynion cynllunio gyda'r nod o lacio'r baich ar y (Canolfannau hynny sydd wedi cyflawni eu meini prawf). Medrai gofyn i'r Canolfannau hynny gynhyrchu Cynlluniau Strategol bob tair blynedd yn unig a diweddarau eu cynlluniau gweithredol, cynlluniau datblygu darpariaeth a chynlluniau marchnata a chyfathrebu yn flynyddol, o fewn fframwaith eu cynlluniau strategol, fod yn un dull posibl.

9.3.5 Er y daeth prosesau cynllunio yn sylweddol fwy soffistigedig dros y tair blynedd ddiwethaf, caiff Canolfannau eu llesteirio o hyd gan wendidau

⁹³ Deallwn y gwnaethpwyd hyn eisoes

yn y systemau casglu a rheoli data sy'n sylfaen i gynllunio a rheolaeth perfformiad effeithlon. Ategwn argymhellion a wnaed yn dilyn adolygiad mewnol 2009 o ofynion data Cymraeg i Oedolion i ddatrys y gwendidau penodol a ddynodwyd.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth y Cynulliad osod diffiniadau clir o "gwblhau" a "chyrhaeddiad". Drwy wneud hynny, dylai hefyd sicrhau y caiff y diffiniadau ei gweithredu i Feysydd Pwnc eraill⁹⁴.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion, drwy'r Gweithgor Data, i sicrhau fod "*prosesau cyson*" ar gael ar gyfer cofnodi, casglu, dehongli a defnyddio data Cymraeg i Oedolion. Bydd angen i ddarparwyr trydydd parti hefyd chwarae eu rhan drwy sicrhau eu bod yn mabwysiadu diffiniadau data newydd ac yn cydymffurfio â phrosesau newydd ar gyfer casglu data. Mae angen i ddarparwyr allanol gydnabod fod Cymraeg i Oedolion yn faes polisi neilltuol (yn hytrach nag un agwedd arall mewn darpariaeth ehangach Addysg Bellach) ac i weithio gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion i sicrhau fod data addas ar gael i alluogi monitro, rheoli a datblygu darpariaeth yn effeithlon.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth y Cynulliad oruchwylio "*cydgorio*" data HESA a LLWR ac ymchwilio gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion unrhyw broblemau a gredant sy'n bodoli wrth drosglwyddo data rhwng y ddwy system. Yn gysylltiedig â hyn, dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau fod gan ganolfannau Cymraeg i Oedolion a'u hisgontractwyr fynediad ar-lein i adroddiadau rheolaidd ac amserol ar ddarpariaeth, i'w galluogi i fonitro, meincnodi a rheoli perfformiad yn effeithlon.

⁹⁴ Dewallwn y dechreuwyd ar y gwaith hwn erbyn hyn

- 9.3.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion wedi sefydlu system o 'bwyllgorau' neu 'grwpiau' cenedlaethol a fu'n ddefnyddiol wrth lunio datblygiad y Rhaglen Cymraeg i Oedolion ac wrth alluogi Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau i rannu gwybodaeth ac arfer da. Mae'n ddi-os bod bodolaeth y grwpiau hyn wedi helpu i sicrhau lefel o gysondeb ar draws Cymru na fyddai efallai wedi datblygu pe bai'r Canolfannau wedi gweithio'n annibynnol. Wrth i'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion symud ymlaen, felly hefyd yr esblygodd strwythur a ffocws rhai o'r grwpiau hyn. Yn hollbwysig, rhoddodd bodolaeth un Pwyllgor Cynllunio Strategol yn lle'r cyn Grŵp Cynllunio a'r Grŵp Cynllunio a Datblygu fwy o ffocws ar faterion strategol a galluogi gwell defnydd o amser Cyfarwyddwyr Canolfannau.
- 9.3.7 Serch hynny, ymddengys y cafodd diben rhai grwpiau ei golli neu ei wanhau dros gyfnod ac mae'n glir fod rhai yn fwy gweithredol a defnyddiol nag eraill. Oherwydd lefel yr adnoddau y mae cymryd rhan yn y gwahanol grwpiau yn ei olygu i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion (ac, yn wir, i Lywodraeth y Cynulliad), gall fod lle i adolygu a symleiddio'r gwahanol grwpiau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Argymhelliad 7

Dylai'r Grŵp Cynllunio Strategol gynnal adolygiad o bwyllograu a gweithgorau gyda golwg ar ostwng eu nifer. Drwy wneud hynny, dylai'r Grŵp Cynllunio Strategol ddynodi nifer ymarferol o faterion/blaenoriaethau y byddai'n fuddiol eu hystyried ar lefel genedlaethol, a nodi cylch gorchwyl clir ar gyfer gweithgorau i fynd i'r afael â hwy. Y dybiaeth ddylai fod y dylid sefydlu grwpiau ar sail 'gorchwyl a gorffen' yn y lle cyntaf⁹⁵, er y gall fod gwerth mewn sefydlu (neu barhau) 'grwpiau sefydlog' i drin rhai materion e.e. Marchnata.

- 9.3.8 Bu gwelliant amlwg yn y berthynas rhwng Canolfannau Cymraeg i Oedolion a Llywodraeth y Cynulliad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid

⁹⁵ Yn defnyddio canllawiau presennol Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â sefydlu grwpiau Gorchwyl a Gorffen

yn lleiaf wrth i'r Canolfannau fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu. Fodd bynnag, mae gostyngiad mewn ymgyfraniad uwch swyddog o Lywodraeth y Cynulliad yn y cyfarfodydd Grŵp Cynllunio Strategol (yn dilyn salwch diweddar ac ymddeoliad dilynol cyn Bennaeth Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg) yn achos pryder i Gyfarwyddwyr Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Bydd yn hollbwysig fod Pennaeth newydd Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg yn arddangos ymrwymiad i hyrwyddo'r agenda Cymraeg i Oedolion, drwy gymryd rhan weithgar gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion a hefyd drwy weithredu fel eiriolydd dros y Rhaglen o fewn Llywodraeth y Cynulliad yn wyneb pwysau ariannu anochel dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Argymhelliad 8

Dylai Pennaeth newydd Uned Datblygu Iaith Gymraeg ymwneud yn weithgar gyda Chanolfannau Cymraeg i Oedolion, yn cynnwys cadeirio'r Grŵp Cynllunio Strategol. Dylai hefyd weithredu fel eiriolydd dros y Rhaglen Cymraeg i Oedolion ar lefel uwch o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

9.4 ARIANNU CYMRAEG I OEDOLION

9.4.1 Wrth lansio'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi:

- Dangos ei dymuniad i weld twf yn lefel y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a ddarparir drwy ddyrannu cynnydd flwyddyn ar flwyddyn i'r cyllid 'craidd', yn seiliedig ar lefelau darparu hanesyddol;
- Dangos ei ymrwymiad i sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion drwy ddyrannu cyllid 'grant' wedi'i neilltuo tuag at eu costau rhedeg, am gyfnod o dair blynedd i ddechrau ac wedyn am gyfnod pellach o dair blynedd, hyd fis Gorffennaf 2011.

9.4.2 Mae'n amlwg fod dyrannu cyllid 'grant' wedi ei neilltuo wedi rhoi 'lle anadlu' ychwanegol i Ganolfannau wrth iddynt ymsefydlu. Fodd

bynnag, dywedodd Llywodraeth y Cynulliad y dylai Canolfannau fod yn awr yn paratoi ar gyfer dyfodol heb, neu gyda lefelau is, o gyllid grant ar ôl Gorffennaf 2011. Roedd hyn yn arwydd cadarn i Ganolfannau fod angen iddynt feddwl yn ofalus am eu polisiau ariannu a'u costau mewnol eu hunain dros tua'r flwyddyn nesaf.

9.4.3 Fodd bynnag, mae ansicrwydd am ariannu ar ôl 2011 yn dod yn achos consyrn cynyddol i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion a gorau po gyntaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau gyda hwy am eu hariannu yn y dyfodol.

9.4.4 Er efallai nad yw'r trefniant cyllid grant sydd ar waith yn dderbyniol yn yr hirdymor o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i oblygiadau ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau (fel y maent wedi'i ffurfio ar hyn o bryd) i dalu costau rhedeg o'u cyllid 'craidd'. Pe byddai cyllid grant yn cael ei ddileu, byddai angen i Ganolfannau 'frigdorri' eu cyllid craidd gan tua 31% ar gyfartaledd i gynnal gweithrediadau ar y lefelau presennol, a fyddai'n amlwg yn tanseilio eu gallu i sicrhau fod mwy o'r cyllid craidd yn cyrraedd darparwyr Cymraeg i Oedolion oherwydd y gostyngiad mewn brig-dorri gan y Canolfannau (degfed amcan Prosiect Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion) a dilyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad sy'n nodi na ddylent frigdorri cyllid craidd gan fwy na 15%.

9.4.5 Wrth gwrs, medrai fod cwmpas i rai Canolfannau gynyddu cyfran y 'brigdorri' o'u cyllid craidd, ond ni fyddai hyd yn oed cyfradd 'brig-dorri' gyffredinol o 15% yn ddigon i gynnal y Canolfannau fel y maent ar hyn o bryd. Ymhellach, byddai cynyddu lefel y 'brigdorri' yn sylweddol, yn neilltuol dros gyfnod byr, yn ddi-os yn dadsefydlogi peth darpariaeth. Ni fedrai Canolfannau eu hunain a'u darparwyr allanol gynnal rhan o'r ddarpariaeth fwy ymylol, yn arbennig gyrsiau dwys a lefel uwch a gaiff eisoes eu cydnabod fel bod yn llai hyfyw yn ariannol.

9.4.6 Yn realistig, os yw am sicrhau gwerth parhaus o'r buddsoddiad a wnaeth eisoes, bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad roi cyllid grant i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion i gyfrannu tuag at eu costau craidd hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, wrth wneud ymrwymiad i gefnogi Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn y ffordd hon, byddai gan Lywodraeth y Cynulliad gyfiawnhad am ei gwneud yn ofynnol i Ganolfannau sicrhau rhai arbedion effeithiolrwydd drwy, er enghraifft, ailstrwythuro darpariaeth lai effeithiol ac effeithlon a/neu drwy gydweithio rhwng y Canolfannau (fel y trafodwyd eisoes yn Argymhelliad 1 uchod). Yn wir, erbyn Gorffennaf 2011, bydd Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi bod mewn bodolaeth am bum mlynedd a byddai'n ymddangos yn bwynt addas ar gyfer adolygu sut maent yn gweithio a'u strwythurau cost wrth iddynt symud i gyfnod newydd yn eu datblygiad.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth y Cynulliad gydnabod y bydd angen iddi roi elfen o gyllid grant i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion i gynnal eu swyddogaethau rheolaeth craidd hyd y gellir rhagweld. Bydd lefel y cyllid grant fydd ei angen oddeutu £2.5 miliwn y flwyddyn.

Argymhelliad 10

Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion edrych ar eu polisiau ariannu gyda golwg ar ddefnyddio mwy o gyllid craidd i gyfrannu tuag at gostau rheoli a sicrhau lefel uwch o effeithiolrwydd gan eu rhwydweithiau darparwyr. Dylent hefyd adolygu eu costau mewnol eu hunain ac ymchwilio sut y medrent gydweithio i gynyddu effeithiolrwydd eu gweithrediadau i'r eithaf.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn trafodaethau gyda'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion cyn gynted ag sy'n bosibl am drefniadau ariannu'r

dyfodol. Mae angen i Ganolfannau gael awgrym cryf o lefelau gros cyllid y maent yn debygol o'i gael ar ôl Gorffennaf 2011, gan y medrant wneud penderfyniadau gwybodus am eu cyllideb.

9.5 NEWIDIADAU MEWN DARPARIAETH CYMRAEG I OEDOLION

9.5.1 Ceisiodd Canolfannau Cymraeg i Oedolion 'fapio' darpariaeth yn eu rhanbarthau, proses a roddodd ddarlun cliriach o'r cyrsiau a gyflwynir ym mhob rhanbarth ac a helpodd i ddangos bylchau mewn darpariaeth yn ogystal â dynodi rhai enghreifftiau o ddyblygu y medrodd Canolfannau eu trin drwy ddialog gyda darparwyr. Yn ystod eu tair blynedd gyntaf mewn bodolaeth, mae Canolfannau hefyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau neu danberfformiad darparwyr ac i sicrhau esblygiad graddol yn strwythur ac ansawdd y ddarpariaeth. Yn neilltuol maent wedi:

- Mabwysiadu'r strwythur newydd ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion (lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Hyfedredd), gan felly ddod â mwy o gysondeb i'r 'cynnig' Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru;
- Dodi systemau sicrwydd ansawdd ar waith yn seiliedig ar arsylwadau athrawon a gynhaliwyd gan aseswyr cymheiriaid wedi'u hyfforddi;
- Cymryd rhan mewn trafodaethau llawer mwy manwl am natur y ddarpariaeth i'w cyflenwi gydag isgontractwyr;
- Tynhau rhywfaint ar y telerau cytundebau a roddir i ddarparwyr allanol;
- Cyflunio gweithgaredd dysgu anffurfiol yn llawer agosach gyda chyrsgiau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion.

9.5.2 Ceisiodd canolfannau hefyd gyflwyno mathau newydd o gyrsiau, wedi eu hanelu at grwpiau dysgwyr neilltuol. Mae'n ddi-os bod y pwyslais a roddodd Llywodraeth y Cynulliad ar ddarpariaeth 'Cymraeg i'r Teulu' a 'Cymraeg yn y Gweithle' wedi ymdreiddio i ddarparwyr, a rhoddwyd

cynnig ar wahanol ymagweddau at recriwtio rhieni a chyflogeion. Er ei bod yn amlwg fod rhai pryderon am effeithiolrwydd y mesurau a fabwysiadwyd hyd yma, mae'n llawer rhy gynnar i ddweud gydag unrhyw sicrwydd os yw'r ymagweddau newydd hyn yn llwyddo i 'drosi' nifer digonol o rieni neu weithwyr i fod yn ddysgwyr ymroddedig. Mae canfyddiadau Arolwg Omnibus o Oedolion yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2008 yn sicr yn awgrymu fod canfyddiad eang y gall dysgu Cymraeg fod yn fanteisiol i yrfaeodd, gan awgrymu y dylai ymdrechion i hyrwyddo Cymraeg yn y Gweithle barhau, a dywedodd Cyfarwyddwyr y Canolfannau y medrai Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth y Cynulliad efallai hybu'r gwaith hwn.

9.5.3 Mae Canolfannau hefyd wedi ceisio hyrwyddo darpariaeth ddwys a chael gwared ar yr hollt rhwng darpariaeth ddewis a gyflwynir yn bennaf mewn sefydliadau addysg uwch â chyrsgiau heb fod yn ddwys a gyflwynir yn bennaf mewn sefydliadau addysg bellach. Er y bu twf bychan yn nifer y dysgwyr a gafodd eu recriwtio ar gyrsgiau dwys yn 2008/09, mae'n rhaid cydnabod nad yw'r System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol, fel y mae, yn gwobrwo darparwyr am redeg cyrsiau dwys (sydd fel arfer yn denu nifer fechan o ddysgwyr) ar lefelau digonol i dalu am gostau darparu. Yn ei dogfen ymgynghori ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, cydnabu Llywodraeth y Cynulliad fod anghysonder yn ei bolisi yng nghyswllt Cymraeg i Oedolion ar y naill law a'i pholisïau ariannu ar y llaw arall, ac ymgwymerodd i ystyried opsiynau ar gyfer ariannu darpariaeth Cymraeg i Oedolion er mwyn cynyddu darpariaeth cyrsiau dwys yn y tymor canolig. Cymeradwywn barodrwydd Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r anghysonder hwn ac i ganfod ffordd o sicrhau fod dulliau ariannu yn hwyluso yn hytrach na llesteirio cyflawni nodau polisi iaith.

Argymhelliad 12

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad weithredu ei ymrwymiad i ymchwilio a chyflwyno dulliau o wobrwyo Canolfannau Cymraeg i Oedolion am redeg darpariaeth ddwys ar lefelau sy'n cymell cyflenwi.

9.5.4 Er y bu nifer o newidiadau cadarnhaol, nid yw Canolfannau hyd yma wedi llwyddo i sicrhau newid o'r raddfa mewn darpariaeth Cymraeg i Oedolion a ddymunai Llywodraeth y Cynulliad, gyda rhai rhanddeiliaid yn dadlau nad oedd gobeithion am newid cyflym a sylfaenol mewn rhwydweithiau darparwyr erioed yn realistig. Fodd bynnag, credwn y medrai'r Canolfannau roi mwy o gyfarwyddyd i ddarparwyr trydydd parti drwy eu clymu i gynnig mathau penodol o gyrsiau mewn lleoliadau penodol. Nid yw'r hyblygrwydd a fu gan ddarparwyr hyd yma mewn gwirionedd yn eu cymell i symud mewn unrhyw gyfeiriad penodol e.e. darparu mwy o gyrsiau dwys neu lefel uwch.

Argymhelliad 13

Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion roi llawer mwy o gyfarwyddyd i ddarparwyr ar is-gontract yn nhermau'r mathau o gyrsiau i gael eu cynnig mewn lleoliadau penodol. Drwy wneud hyn, bydd angen i Ganolfannau ystyried goblygiadau ariannol darparwyr efallai'n gorfod cynnal rhai cyrsiau gyda niferoedd bach iawn o ddysgwyr.

Argymhelliad 14

Mae angen i ddarparwyr allanol Canolfannau Cymraeg i Oedolion hefyd chwarae eu rhan mewn gwella recriwtio, cadw, dilyniant a lefelau cyrhaeddiad dysgwyr. Dylai hyn gydnabod yr uchelgais a fynegodd Llywodraeth y Cynulliad i greu mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl, fydd yn golygu bod angen newid ym mhatrwm y ddarpariaeth a thwf sylweddol mewn cyrsiau mwy dwys a lefel uwch.

9.6 MARCHNATA CYMRAEG I OEDOLION

9.6.1 Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion wedi datblygu perthynas adeiladol dan fantell y Grŵp Marchnata, lle mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Canolfannau yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yng nghyswllt marchnata'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion.

Mae Cynllun Marchnata Strategol 2009/12 yn mapio llwybr y mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn ei gefnogi, er bod gan rai amheuon am fuddsoddi gormod mewn ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, pan fod yr ymagwedd hon at farchnata'n parhau'n weddol newydd a heb ei phrofi mewn cyd-destun Cymraeg i Oedolion. Mae'n amlwg y bydd angen cadw golwg agos ar effeithiau ac effeithlonrwydd yr ymgyrch arfaethedig mewn cyfryngau cymdeithasol

Argymhelliad 15

Mae angen i'r Grŵp Marchnata Cymraeg i Oedolion roi cig ar esgyrn ei chynigion ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys cynlluniau yn nodi'r costau ac sydd ag amcanion a mesuriadau deilliant clir.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion gadw golwg agos ar effeithiau'r ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn nhermau ymweliadau gwefan, 'cyfraddau sbonc' o safleoedd ffynhonnell unigol, ymholiadau am gyrsiau Cymraeg i Oedolion a'r nifer o bobl sy'n cofrestru ar gyrsiau gan ddweud iddynt glywed amdanynt drwy gyfryngau cymdeithasol.

- 9.6.2 Datblygwyd logo a brand neilltuol ar gyfer y Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Awgrymodd Arolwg Omnibus o oedolion Cymru yn 2008 fod y ddelwedd a'r brand wedi sefydlu'n dda drwy ddefnydd amlwg mewn ymgyrchoedd marchnata, mewn deunydd hyrwyddo ac ar wefannau Canolfannau Cymraeg i Oedolion a drwy gael ei ddangos mewn deunyddiau dysgu a ddatblygwyd dan fantell y Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r defnydd o ddelwedd brand mewn adnoddau fel Y Tiwtor a rhai o'r adnoddau dysgu ac addysgu a gomisiynwyd neu a ran-ariannir gan Lywodraeth y Cynulliad (yn cynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan gyhoeddwyr allanol, nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad hawlfraint arnynt).

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i CBAC a chyhoeddwyr eraill ddangos logo Cymraeg i Oedolion ar adnoddau dysgu ac addysgu perthnasol y mae'n eu comisiynu neu'n eu rhan-ariannu. Dylai hefyd ofyn i CBAC ystyried sut y medrir addasu Y Tiwtor i ddangos delwedd brand Cymraeg i Oedolion yn fwy amlwg.

- 9.6.3 Wrth gwrs, mae'n anodd cysoni datblygiad brand cenedlaethol cryf gyda chreu chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion lled-annibynnol a medrid dadlau y tanseiliwyd rhywfaint ar gryfder y brand Cymraeg i Oedolion drwy greu chwe gwefan annibynnol, er bod gwefannau Canolfannau yn fwy cyson o ran eu defnydd o ddelwedd brand yn awr nag oeddent ddwy flynedd yn ôl. Ymhellach, mae'n glir fod Canolfannau'n wynebu costau sylweddol mewn cynnal eu gwefannau ac y medrid yn rhwydd sicrhau arbedion cost drwy gronni adnoddau.

Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion adolygu eu trefniant gwefannau gyda golwg ar symud a sefyllfa lle defnyddir gwefan www.cymraegioedolion.org fel porth ar gyfer Canolfannau unigol neu dros fabwysiadu un wefan Cymraeg i Oedolion i Gymru gyfan. Drwy wneud hynny, fodd bynnag, dylid cydnabod y buddsoddiad a wnaed gan Ganolfannau eisoes a dylid adeiladu ar gryfderau eu gwefannau presennol yn hytrach na'u tanseilio.

- 9.6.4 Cynhaliwyd ymgyrchoedd hysbysebu teledu ar dri achlysur yn 2007 a 2008. Er bod barn rhanddeiliaid am ansawdd ac effeithlonrwydd yr ymgyrchoedd cymharol ddrud hyn yn gymysg, roedd tystiolaeth glir y cafwyd nifer sylweddol fwy o ymwelwyr i wefan [cymraegioedolion.org](http://www.cymraegioedolion.org) yn dilyn yr ymgyrchoedd hynny.
- 9.6.5 Ymdrechion cysylltiadau cyhoeddus eraill yr ymddengys iddynt fod yn llwyddiannus oedd presenoldeb Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac ymgyrch Checkout Cymraeg yn 2008. Er i

gwmni Working Word PR gynhyrchu rhai amcangyfrifon o werth modfeddi colofn y sylw a gafwyd yn y wasg ar gyfer ymgyrch Checkout Cymraeg, mae'n anodd barnu pa mor effeithlon fu gweithgareddau fel hyn wrth godi ymwybyddiaeth o Cymraeg i Oedolion, heb sôn am gynyddu cyfranogiad yn y Rhaglen.

- 9.6.6 Gwnaed camau breision ymlaen wrth fonitro llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant sgiliau marchnata, ac mae'n hollbwysig yr adeiledir ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i gasglu'r data y mae eisoes yn ei chasglu, gan ymestyn ei orchudd i'r flwyddyn gyfan (ac nid dim ond i'r cyfnodau pan gynhelir ymgyrchoedd hysbysebu)⁹⁶. Dylai hefyd ofyn i Ganolfannau roi data ychwanegol er mwyn asesu effeithiolrwydd ymgyrchoedd neilltuol a galluogi Canolfannau i ddod yn ddangoswyr allweddol meincnod.

Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth y Cynulliad gasglu data i'w galluogi i fonitro'r dangosyddion ychwanegol dilynol:

Lefel y buddsoddiad mewn gweithgareddau marchnata⁹⁷;

- Cyfradd sbonc ymweliadau i wefan cymraegioedolion.com gan safleoedd ffynhonnell unigol (credwn y bydd hyn yn fesur neilltuol o bwysig wrth asesu effeithiolrwydd marchnata cyfryngau cymdeithasol);
- Y cyfrwng y clywodd dysgwyr am gyrsiau Cymraeg i Oedolion (e.e. prospectws Canolfan, eitem yn y wasg, rhywun yn sôn, Facebook ac ati).
- Nifer y dysgwyr newydd a gofrestrodd ar gyrsiau (yn hytrach na dysgwyr yn symud ymlaen o gyrsiau eraill)⁹⁸.

⁹⁶ Deallwn y caiff hyn ei wneud yn awr.

⁹⁷ Caiff hyn ei wneud gan y Grŵp Marchnata, gan ddefnyddio cynlluniau gweithredol ac adroddiadau monitro Canolfannau

⁹⁸ Sylweddolwn efallai na fydd systemau data, fel y'u cyfluniwyd ar hyn o bryd, yn galluogi i hyn gael ei wneud yn ar unwaith

9.7 Y DDARPARIAETH HYD YMA

- 9.7.1 Mae gwendid gyda'r data wedi llesteirio ein gallu i ddod i gasgliadau cadarn am effeithiau Rhaglenni ar ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Yn y cyd-destun hwn, tanlinellwn bwysigrwydd gweithredu argymhellion 4-6 uchod fel mater o frys.
- 9.7.2 Byddai'r data sydd ar gael yn awgrymu fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion wedi medru atal y gostyngiad cyson yn nifer y dysgwyr a welwyd dros y pedair blynedd yn union cyn eu sefydlu. Mae hyn yn awgrymu bod ymdrechion Cymraeg i Oedolion Canolfannau i hyrwyddo Cymraeg i Oedolion i gynulleidfaeod targed newydd (e.e. pobl mewn gwaith a rhieni) a chynnig darpariaeth fwy hygyrch (yn cynnwys sesiynau 'blasu') wedi llwyddo i gyrraedd o leiaf beth galw cudd.
- 9.7.3 Er ei bod yn hanfodol recriwtio dysgwyr newydd i sicrhau'r twf mewn niferoedd a geisir gan Lywodraeth y Cynulliad, y mae'r un mor bwysig i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion gadw dysgwyr o un flwyddyn i'r nesaf. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion sicrhau fod dysgwyr yn symud ymlaen drwy'r gwahanol lefelau os yw'r Rhaglen Cymraeg i Oedolion i gyfrannu at uchelgais Iaith Pawb o gynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Nid yw Canolfannau wedi medru rhoi data dibynadwy i ni am ddilyniant dysgwyr, ond mae cymhariaeth o'r gyfran o ddysgwyr a gymerodd ran mewn cyrsiau ar wahanol lefelau yn 2007/08 a 2008/09 yn rhoi awgrym cynnar fod nifer cynyddol o ddysgwyr yn symud ymlaen o gyrsiau Lefel Mynediad i Lefel Sylfaen a ddylai, os cedwir y patrwm, arwain at ddilyniant i gyrsiau lefel uwch yn y ddwy flynedd nesaf neu oddeutu hynny.

Argymhelliad 20

Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion barhau gyda'u gwaith gyda'u darparwyr trydydd parti i fonitro'n agos nifer y dysgwyr a dilyniant dysgwyr o un lefel i'r llall. Bydd eu gallu i wneud hyn ac i feincnodi

perfformiad rhwng darparwyr a rhwng rhanbarthau yn dibynnu ar ddatblygu systemau rheoli data cadarn. Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion ddefnyddio data am ddilyniant dysgwyr i ddynodi arfer da y medrir ei rannu ar draws Cymru.

9.7.4 Ymddengys i lwyddiant ymdrechion canolfannau i symud darpariaeth tuag at gyrsiau mwy dwys fod yn gymysg. Mae canolfannau hefyd wedi profi llwyddiant cymysg wrth lansio cyrsiau a dargedwyd yn benodol at y gweithlu ac at deuluoedd/rhieni. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn bryderus am effaith posibl y dirywiad economaidd ar yr ymagweddau ychydig yn fwy newydd yma.

Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion fonitro'n agos y galw am a'r defnydd o ddarpariaeth ddwys a thargedig. Dylent roi sylw neilltuol i effeithiau datgymhelliant y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol ar ddarparu cyrsiau dwys (gweler hefyd Argymhelliad 12).

9.7.5 Bu cynnydd cyson yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau CBAC dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae cyfradd y twf wedi cynyddu ychydig ers sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion. Mae nifer o arferion newydd a gyflwynwyd gan Ganolfannau Cymraeg i Oedolion wedi cyfrannu at hyn, a chredem y dylid parhau â hyn.

Argymhelliad 22

Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion barhau i:

- Gefnogi a chefnogi ymgeiswyr i gofrestru ar gyfer arholiadau CBAC;
- Talu, neu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr dalu am gostau sefyll arholiadau CBAC, ar y sail y byddant yn derbyn taliadau 'deilliant' pan mae dysgwyr yn pasio;
- Annog darparwyr trydydd parti i hyrwyddo arholiadau CBAC yn eu

9.8 PROFFESIYNOLI CYMRAEG I OEDOLION

9.8.1 Fel rhan o'r rhaglen o ailstrwythuro darpariaeth Cymraeg i Oedolion, ceisiodd Llywodraeth y Cynulliad roi mesurau ar waith i 'broffesiynoli' gweithlu Cymraeg i Oedolion yr ystyriwyd ei fod yn wasgaredig ac yn amrywiol iawn o ran lefel sgiliau. Bwriadwyd i'r mesurau hyn gynyddu safon a chysondeb darpariaeth Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru ac felly wella canlyniadau dysgu unigolion.

9.8.2 Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad ymagwedd ddeublyg at broffesiynoli'r gweithlu Cymraeg i Oedolion:

- Ar y naill law, rhoddodd adnoddau i'r Canolfannau Cymraeg i Oedolion ddatblygu a gweithredu cynlluniau hyfforddi;
- Ar y llaw arall, mae wedi cefnogi dau brosiect arall cenedlaethol tymor hwy: datblygu a pheilota Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion a datblygu a chyhoeddi "Y Tiwtor", 'cylchgrawn' ar-lein i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

9.8.3 Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad achos cryf dros bob un o'r tri phrosiect ar wahân ond ategol y gwnaeth eu cefnogi.

9.8.4 Ers 2006, mae Canolfannau wedi cynhyrchu a gweithredu cynlluniau hyfforddiant a datblygu cynyddol fwy gwybodus a manwl ac mae'n sicr fod Canolfannau yn rhoi ystod ehangach o gyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr nag oedd ar gael yn y gorffennol. Mae'n sicr bod dyfarnu cyllid ychwanegol yn 2006 (dan y prosiect Hyfforddiant Tiwtoriaid) wedi rhoi pwysau ar y Canolfannau Cymraeg i Oedolion newydd i gynnal rhaglenni hyfforddiant mwy uchelgeisiol nag y byddent wedi'u trefnu fel arall. Galluogodd hyn Ganolfannau i wneud eu marc gyda'r gweithlu Cymraeg i Oedolion yn gynnar a chreu ymdeimlad fod eu sefydlu wedi

arwain at oes newydd, sy'n symud ynghynt, i'r maes Cymraeg i Oedolion.

9.8.5 Mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad wedi galluogi Canolfannau Cymraeg i Oedolion i dalu am gostau cyflwyno hyfforddiant. Yn hanfodol, mae hefyd wedi'u galluogi i dalu i staff sesiynol i fynychu cyrsiau yn ogystal â thalu am gostau teithio a llety cysylltiedig â hyfforddiant staff parhaol a staff sesiynol. Er bod hyn yn bendant wedi galluogi Canolfannau Cymraeg i Oedolion i sicrhau fod mwy o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus nag a fyddai wedi digwydd fel arall, mae hefyd wedi gosod cysail ac mae Canolfannau'n parhau i dalu i staff sesiynol am fynychu cyrsiau.

9.8.6 Nid yw pob rhanddeiliaid wedi eu darbwylo am effeithiolrwydd taliadau o'r fath, o leiaf fel arfer sefydledig ac eang ac mae cwestiynau pa mor gynaliadwy yw gwneud hynny yn yr hirdymor. Credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion ystyried egwyddor sylfaenol yr ymarfer hwn a chynaliadwyedd taliadau o'r fath. Dylid ymchwilio'r materion hyn yng nghyd-destun datblygu canllawiau am yr isafswm lefel o ddatblygiad proffesiynol parhaus y dylai tiwtoriaid ei wneud, efallai'n ymgorffori graddfa lithro i ddangos y nifer o oriau hyfforddiant i gael eu gwneud gan ymarferwyr yn ôl y nifer o oriau a weithir bob blwyddyn. Drwy wneud hynny, medrai Canolfannau gadw'r hyblygrwydd i dalu i diwtoriaid sesiynol i wneud mwy o hyfforddiant na'r isafswm sydd ei angen, er ei bod yn amlwg dylai taliadau o'r fath gael eu clymu i gynlluniau datblygu ac olyniaeth staff Canolfannau. Credwn y byddai cyhoeddi canllawiau eglur am isafswm lefel y datblygiad proffesiynol parhaus i'w ddilyn yn helpu i gyflwyno eglurder yn ogystal â bod yn arwydd i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion y cânt eu hystyried fel 'gweithwyr proffesiynol' yn hytrach na rhywun sy'n gwneud y gwaith 'fel hobi'.

Argymhelliad 23

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu a chyhoeddi canllawiau

penodol i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion am isafswm lefel y datblygiad proffesiynol parhaus y dylai tiwtoriaid ei gynnal (deallwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried hynny ar hyn o bryd), efallai'n cynnwys graddfa lithro i ddangos nifer yr oriau o hyfforddiant i'w gwneud gan ymarferwyr yn ôl nifer yr oriau a weithir bob blwyddyn.

- 9.8.7 Gosododd prosiect Hyfforddiant Tiwtoriaid 2006 gysail hefyd yng nghyswllt yr amserlen ar gyfer datblygu cynlluniau hyfforddiant a datblygu Canolfannau, amserlen nad yw'n gydamserol â'u cylch cynllunio strategol a gweithredol ehangach. Byddai'n ymddangos yn synhwyrol fod y ddau gylch hyn yn gydamserol er mwyn rhoadru cynlluniau hyfforddiant o gynlluniau strategol yn fwy rhesymegol a gostwng unrhyw ddyblygu gwaith wrth gynhyrchu ac asesu cynlluniau y gall cynhyrchu ac asesu cynlluniau ar wahanol adegau o'r flwyddyn ei olygu.

Argymhelliad 24

Er mwyn alinio amserlen cynhyrchu cynlluniau hyfforddiant a datblygu gydag amserlen cynhyrchu cynlluniau strategol a gweithredol, dylid gofyn i Ganolfannau ehangu ar y rhaglen o weithgareddau hyfforddi y cynigiant eu cymryd yn ystod hanner cyntaf 2010, fel yr amlinellwyd eisoes yn eu cynlluniau hyfforddiant a datblygu 2008⁹⁹.

- 9.8.8 Daeth y Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn nodwedd cynyddol amlwg yn y cynlluniau hynny ac ystyriai rhai ei fod yn fan cychwyn taith broffesiynol parhaus ar gyfer tiwtoriaid presennol heb gymwysterau a darpar diwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Er y gall hyn fod yn wir, nid yw o reidrwydd yn rhwydd gweld y llwybr y medrai taith datblygiad proffesiynol parhaus tiwtoriaid cymwys Cymraeg i Oedolion ei ddilyn h.y. nid yw'n glir sut y mae'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygu cynlluniau hyfforddiant a datblygu Canolfannau

⁹⁹ Deallwn y digwyddodd hyn

yn cydblethu i ffurfio rhaglen strwythuredig o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer ymarferwyr presennol.

9.8.9 Fodd bynnag, nid yw hyn yn dibrisio'r hyfforddiant a ddarperir gan y Canolfannau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n harolwg yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a gawsant (yn cynnwys y rhan oedd yn ffurfio rhan o'r cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol) ac yn credu ei fod yn ddefnyddiol iddynt wrth ddysgu Cymraeg i Oedolion. Roedd llawer yn awgrymu y cafodd yr hyfforddiant a wnaethpwyd effaith gadarnhaol ar addysgu ac ymarfer gwaith ehangach ymarferwyr.

9.8.10 Medrir dweud mai'r Cymhwyster Cenedlaethol ar gyfer Tiwtoriaid Cymraeg yw canolbwynt ymdrechion i 'broffesiynoli' y gweithlu Cymraeg i Oedolion. Cafodd ei lunio fel cyfrwng ar gyfer mynd i'r afael â safon amrywiol addysgu Cymraeg i Oedolion yn gysylltiedig gyda gweithlu rhannol 'amatur' a chodi statws y gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion. Cynlluniwyd y Cymhwyster Cenedlaethol i gydymffurfio â safonau galwedigaethol LLUK ar gyfer Cymru ac fe'i derbyniwyd gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru Casnewydd.

9.8.11 Er bod rhai amheuan yn parhau am y gofynion y mae'r Cymhwyster Cenedlaethol yn ei roi ar ddarpar diwtoriaid Cymraeg i Oedolion, mae 111 o unigolion wedi ymrestru ar y cwrs, sef tua 82% o'r gweithlu heb gymwysterau. Ar y sail y bydd mwyafrif y rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd tuag at y Cymhwyster Cenedlaethol wedi gorffen y cwrs 60 credyd erbyn haf 2010, dim ond cyfran cymharol fach o'r gweithlu presennol tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion (tua 4%) fydd yn parhau i fod heb gymwysterau erbyn hynny.

9.8.12 I bob diben, mae hyn yn golygu o 2012 ymlaen (ac yng nghynt mewn rhai rhanbarthau), bydd cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol wedi'u gerio'n bennaf at ddatblygu sgiliau tiwtoriaid newydd Cymraeg i Oedolion. Yn ei dro, mae hyn yn debygol o olygu y bydd y nifer sy'n dilyn cyrsiau yn llawer is nag y bu hyd yma. Ar y llaw arall, fodd bynnag, mae proffil oedran y gweithlu tiwtoriaid presennol yn awgrymu

y gall yn rhwydd fod rhywfaint o drosiant yn yr ychydig flynyddoedd newydd, a fyddai'n dangos angen parhaus am gyrsiau. Yn y tymor byr, fodd bynnag, mae'r niferoedd yn debygol o fod yn is a gallai'r dull ranbarthol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer darparu cyrsiau ddod yn anhyfyw.

Argymhelliad 25

Dylid rhoi ystyriaeth i'r modd y dylid cyflwyno cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol yn y dyfodol, yn cynnwys trafod posibilrwydd dod â grwpiau o wahanol ranbarthau ynghyd a defnyddio technoleg (yn cynnwys cynadleddau fideo) i gyflwyno elfennau o'r cwrs o bell o bwynt canolog. Bydd angen ystyried hyn yng nghyd-destun datblygu fframwaith achrededig o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion, fel a drafodwyd yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

9.8.13 Bydd angen ystyried y materion hyn yng ngoleuni 'prif ffrydio' tebygol cyllid ar gyfer darparu'r Cymhwyster Cenedlaethol o haf 2010 ymlaen. Bydd hyn, wrth gwrs, yn digwydd ar adeg pan fo cyllid Sefydliadau Addysg Uwch yn dod dan bwysau cynyddol, a all yn rhwydd arwain y Sefydliadau Addysg Uwch sy'n noddi Canolfannau Cymraeg i Oedolion i godi ffioedd ar gyfer darparu'r Cymhwyster Cenedlaethol, yn debyg iawn i'r ffordd a wnânt ar gyfer cyrsiau ôl-radd eraill. Yn gysylltiedig â hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi dweud na fydd yn darparu cyllid ar gyfer costau cyflogi tiwtoriaid/darpar diwtoriaid pan fyddant yn cymryd rhan mewn cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol unwaith y daeth cyfnod 'peilot' y prosiect i ben. Mae'n amlwg y bydd angen i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion ystyried yn ofalus effaith bosibl y newid yn y tirlun ariannu ar y nifer sy'n dilyn cyrsiau Cymhwyster Cenedlaethol ac, mewn amser, ar y cyflenwad o diwtoriaid newydd Cymraeg i Oedolion.

9.8.14 Bwriadwyd i "Y Tiwtor" fod yn gyfrwng ar gyfer lledaenu gwybodaeth i weithlu gwasgaredig tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion mewn dull cyson yn

gymharol gyflym ac yn gymharol rad. Fe'i gwelwyd hefyd fel 'llwybr i'r farchnad' ar gyfer ystod o ddeunyddiau dysgu ac addysgu, yn cynnwys y rhai a ddatblygwyd dan fantell y Rhaglen Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion.

9.8.15 Byddai ein harolwg 2009 yn awgrymu, ddwy flynedd ar ôl lansiad Y Tiwtor, ei fod wedi cyflawni'r nodau hyn i raddfa sylweddol:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n harolwg wedi cyrchu Y Tiwtor, er y nodwyd fod diffyg mynediad i'r rhyngrwyd wedi rhwystro lleiafrif bychan rhag gwneud hynny;
- Yn gyffredinol, canfu'r rhai a gyrchodd Y Tiwtor fod ei gynnwys yn berthnasol ac o ddiddordeb iddynt;
- Roedd mwyafrif defnyddwyr Y Tiwtor (a mwyafrif helaeth yr holl diwtoriaid) wedi'i ddefnyddio i gyrchu adnoddau dysgu ac addysgu;
- Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyrchodd ddeunyddiau dysgu ac addysgu wedi eu cael yn ddefnyddiol.

9.8.16 Byddai ein harolwg hefyd yn awgrymu fod Y Tiwtor yn cyflawni ei rôl fel dull ar gyfer lledaenu gwybodaeth ac, yn wir, ar gyfer sicrhau newid yn arferion gwaith tiwtoriaid: dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod wedi defnyddio syniadau a gawsant o Y Tiwtor. Yn olaf, roedd tystiolaeth fod Y Tiwtor yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn i gymuned gefnogol ymysg tiwtoriaid gwasgaredig Cymraeg i Oedolion.

Argymhelliad 26

Ar sail awgrymiadau gan ymatebwyr i'n harolwg a'n hadolygiad ein hunain o'r adnodd, credwn ar hyn o bryd fod dadl gref dros ailfeddwl am strwythur Y Tiwtor a'i ddatblygu yn wefan sydd yn:

- cynnwys y newyddion diweddaraf, y medrir ei adnewyddu rhwng 'rhifynnau'.
- cynnwys 'erthyglau pennawd/golygyddol' cyfnodol a gynlluniwyd i ategu agenda "*proffesiynoli*" Llywodraeth y Cynulliad. Dylid llunio rhaglen oddeutu blwyddyn ymlaen llaw ar gyfer cyhoeddi'r

erthyglau i sicrhau llif rhesymegol a rhoi amser ar gyfer eu cynhyrchu;

- cynnwys erthyglau academaidd sylweddol ar agweddau o addysgu, yn seiliedig efallai ar ddarnau neilltuol o ymchwil. Eto, dylid llunio rhaglen ar gyfer yr erthyglau sylweddol hyn;
- rhoi mynediad i archif o erthyglau/eitemau o'r gorffennol, efallai'n cynnwys rhai a ymddangosodd yn rhifynnau papur Y Tiwtor y CBAC. Dylid trefnu'r archif ar linellau thematig e.e. 'dulliau addysgu', 'trefniadau a chyfleoedd hyfforddi tiwtoriaid' (efallai'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddi Canolfannau), 'trefniadau asesu dysgwyr' ac ati;
- rhoi gwybodaeth ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus megis cynadleddau a datblygiadau newydd megis y cwrs Cymhwyster Cenedlaethol dysgu cyfunol arfaethedig. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chysylltu â chynlluniau hyfforddiant Canolfannau;
- rhoi mynediad i gronfa o adnoddau yn ôl lefel. Yn ogystal â'r mathau o adnoddau sydd eisoes ar gael drwy Y Tiwtor, medrent gynnwys podlediadau a ffeiliau sain i helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau clyw a llafar yn ogystal â dolenni i wefannau eraill megis rhai GCaD Cymru, Acen, BBC ac ati;
- rhoi sylw i adnoddau penodol ar adegau neilltuol o'r flwyddyn e.e. y Nadolig, y Pasg, yr haf, Calan Gaeaf ac ati. Medrid rhoi erthyglau ar adnoddau neilltuol yn amlach nag erthyglau pennawd cyfnodol, gan felly wneud Y Tiwtor yn fwy cyfoes a pherthnasol;
- darparu cyfleuster 'chwilio';
- rhoi cyfleuster 'blogio' neu fforwm trafod ar gyfer tiwtoriaid.

9.8.17 Dylid hefyd roi ystyriaeth i ddsbarthu crynodebau cyfnodol ar bapur (efallai bob tymor, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) o gynnwys y wefan drwy Ganolfannau Cymraeg i Oedolion er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth tiwtoriaid o'r hyn sydd gan y wefan i'w gynnig ac i gymhell tiwtoriaid (yn arbennig rai nad oes ganddynt fynediad i'r we heblaw yn y Ganolfan neu saflder darperwyr yn unig)). Er mwyn cyfyngu

costau, medrid 'peilota'r ymagwedd yma am gyfnod cyfyngedig.

9.8.18 Byddai ein harolwg yn awgrymu fod tiwtoriaid, yn gyffredinol, yn gadarnhaol am addysgu Cymraeg i Oedolion. Dangosodd hefyd fod eu hargraff o addysgu Cymraeg i Oedolion wedi gwella ers sefydlu Canolfannau Cymraeg i Oedolion.

9.8.19 Fodd bynnag, mae'n glir fod y telerau y caiff mwyafrif helaeth y tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion eu cyflogi yn rhwystro addysgu Cymraeg i Oedolion fel cael ei weld fel opsiwn 'gyrfa' deniadol na realistig. Caiff y rhan fwyaf o diwtoriaid Cymraeg i Oedolion eu cyflogi ar gontractau sesiynol ac nid yw tiwtoriaid yn ystyried eu bod yn rhoi diogelwch swydd na llwybrau dilyniant gyrfa amlwg. Ymhellach, dim ond am yr oriau a dreuliant yn yr ystafell ddosbarth y caiff tiwtoriaid sy'n gweithio ar sail sesiynol eu talu, ac er bod y cyfraddau fesul awr a dalir am waith sesiwn yn uwch i baratoi ar gyfer amser paratoi a marcio, roedd cred gref ymysg tiwtoriaid nad yw'r cyfraddau yn rhoi tâl digonol i ymarferwyr am elfennau'r swydd tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r cyfraddau fesul awr a dalir i diwtoriaid sesiynol yn seiliedig ar dybiaethau anghywir am y cydbwysedd rhwng yr amser a dreulir yn addysgu a'r amser a dreulir yn paratoi, marcio a delio gyda gwaith papur yn ymwneud â dysgwyr.

9.8.20 Cafodd y mater hwn ei waethygu gan y gred eang ymysg ymatebwyr yr arolwg y bu twf enfawr yn y tair blynedd ddiwethaf mewn gwaith papur yn gysylltiedig ag addysgu Cymraeg i Oedolion. Er y derbyniwyd fod yn rhaid bod peth gwaith papur, roedd cred fod mwy a mwy o amser tiwtoriaid yn cael ei dreulio ar fiwrocratiaeth, ar draul addysgu. Gall fod peth gwerth mewn Canolfannau Cymraeg i Oedolion edrych yn feirniadol ar faint o amser tiwtoriaid a aiff ar dasgau gweinyddol ac edrych ar ddulliau o ostwng y baich gweinyddol sydd arnynt.

9.8.21 Er bod Canolfannau a rhai darparwyr wedi gwneud camau ymlaen ar greu swyddi parhaol (llawn-amser a rhan-amser), bydd contractau sesiynol yn parhau'n gonglfaen addysgu Cymraeg i Oedolion am y

dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, gall fod peth cwmpas ar gyfer goresgyn o leiaf rai o'r canfyddiadau negyddol o waith sesiynol. Er enghraifft, medrai Canolfannau Cymraeg i Oedolion, ar ôl asesu faint o amser y mae tiwtoriaid yn ei roi i dasgau ategol, gyhoeddi canllawiau ar faint o waith tu allan i'r ystafell ddosbarth y disgwylir i diwtoriaid sesiwn ei wneud (yng nghyswllt yr oriau addysgu). Os yw faint o waith ategol/gweinyddol sydd angen i diwtoriaid ei wneud yn uwch nag a dybiwyd yn flaenorol, dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion ystyried y sail ar gyfer talu staff sesiynol.

Argymhelliad 27

Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion ymchwilio cydbwysedd y gwaith ategol/gweinyddol a'r gwaith addysgu a wneir gan diwtoriaid sesiwn ac ystyried os oes angen gwneud newidiadau un ai i arferion gwaith neu gyfraddau tâl staff sesiynol.

9.8.22 Er y bydd tiwtoriaid sesiynol yn parhau'n rhan bwysig a sylweddol o'r gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion, dylai Canolfannau ymdrechu i greu mwy o swyddi parhaol (llawn-amser a rhan-amser) wrth iddynt fynd i'r afael ag ail-lunio darpariaeth.

Argymhelliad 28

Dylai Canolfannau a'u hisgcontractwyr ymdrechu i greu mwy o swyddi parhaol (llawn-amser a rhan-amser) wrth iddynt fynd i'r afael ag ail-lunio darpariaeth. O gofio'r llu o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarparwyr allanol mwy cyffredinol, gall hyn yn rhwydd olygu fod angen i rai Canolfannau gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am ddarparu cyrsiau a gaiff ei is-gontractio ar hyn o bryd.

9.8.23 Mae'r gweithlu tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn heneiddio, sydd ynddo'i hun yn adlewyrchiad o apêl cymharol gwaith sesiwn i bobl wedi ymddeol.

Argymhelliad 29

Mae angen i Ganolfannau ddatblygu cynlluniau olyniaeth gweithlu ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf. Mae rhai Canolfannau wedi cychwyn hyrwyddo addysgu Cymraeg i Oedolion i israddedigion sy'n astudio Cymraeg yn y prifysgolion nawr a byddai hyn yn ymddangos yn rhywbeth y byddai'n werth ei gopïo mewn mannau eraill. Medrai hefyd fod gwerth mewn Canolfannau yn cymryd "tiwtoriaid prentis" fel a ddigwyddodd mewn un Ganolfan.

9.9 DATBLYGU ADNODDAU DYSGU

- 9.9.1 Yn gyffredinol, cafodd yr Adnoddau Addysgu a Dysgu a gomisiynwyd eu seilio'n dda ar dystiolaeth angen ac yn seiliedig ar ymgynghoriad manwl gyda'r sector Cymraeg i Oedolion ei hunan. Mae'r broses wedi golygu gosod blaenoriaeth ar gyfer y deunyddiau addysgu a datblygu i gael eu datblygu.
- 9.9.2 Cafodd y prosiectau hyn eu comisiynu gan APADGOS mewn modd tryloyw a thrwyadl a chawsant i gyd eu rheoli'n dda. Nid oes dim amheuaeth fod yr adnoddau wedi helpu i ddatblygu'r sector a bod ganddynt rôl sylfaenol mewn gwella ansawdd dysgu a sicrhau safonau cenedlaethol cyson.
- 9.9.3 Yn gyffredinol, symudodd y sector Cymraeg i Oedolion ymlaen o fod yn brin o adnoddau addysgu a dysgu i fod mewn sefyllfa gref gydag ystod o ddeunyddiau addas ar gael ac yn hygyrch i diwtoriaid a dysgwyr fel ei gilydd. Ymddengys hefyd fod y deunyddiau a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ychwanegiadau rhesymegol i'r portffolio presennol o ddeunyddiau a dylai ychwanegu gwerth at brofiad cyffredinol dysgwyr.
- 9.9.4 Mae argaeledd a defnydd adnoddau ar gyfer cyrsiau dwys yn parhau'n fater heb ei ddatrys ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a Chyfarwyddwyr Canolfannau. Unwaith y'i cwblhawyd, dylid defnyddio'r ymchwil i

ddulliau addysgu a dysgu a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Cynulliad fel llwyfan diffiniol am gymryd penderfyniadau ar y ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth ddwys. Nes bod ffordd glir ymlaen ar gyfer dull cyson o ddarparu cyrsiau dwys, dylai Llywodraeth y Cynulliad symud yn ofalus wrth gomisiynu unrhyw adnoddau Addysgu a Dysgu 'dros dro' a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer defnydd dwys, gan y medrai eu hoes silff fod yn gyfyngedig oherwydd canlyniad y gwaith ymchwil a gynhelir.

9.9.5 Cafodd yr adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion a ddatblygwyd eisoes dderbyniad da yn gyffredinol a gwneir defnydd da ohonynt o fewn y sector. Er y bu peth beirniadaeth adeiladol, yn gyffredinol bu'r adborth gan diwtoriaid a dysgwyr ar ansawdd a pherthnasedd deunyddiau yn gadarnhaol.

9.9.6 Er bod ymwybyddiaeth o'r rhan fwyaf o adnoddau ymysg tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion wedi cynyddu ers 2008, mae'n parhau'n flaenoriaeth i Ganolfannau Cymraeg i Oedolion hyrwyddo defnydd o'r gyfres o adnoddau sydd ar gael, yn neilltuol sicrhau y caiff deunyddiau rhad ac am ddim eu dosbarthu'n eang er mwyn gwella ansawdd a chysondeb o fewn y ddarpariaeth, ac yn y pendraw brofiad y dysgwyr, yn barhaus. Dylai fod yn flaenoriaeth neilltuol y dylai sicrhau ymwybyddiaeth o'r amrediad o ddeunyddiau addysgu a dysgu fod yn rhan greiddiol o anwythiad holl diwtoriaid newydd Cymraeg i Oedolion.

Argymhelliad 30

Dylai Canolfannau Cymraeg i Oedolion barhau i hyrwyddo adnoddau newydd addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion i diwtoriaid, gyda phwyslais neilltuol ar sicrhau fod cyflwyniad i'r ystod adnoddau sydd ar gael yn ffurfio rhan gyfannol o brosesau anwythiad Canolfannau (a darparwyr allanol).

9.9.7 Ymhellach, dylai fod yn flaenoriaeth barhaus i Lywodraeth y Cynulliad, Canolfannau Cymraeg i Oedolion, CBAC ac asiantaethau eraill sy'n

cynhyrchu adnoddau i sicrhau fod yr holl adnoddau mor hygyrch ag sydd modd ar gyfer dysgwyr a thiwtoriaid.

Argymhelliad 31

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried gwneud pob adnodd electronig ar gael ar Moodle arfaethedig Cymraeg i Oedolion fel y brif storfa gyfunol ar-lein ar gyfer adnoddau Cymraeg i Oedolion, gan felly symleiddio mynediad i adnoddau ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr. Dylai hyn gynnwys yr holl ddeunyddiau Cymraeg i Oedolion a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd (yn cynnwys adnoddau Acen a dolenn glir i adnoddau'r BBC). Yn ychwanegol, dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau fod dolenni cynhwysfawr ar gael ac yn eu lle o brif wefan Cymraeg i Oedolion¹⁰⁰ a Y Tiwtor a reolir gan CBAC a hyrwyddo dolenni o'r fath ar wefannau allweddol eraill (megis rhai cynhyrchwyr adnoddau eraill). Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd sicrhau fod tiwtoriaid yn cael digon o hysbysrwydd am yr holl ystod adnoddau Cymraeg i Oedolion (adnoddau rhad ac am ddim a rhai sydd ar gael i'w prynu).

9.10 DATBLYGIAD ARHOLIADAU CYMRAEG I OEDOLION

9.10.1 Cafodd prosiectau Arholiadau Cymraeg i Oedolion eu seilio'n dda ar wybodaeth o'r sector Cymraeg i Oedolion ei hunan a'u clymu gyda pholisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad i roi nodau cymhwyster seiliedig ar arholiadau yn eu lle ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr. Roedd rhesymeg polisi cadarn a chlir am gynnal y prosiectau arholiadau Cymraeg i Oedolion.

9.10.2 Roedd pob un o ddau brosiect arholiad Cymraeg i Oedolion yn cyflawni eu nodau ac amcanion ac mae fframwaith lefel iaith cenedlaethol clir a strwythur cymwysterau cysylltiedig yn awr yn ei le gyda llif rhesymegol drwy gyrсияu, deunyddiau dysgwyr, llwybrau achrediad a

¹⁰⁰ www.cymraegioedolion.org

chymwysterau seiliedig ar arholiad.

9.10.3 Mae'n amlwg fod y prosiectau arholiadau yn ffitio'n dda gydag ailstrwythuro'r sector Cymraeg i Oedolion, hyd yn oed er i'r prosiectau arholiadau gael eu cychwyn cyn sefydlu'r Canolfannau eu hunain. Mae bodolaeth y Canolfannau wedi golygu fod yr agenda cymwysterau ac arholiadau wedi symud ymlaen yn sylweddol - ac mae'r data a gasglwyd gan CBAC yn adlewyrchu hyn.

9.10.4 Bu cynnydd cyson flwyddyn ar flwyddyn yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau CBAC, yn neilltuol ar lefel Mynediad. Er y bu cynnydd bach yn y nifer yn sefyll arholiadau lefel Sylfaen yn 2009, mae'n parhau'n rhy fuan i ddweud os yw hyn yn cynrychioli cychwyn patrwm newydd o ddilyniant o un lefel i'r nesaf.

9.10.5 Roedd yr adborth ar yr arholiadau yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn o safbwynt dysgwyr a thiworiaid, gyda neges glir fod y dysgwyr hynny sy'n sefyll arholiadau yn cael llawer o fudd ohonynt, yn neilltuol cynnydd mewn hunanhyder.

9.10.6 Gwnaed cynnydd calonogol wrth weithredu llwybrau achredu CBAC dros y 12 mis diwethaf ac mae'n gadarnhaol fod tair Canolfan yn defnyddio'r model yma. Fodd bynnag, erys llawer i'w wneud yn y cyswllt hwn a chredwn fod angen i Lywodraeth y Cynulliad a chanolfannau Cymraeg i Oedolion fynd i'r afael â nifer o heriau allweddol.

9.10.7 Yn gyntaf, mae angen deall a thrin pryderon a fynegwyd gan diwtoriaid am lwybrau achredu. Mae adborth anecdotaidd gan ddysgwyr hefyd yn awgrymu fod angen gwneud mwy o waith wrth gyfathrebu gwerth llwybrau achredu, yn neilltuol i'r rhai sy'n dewis peidio sefyll arholiadau CBAC.

Argymhelliad 32

Mae angen cynyddu ymdrechion i sicrhau fod mwy o ddefnydd a dealltwriaeth o lwybrau achrediad ymysg tiwtoriaid a dysgwyr, fel y caiff eu gwerth mewn cynnig canlyniad dysgu cydnabyddedig ei werthfawrogi'n ehangach.

9.10.8 Yn ail, oherwydd bod cyfanswm nifer dysgwyr Cymraeg i Oedolion ar gyrsiau Mynediad i Uwch sy'n mynd ymlaen i sefyll arholiadau yn dal yn isel (11% yn gyffredinol), ymddengys yn rhesymegol y dylai Llywodraeth y Cynulliad, CBAC a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion ystyried ffyrdd y medrid ehangu llwybrau achredu i gynyddu'r gyfran o ddysgwyr sy'n ennill cymwysterau llawn. Yn neilltuol, dylid rhoi ystyriaeth i sut y gall dysgwyr Cymraeg i Oedolion (a ddewisodd beidio sefyll arholiadau) gael cymhwyster ffurfiol am gwblhau'r nifer gofynnol o gredydau ar gyfer lefel iaith neilltuol (yn gysylltiedig gyda'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau). Byddai hyn yn golygu fod y strwythur cymwysterau Cymraeg i Oedolion yn debycach i'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau yng Nghymru a gyda'r strwythurau cymwysterau sydd ar waith ar gyfer pynciau Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Fodd bynnag, wrth ddilyn y trywydd hwn dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad yw'r datrysiad a gynigir yn tanseilio ymdrechion cyfredol i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg i Oedolion sy'n sefyll arholiadau.

Argymhelliad 33

Dylai Llywodraeth y Cynulliad, CBAC a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion ymchwilio'r posibilrwydd o ddyfarnu cymwysterau i ddysgwyr sy'n cwblhau'n llwyddiannus y nifer gofynnol o lefelau iaith neilltuol, gan fod yn ofalus nad yw unrhyw newidiadau a gyflwynir yn tanseilio unrhyw gymhelliant i sefyll arholiadau.

9.10.9 Yn olaf, mae angen edrych yn feirniadol ar faint o waith ychwanegol y

mae llwybrau achredu yn ei achosi i diwtoriaid sesiynol – nad ydynt efallai ond yn cael eu talu am yr amser a dreuliant yn yr ystafell ddosbarth.